

Rhaglen Gyflawn



Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL



CONWY
CYNGOR SWAIDESTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL



CYNGOR
Sir Ddinbych
Denbighshire
COUNTY COUNCIL



CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL



wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR SWAIDESTREF SIROL
wrecsam

Cyfarfod

CYD-BWYLLGOR GWE

Dyddiad ac Amser

10.30 y.b., DYDD MERCHER, 5ED HYDREF, 2022

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

Pwynt Cyswllt

Rhodri Jones

01286 679256

Rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Mawrth, 27 Medi 2022)

CYD-BWYLLGOR GWE

Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

Cynghorydd Ieuan Williams
Cynghorydd Gill German
Cynghorydd Julie Fallon
Cynghorydd Ian Roberts
Cynghorydd Phil Wynn
Cynghorydd Beca Brown

Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Gwynedd

Aelodau cyfetholedig heb Bleidlais

Claire Armitstead
Richard Collet
Jonathan Morgan
Alison Fisher
Heather Loveridge

Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd
Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd
Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig
Cynrychiolydd Llywodraethwr
Yr Eglwys yng Nghymru

Swyddogion Heb Bleidlais

Dr Lowri Brown
Claire Homard
Garem Jackson
Marc Berw Hughes
Karen Evans
Geraint Davies

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Sir Ddinbych

Swyddogion yn bresennol

Rhodri Jones
Dewi Morgan
Sion Huws
Arwyn Thomas
Alwyn Jones
Bethan Eleri Roberts
Gareth Williams
Graham Boase

Awdurdod Lletyol
Awdurdod Lletyol
Awdurdod Lletyol
Rheolwr Gyfarwyddwr GwE
Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE
Rheolwr Rheoli Perfformiad GwE
Bwrdd Ymglynghorol GwE
Cyngor Sir Ddinbych

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau o absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

5 - 10

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 13.07.2022 fel rhai cywir.

5. CYLLIDEB GWE 2022/2023 - MONITRO CHWARTER 1

11 - 15

Diweddarau aelodau'r Cydbwyllgor ar yr adolygiad ariannol diweddaraf o gyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2022/23.

6. CYNLLUN BUSNES GWE 2022/2023 - ADRODDIAD MONITRO CHWARTER 1

16 - 46

Cyflwyno Adroddiad monitro chwarter 1 - Cynllun Busnes Rhanbarthol 2022-2023 GwE i'r Cyd-Bwyllgor.

7. Y DAITH DDIWYGIO: ADRODDIAD CYNNYDD

47 - 74

Cyflwyno adroddiad cynnydd pellach i aelodau'r Cyd-bwyllgor ar baratodau ysgolion i waith Cwricwlwm i Gymru yn sgil yr agenda adnewyddu a diwygio.

8. RHAGLEN WAITH GWE YN YSTOD TYMOR YR HYDREF A'R GWANWYN 2022 - 2023

75 - 77

I Gyflwyno gwybodaeth i aelodau'r Cyd-bwyllgor ar brif ffocws ein rhaglen waith ar gyfer tymor yr hydref a'r tu hwnt.

9. CYNHADLEDD RANBARTHOL TYMOR YR HYDREF GWE

78 - 84

I Gyflwyno gwybodaeth i aelodau'r Cyd-bwyllgor am gynhadledd ranbarthol GwE.

CYD-BWYLLGOR GWE – 13/07/22

Yn bresennol:

Y Cynghorwyr: Ieuan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Gill German (Cyngor Sir Ddinbych), Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Phil Wynn (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Beca Brown (Cyngor Gwynedd).

Swyddogion Heb bleidlais: Dr Lowri Brown (Cyngor Sir Bwrdeistref Conwy), Claire Homard (Cyngor Sir y Fflint), Garem Jackson (Cyngor Gwynedd) a Rhys Howard Hughes (Cyngor Sir Ynys Môn).

Swyddogion yn bresennol:

GwE – Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr), Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol), Bethan Roberts (Rheolwr Rheoli Perfformiad).

Cyngor Gwynedd, yr Awdurdod Lletyol – Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Sion Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau), Hywyn Jones (Cyfrifydd Grŵp), Gwion Jones (Uwch Gyfrifydd) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Cyngor Sir Ddinbych – Graham Boase (Prif Weithredwr)

Yn bresennol ar gyfer eitem 11:

Sabel William – Archwilio Cymru

Yn bresennol ar gyfer eitem 16:

Luned Fôn Williams – Rheolwr Archwilio (Cyngor Gwynedd)

1. ETHOL CADEIRYDD

Ethol y Cynghorydd Julie Fallon yn Gadeirydd y Cyd-bwyllgor ar gyfer y flwyddyn 2022-2023.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Ethol y Cynghorydd Gill German yn Is-Gadeirydd y Cyd-bwyllgor ar gyfer y flwyddyn 2022-2023.

3. YMDDIHEURIADAU

Derbynwyd ymddiheuriadau gan Karen Evans (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Geraint Davies (Cyngor Sir Ddinbych).

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

5. MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

6. COFNODION

Cadarnhawyd fod y cofnod a gyflwynwyd o'r cyfarfod ar y 16eg o Chwefror, 2022 yn gywir.

7. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2021-2022 GWE

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Rheolwr Gyfarwyddwr GwE gan nodi y prif bwyntiau isod:

- Er eglurder, nodwyd fod cynnwys yr adroddiad yn deillio o ymweliadau ag ysgolion, themâu o gynlluniau busnes, trafodaethau gyda'r Bwrdd Rheoli a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.
- Datganwyd fod nifer o agweddau cadarnhaol i'w clodfori yn yr adroddiad megis
 - o Bod cydweithio effeithiol wedi sicrhau cefnogaeth briodol i ysgolion yn ystod cyfnod heriol iawn drwy gynnal cyswllt parhaus.
 - o Datblygwyd system dysgu o bell i gydymffurfio gyda heriau newydd oedd yn wynebu addysg yng Nghymru.
 - o Mae gwefan GwE yn profi yn boblogaidd iawn.
- Eglurwyd bod GwE a Prifysgol Bangor yn cydweithio'n agos mewn perthynas â prosiect 'Ein Llais
- Cydnabyddwyd bod sawl her yn gwynebu GwE yn y dyfodol megis:
 - o datblygu a magu gweithlu dros gyfnod estynedig.
 - o Datblygu arweinyddiaeth. Roedd y cyfnodau clo yn gyfnod o 'reoli' yn hytrach na 'arwain' er mwyn sicrhau diogelwch ac felly mae angen sicrhau fod y sgiliau arweinyddiaeth yn cael eu datblygu unwaith yn rhagor.
 - o Materion busnes megis cofrestr risg, gwerth am arian a herio perfformiad, yn ogystal â chyfrifoldeb i ddatblygu staff ysgolion a gweithlu GwE.
- Yn dilyn cais am wybodaeth bellach ar bynciau penodol, eglurodd y Rheolwr Gyfarwyddwr:
 - o Bod llawer o frwdrfrydedd gan ysgolion uwchradd y dwyrain i fod yn rhan o brosiect 'Ein Llais Ni'. Rhaid cael proses rhaeadru effeithiol er mwyn sicrhau fod y prosiect yn cael ei ddatblygu'n llwyddiannus. Mae'r Gweinidog Addysg wedi dangos diddordeb yn y prosiect ac yn awyddus i rhannu'r prosiect gyda rhanbarthau eraill er mwyn mabwysiadu'r project yn genedlaethol.
 - o Gwneir gwaith cyson er mwyn sicrhau lles disgyblion a staff. Mae'r gwaith hwn yn amrwyo fesul awdurdod oherwydd anghenion gwahanol yr ardaloedd. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud ym mis Medi ar lefel ysgolion unigol..
 - o Mae hyder i ddefnyddio'r iaith Gymraeg wedi dirywio ers y cyfnodau clo felly mae gwaith yn cael ei wneud er mwyn datblygu'r hyder hwnnw unwaith eto. Mae yna leihad yn y nifer o ddisgyblion sydd yn dewis astudio'r pwnc 'Cymraeg' yn eu addysg uwch a throsiant mewn nifer o swyddi penaethiaid. Mae gwaith yn cael ei wneud ar y cyd gyda Prifysgol Bangor er mwyn annog disgyblion i barhau gyda'u addysg yn yr iaith Gymraeg.. Mae gwaith yn cael ei wneud er mwyn sicrhau bod gweithlu dwy-ieithog yn cael ei feithrin.
 - o Mae'r berthynas rhwng gofalwyr/rhieni a'r ysgolion wedi cael ei herio yn y cyfnodau clo. Mae gwaith yn cael ei wneud er mwyn datblygu pecyn o adnoddau er mwyn rhoi arweiniad i rieni ar y dulliau gorau o gefnogi plant a phobl ifanc.

PENDERFYNWYD

- Derbyn a chymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2021-2022.

8. CYNLLUN BUSNES GWE 2021-2022 – ADRODDIAD MONITRO CHWARTER 4

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol GwE gan gadarnhau fod y wybodaeth yn atgyfnerthu'r wybodaeth a rannwyd yn Eitem 7. Bydd gwybodaeth rhanbarthol yn cael ei rannu yn y byrddau ansawdd sirol.

PENDERFYNWYD

- Cymeradwyo'r adroddiad ar gyfer monitro chwarter 4 - Cynllun Busnes Rhanbarthol GwE 2021-2022.

9. CYFRIFON GWE 2021-2022 – ALLDRO REFENIW

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletyol a nodwyd y prif bwyntiau isod:

- Er bod cyllideb gytbwys wedi cael ei osod ar gyfer y flwyddyn ariannol, mae sefyllfa ddiwedd y flwyddyn yn dangos gorwariant o £230,128 am y flwyddyn ariannol.
- Dengys yr adroddiad fod tanwariant mewn rhai meysydd megis gweithwyr a cludiant. Y prif resymau dros hyn ydi fod llawer o'r gweithlu wedi cael secondiad i weithio ar brosiectau penodol, yn ogystal a'r diffyg teithio yn ystod y cyfnodau clo.
- Bu gorwariant ar adeilad GwE fel canlyniad i golled incwm wrth i bobl beidio rhentu ystafelloedd yn ystod y cyfnodau clo. Mae hyn i'w ddisgwyl hefyd yn y flwyddyn ariannol bresennol ond disgwylir i'r sefyllfa wella.
- Eglurwyd fod penderfyniad wedi cael ei wneud yn ystod y flwyddyn i wario cyfran o'r arian a gynilwyd yng nghronfa wrth gefn GwE. Mae tanwariant yn y blynyddoedd diwethaf wedi arwain i'r gronfa gwrth gefn gynyddu'n sylweddol i £563,530 ar gychwyn y flwyddyn ariannol. Mae defnyddio'r arian yma, ynghyd â'r tanwariant mewn meysydd penodol wedi ariannu gwariant yn erbyn y pennawd Prosiectau Penodol. Bu penderfyniad bwriadol i wario'r arian yma er mwyn sicrhau fod ysgolion yn parhau i gael cefnogaeth yn ystod y cyfnodau clo.
- Gofynnir i'r pwyllgor gymeradwyo trosglwyddiad o gyfrif wrth gefn GwE er mwyn arainnu'r gwariant yma. Bydd balans o £437,503 yn weddill yn y gronfa wrth gefn.

Mewn ymateb i sylwadau gan y Cadeirydd nodwyd y pwyntiau isod gan Rheolwr Gyfarwyddwr GwE:

- Bydd sgysiau yn cael eu cynnal gyda'r Bwrdd Rheoli pan yn briodol i ystyried trefniadau gweithio'r gweithlu yn y dyfodol. Y gobaith yw y bydd y mwyafrif o weithlu GwE yn gweithio yn y swyddfa a/neu allan yn yr ysgolion. Bydd angen trafodaethau pellach ar modelau gweithio i'r dyfodol.
-

PENDERFYNWYD

- Nodi a derbyn y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2021-2022 a gyflwynwyd yn Atodiad 1 fel y sefyllfa ariannol derfynol.
- Cymeradwyo trosglwyddiad ariannol o gronfa wrth gefn GwE i ariannu gorwariant 2021-2022 o £230,128.

10. DATGANIAD O'R CYFRIFON 2021-2022

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletyol. Nodwyd bod y datganiad yn dilyn ffurf statudol, a'i fod yn cymharu gwariant ac incwm blwyddyn ariannol 2021-2022 gyda'r flwyddyn ariannol blaenorol (gydag addasiadau lle bo'r angen er mwyn sicrhau fod y gymhariaeth yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa). Nodwyd fod y Pennaeth Cyllid wedi llofnodi'r datganiadau drafft ar 30 Mai 2022, oedd o fewn y terfyn amser statudol. Bydd y dogfennau yn cael eu cyflwyno i Archwilio Cymru er mwyn eu harchwilio, a bydd y Datganiad terfynol ac

adroddiad yr archwilwyr yn cael eu cyflwyno i gyfarfod 23 Tachwedd 2022 o'r Cyd-bwyllgor am gymeradwyaeth.

PENDERFYNWYD

Derbyn a chymeradwyo Datganiad o Gyfrifon GwE (yn amodol ar archwiliad) am 2021-2022.

11. ARCHWILIO CYMRU – CYNLLUN ARCHWILIO 2022 GWE

Cyflwynwyd yr adroddiad gan gynrychiolydd o Archwilio Cymru a nodwyd y prif bwyntiau isod:

- Mae'r cynllun yn gosod allan y gwaith bwriedir ei gyflawni yn 2022.
- Nodwyd efallai bydd yn rhaid ailystyried amserlen yr archwiliad ac byddai'r swyddogion mewn trafodaeth gyda GwE petai'r angen yn codi.

PENDERFYNWYD

Derbyn a chymeradwyo Cynllun Archwilio 2022 ac ymrwymo i weithio tuag at cyflawni dyletswyddau statudol.

12. DATGANIAD LLYWODRAETHU 2021-2022

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Pennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletyol a nodwyd y prif faterion isod:

- Eglurwyd ei fod yn ofyn statudol ar GwE i baratoi datganiad llywodraethu. Bydd yn cael ei gyflwyno gyda'r cyfrifon wedi i Archwilio Cymru gwblhau ei archwiliad.
- Dangoswyd enghreifftiau o sut mae GwE ac ysgolion y rhanbarth eisoes wedi dangos llwyddiant wrth ddilyn y saith egwyddor.
- Cadarnhawyd fod y ddogfen hon yn ddogfen fyw, sydd yn newid yn barhaus ble mae'n briodol, er mwyn adlewyrchu unrhyw heriau.

PENDERFYNWYD

Derbyn a chymeradwyo y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2021-2022.

13. CYNLLUN BUSNES GWE 2022-2023

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a nodwyd y bwyntiau isod:

- Mae perthynas cadarn rhwng yr adroddiad blynyddol a'r cynllun busnes. Defnyddir amcanion llywodraethol a sefydliadol GwE er mwyn sefydlu prif flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn..
- Eglurwyd bod y blaenoriaethau yn cael eu gosod yn erbyn yr amcanion a bod cynlluniau busnes manwl yn cael eu gosod a'u rhoi ar waith er mwyn sicrhau fod yr amcanion yn cael eu diwallu.
- Nodwyd bod ALI yn gallu ychwanegu materion perthnasol ar lefel sirol i'w cynlluniau busnes yn ogystal. .
- Nodwyd bydd diweddariadau ar y materion hyn yn cael eu adrodd yn gyson i'r pwyllgor hwn ac i gyfarfodydd craffu sirol. Bydd materion gweithredol yn cael eu trafod yn ogystal yn y Byrddau Ansawdd Sirol.

PENDERFYNWYD

Cymeradwyo Cynllun Busnes Rhanbarthol GwE ar gyfer 2022-2023

14. COFRESTR RISG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a nodwyd y prif faterion isod:

- Nodwyd fod sawl risg wedi cael ei ddiwygio o fewn y ddogfen fyw yma..
- Datganwyd mai un o'r risgiau mwyaf ar gyfer y blynyddoedd i ddod ydi'r gyllideb a chwyddiant, yn enwedig gan fod cyllideb GwE wedi lleihau 22% yn y blynyddoedd diweddar.
- Trafodwyd sawl risg arall yn y flwyddyn nesaf megis:
 - o Effeithiau cyfnod clo a phwysau gwaith
 - o Sgiliau unigolion
 - o Parodrwydd i groesawu'r cwrcilwm newydd
 - o Ansicrwydd ar gyfer atebolrwydd / mesurau herio perfformiad a sut mae atebolrwydd cenedlaethol yn amharu ar ofynion lleol.
 - o Toriadau i gyllidebau ysgolion..

PENDERFYNWYD

Nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.

15. CANLLAWIAU GWELLA YSGOLION: FFRAMWAITH AR GYFER GWERTHUSO, GWELLA AC ATEBOLRWYDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol GwE a nodwyd y prif faterion isod:

- Esboniwyd fod y canllawiau hyn wedi cael eu cyhoeddi yn dilyn diddymu'r system o gatedoreiddio ysgolion. Mae'n system anstatudol ar hyn o bryd ond mae disgwyl iddo fod yn statudol erbyn Medi 2024. Serch hyn, mae disgwyliad ar ysgolion i geisio mabwysiadu'r canllawiau mor fuan â phosibl.
- Nodwyd mai prif agweddau'r canllawiau ydi:
 - o Rhaid i gyrrff llywodraethu sicrhau bod copi cryno o'u cynllun datblygu ysgol ar gael trwy'r Adroddiad Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol. Er mwyn helpu i gynyddu hyder yn yr ysgol a'i chynllun datblygu a'r ymrwymiad iddynt, dylai'r ysgol gyhoeddi'r copi cryno ar ei gwefan. Dylid ysgrifennu'r crynodeb mewn iaith sy'n hawdd i rieni, gofalwyr a dysgwyr ei deall. .
 - o Rhaid hefyd rhoi trosolwg tudalen o hyd ar gasgliadau/canfyddiadau hunanwerthuso'r ysgol, gan gyfleu prif gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu,. Mae disgwyliad iddo gynnwys blaenoriaethau gwella lefel uchel; camau gweithredu a gynlluniwyd er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau hynny; a cherrig milltir perthnasol.
 - o Mae angen i'r corff llywodraethu ddangos holl gymorth allanol mae'r ysgol wedi ei dderbyn yn y flwyddyn ariannol honno (gan gynnwys cefnogaeth GwE).
 - o Bydd y cyrrff llywodraeth yn adrodd ar gynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r flwyddyn flaenorol.
 - o Rhaid i GwE a'r Awdurdod Lleol gynnal deialog proffesiynol gyda'r corff llywodraethu er mwyn trafod prosesau hunan werthuso, cryfderau'r ysgol ac unrhyw fater arall sydd angen i'r corff llywodraethol fod yn ymwybodol ohonno a'i fonitro.
 - o Rhaid i'r corff llywodraethol dderbyn adroddiad ar sut bydd cefnogaeth yn cael ei gynnal.

Mewn ymateb i sylwadau, nododd y Rheolwr Gyfarwyddwr:

- Ei fod yn cydnabod fod y canllawiau hyn wedi cael eu cyflwyno ar amser heriol iawn gan fod ysgolion dal yn ymdopi gyda materion Covid-19 yn ogystal â phrysurdeb diwedd flwyddyn academaidd. Er bod ysgolion yn pryderu na fyddai'n bosibl cyflawni'r canllawiau hyn erbyn diwedd y flwyddyn academaidd, mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr yn

ffyddiog byddai'r ysgolion yn gallu gweithredu ar y canllawiau yn fuan yn nhymor yr Hydref er mwyn sicrhau erbyn diwedd y flwyddyn academaidd nesaf, bydd yr ysgolion wedi ymrwymo â'r canllawiau yn effeithlon ac yn llwyddiannus.

- Byddai hyn yn rhoi amser i ysgolion ddod i arfer â'r canllawiau hyn cyn iddynt fod yn statudol ac hefyd yn rhoi amser i werthuso'r gwaith er mwyn gallu ceisio datrys y problemau sy'n codi o'r canllawiau cyn iddynt gael eu gwneud yn statudol ym mis Medi 2024.

PENDERFYNWYD

Nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.

16. SIARTER ARCHWILIO MEWNOL A CHYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2022-2023

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr Archwilio Cyngor Gwynedd a nodwyd y prif faterion isod:

- Eglurwyd fod cael archwiliad mewnol yn rhoi hyder i'r dinesydd ar faterion llywodraethu. Er mwyn iddo weithio yn effeithiol rhaid creu siarter archwilio mewnol. Bydd yr adroddiad archwilio mewnol yn cael ei gyhoeddi ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ond os oes methiannau mawr yn codi cyn hynny bydd rheini yn cael ei amlygu gan yr archwiliwyr i'r Rheolwr Gyfarwyddwr cyn ddiwedd y flwyddyn ariannol.
- Y prif meysydd bydd yn cael ei archwilio ydi:
 - o Hyfforddiant
 - o Trefniadau Recriwtio a Dargadw Staff - gyda cynllun olyniaeth gyda gweithiol aml-leoliad
 - o Rheoli Absenoldebau - mae 26% o gyflogwyr yn cynnwys covid hir fel prif reswm am absenoldeb hir dymo

PENDERFYNWYD

Cymeradwyo Siarter Archwilio Mewnol a Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2022-2023.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:30yp a daeth i ben am 3.15yp.

CADEIRYDD

Eitem 5

GwE: Cydbwyllgor 05/10/22



CYFARFOD	Cydbwyllgor GwE
DYDDIAD	05 Hydref 2022
TEITL	Cyllideb GwE 2022/23 – Adolygiad Chwarter 1af
PWRPAS	<ul style="list-style-type: none">• Diweddarau aelodau'r Cydbwyllgor ar yr adolygiad ariannol diweddaraf o gyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2022/23.• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiannau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn.
ARGYMHELLIAD	Derbyn yr adroddiad.
AWDUR	Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd.

1. CASGLIAD

- 1.1 Ar sail gwariant ac incwm y chwarter cyntaf ac amcangyfrifon yn seiliedig ar eglurhad rheolwyr, mae'r adolygiad cychwynnol yma yn rhagweld tanwariant net o (£116,306) erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2022/23.
- 1.2 Mae'r rhan ddilynol o'r adroddiad yma'n egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau a ragwelir.

2. AMRYWIADAU ARIANNOL

2.1 Gweithwyr:

Chwarter 1: Tanwariant (£84,046)

Rydym yn rhagweld tanwariant oherwydd trosiant staff, gan gynnwys staff sydd ar secondiad a staff ar gyfnod mamolaeth, yn ogystal â phroblemau recriwtio yn gyffredinol.

2.2 Adeilad:

Chwarter 1: Gorwariant £25,367

Mae GwE yn ddibynnol ar incwm gan ysgolion, awdurdodau a defnydd mewnol o gynlluniau sy'n cael eu hariannu drwy grantiau, am rent o ddefnydd adeiladau GwE. Disgwylir i'r digwyddiadau hyn ail-gychwyn ym mis Medi, a felly rhagwelir bydd y ffrwd incwm yma yn gwella yn ystod y flwyddyn, ond bydd diffyg incwm ar gyfer y cyfnod Ebrill i Awst yn arwain at orwariant.

2.3 Cludiant:

Chwarter 1: Tanwariant (£46,771)

Ar ôl eu hatal yn ystod yr argyfwng Covid-19, mae ymweliadau ag ysgolion wedi ailgychwyn erbyn hyn. Er hynny, mae ffyrdd newydd o weithio yn gyffredinol wedi arwain at fwy o gyfarfodydd rhithiol, ac felly llai o deithio.

3. CRONFA TANWARIANT

3.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn ariannol 2022/23 oedd £437,503.

3.2 Amcangyfrifir bydd cyfanswm y gronfa yn £553,808 ar ddiwedd 2022/23, wrth gynnwys y tanwariant a ragwelir uchod.

ATODIADAU

Atodiad 1: Cyllideb GwE 2022/23 – Adolygiad Chwarter 1af.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb

Y Swyddog Cyllid Statudol:

Cyd-awdur yr adroddiad

CYD-BWYLLGOR GwE - CYNGHORAU GOGLEDD CYMRU - Adolygiad Cyllid 2022/23 : Chwarter Cyntaf Ebrill - Mehefin 2022

	Cyllideb Agoriadol £	Addasiadau £	Cyllideb Diwygiedig £	Gwariant Rhagwelir £	Gor / (Tan) Wariant Net £
Gwariant					
Gweithwyr					
Cyflogau					
- Rheolaeth, Broceru, Safonau a Gweinyddiaeth	914,159		914,159	822,075	(92,084)
- Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant	4,029,640		4,029,640	3,952,513	(77,127)
- Staff ar Secondiad	147,071	8,590	155,661	155,661	0
- Trosglwyddo yn erbyn 'Prosiectau Penodol'	(1,835,832)		(1,835,832)	(1,750,667)	85,165
Hyfforddiant, hysbysebu a costau gweithwyr eraill	44,070		44,070	44,070	0
Adeilad					
Rhent (yn cynnwys gwasanaethau)	179,274		179,274	179,274	0
Ad-daliad Defnydd 'Prosiectau Penodol' o'r ystafelloedd	(60,880)		(60,880)	(35,513)	25,367
Cludiant					
Costau Teithio	142,041		142,041	95,270	(46,771)
Cyflenwadau a Gwasanaethau					
Dodrefn, offer, argraffu, post, ffôn, hurio stafelloedd ayb	75,520		75,520	65,520	(10,000)
Technoleg Gwybodaeth (cyfraniad i gronfa adnewyddu)	17,070		17,070	17,070	0
Ffioedd archwilio	11,853		11,853	11,853	0
Broceru	298,745		298,745	298,745	0
Costau Gwasanaethau Cefnogol Awdurdod Lletyol Cyngor Gwynedd					
Cyfreithiol	5,925		5,925	5,925	0
Adnoddau Dynol	10,160		10,160	10,160	0
Cyllid	43,933		43,933	43,933	0
Technoleg Gwybodaeth	48,591		48,591	48,591	0
Ymrwymadau Model Cenedlaethol	469,948		469,948	469,948	0
Prosiectau Penodol					
Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol	10,650,698	(140,964)	10,509,734	10,509,734	0
Grant Datblygu Disgyblion - Plant Mewn Gofal	1,135,254	(9,404)	1,125,850	1,125,850	0
Grant Datblygu Disgyblion - Cyngorydd Strategol	102,787	(2,787)	100,000	100,000	0
Grant Datblygu Disgyblion - Cyllid Dan Arweiniad y Consortiwm	195,847		195,847	195,847	0
Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG)	346,769		346,769	346,769	0
Trawsnewid Y System Ady	75,295	(63,949)	11,346	11,346	0
Fin-Ed Pathfinder Project	10,625		10,625	10,625	0
Fframwaith Defnydd O'r Gymraeg	207,720		207,720	207,720	0
Ein Llais Ni	210,900		210,900	210,900	0
Cyfanswm Gwariant	17,477,183	(208,514)	17,268,669	17,153,219	(115,450)

	Cyllideb Agoriadol	Addasiadau	Cyllideb Diwygiedig	Gwariant Rhagwelir	Gor / (Tan) Wariant Net
	£	£	£	£	£
<u>Incwm</u>					
Cyfraniadau ar gyfer costau rhedeg y gwasanaeth craidd					
- Cyngor Ynys Môn (21/22: 10.16% - 22/23: 10.14%)	(445,643)		(445,643)	(445,643)	0
- Cyngor Gwynedd (21/22: 17.63% - 22/23: 17.59%)	(772,960)		(772,960)	(772,960)	0
- Cyngor Conwy (21/22: 15.28% - 22/23: 15.26%)	(670,688)		(670,688)	(670,688)	0
- Cyngor Dinbych (21/22: 15.36% - 22/23: 15.48%)	(680,010)		(680,010)	(680,010)	0
- Cyngor Fflint (21/22: 22.72% - 22/23: 22.67%)	(996,049)		(996,049)	(996,049)	0
- Cyngor Wrecsam (21/22: 18.86% - 22/23: 18.86%)	(828,867)		(828,867)	(828,867)	0
Prosiectau Penodol					
Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol	(10,650,698)	140,964	(10,509,734)	(10,509,734)	0
Grant Datblygu Disgyblion - Plant Mewn Gofal	(1,135,254)	9,404	(1,125,850)	(1,125,850)	0
Grant Datblygu Disgyblion - Cynghorydd Strategol	(102,787)	2,787	(100,000)	(100,000)	0
Grant Datblygu Disgyblion - Cyllid Dan Arweiniad y Consortiwm	(195,847)	0	(195,847)	(195,847)	0
Athrawon Newydd Gymhwys (ANG)	(346,769)	0	(346,769)	(346,769)	0
Trawsnewid Y System Ady	(75,295)	63,949	(11,346)	(11,346)	0
Fin-Ed Pathfinder Project	(10,625)	0	(10,625)	(10,625)	0
Fframwaith Defnydd O'r Gymraeg	(207,720)	0	(207,720)	(207,720)	0
Ein Llais Ni	(210,900)	0	(210,900)	(210,900)	0
Incwm Secondiadau	(147,071)	(8,590)	(155,661)	(155,661)	0
Incwm Arall	0		0	(856)	(856)
Cyfanswm Incwm	(17,477,183)	208,514	(17,268,669)	(17,269,525)	(856)
Cyfanswm Cyllideb Net	0	0	0	(116,306)	(116,306)
<u>Memorandwm -</u>					
<u>Y Gronfa Tanwariant</u>					
			Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill 2022		(437,503)
			Ychwaneger/Llai - (Tan)/Gorwariant am y flwyddyn gyllidol 2022/23		(116,306)
			Llai - Defnydd o'r Gronfa		0
			Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth 2023		(553,808)



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

5 HYDREF 2022

Adroddiad gan: Arwyn Thomas , Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Testun: Cynllun Busnes Rhanbarthol 2022-2023 GwE – Adroddiad monitro chwarter 1

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno Adroddiad monitro chwarter 1 - Cynllun Busnes Rhanbarthol 2022-2023 GwE i'r Cyd-Bwyllgor.

2.0 Cefndir

2.1 Mae'r Cynllun Busnes yn amlinellu ein gweledigaeth, ein gwerthoedd a'n hymddygiad, y meysydd gwelliant â blaenoriaeth ar draws y rhanbarth.

2.2 Mae ein blaenoriaethau strategol yn arddel y blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol presennol. Adnabuwyd y prif feysydd i'w datblygu drwy broses hunan werthuso'r gwasanaeth.

2.3 Adroddir yn chwarterol ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes Rhanbarthol i'r Cyd-bwyllgor. Ynglwm mae'r adroddiad monitro ar gyfer chwarter 1.

3.0 Ystyriaethau

3.1 Y Rheolwr Gyfarwyddwr a Chadeirydd y Bwrdd Rheoli sydd â chyfrifoldeb am gyflawni'r Cynllun Rhanbarthol fel swyddogion atebol. Y Cyd-bwyllgor sydd yn atebol yn y pen draw am gyflwyno'r cynllun.

3.2 Mae Fframwaith Cynllunio Busnes GwE yn sicrhau eglurder a chytgord strategol wrth gyflawni blaenoriaethau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Drwy gydol y flwyddyn, bydd adroddiadau yn ymwneud â'n ffrydiau blaenoriaeth yn y Cynllun Busnes yn cael eu bwydo drwy ein grwpiau llywodraethu.

3.3 Cefnogir y blaenoriaethau yma gan gynlluniau manwl y gwasanaeth sy'n nodi'r cymorth a'r ddarpariaeth sydd ar gael i bob ysgol yn y rhanbarth. Amlinellir sut a phryd y bydd pob blaenoriaeth yn cael ei chyflawni ac yn gosod disgwyliadau o ran y camau nesaf wrth gyflawni'r daith ddiwygio.

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor gymeradwyo a derbyn yr adroddiad monitro ar gyfer chwarter 1.

4.2 Penderfynu a oes unrhyw agweddau y dymunant eu trafod ymhellach mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

5.0 Goblygiadau Ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol.

6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

8.1 Ymgynghori â Bwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-Bwyllgor.

9.0 Atodiadau

9.1 Atodiad 1 - Adroddiad monitro chwarter 1

Atodiad 2 – Data Rhanbarthol chwarter 1

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Swyddog Cyllid Statudol:

Rwyf yn fodlon fod y diweddariad yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa. Nid oes gennyf sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb ariannol.



GwE

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding



Cynllun Busnes GwE 2022-2023 Adroddiad Cynnydd Chwarter 1



www.gwegogledd.cymru



@GwEGogleddCymru



CYNNWYS

1. Cynllun Busnes Rhanbarthol GwE 2022-2023

- Y blaenoriaethau a'r ddarpariaeth ranbarthol sydd yn cyfrannu at flaenoriaethau awdurdod lleol - Adroddiad Cynnydd ar Chwarter 1

2. Atodiad: Data Rhanbarthol

Adroddiad Cynnydd ar Chwarter 1

AMCAN 1 - CWRICWLWM AC ASESU

Cefnogi cwricwlwm cenedlaethol ble mae tegwch a rhagoriaeth yn ganolog ac sydd yn gosod safonau uchel i bob dysgwr.

CONTINWWM ADDYSG 3 I 16

Cymorth i ysgolion wrth iddynt ddechrau gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru, gyda phwyslais cryf ar y 12 egwyddor addysgegol, arferion yn seiliedig ar dystiolaeth ac ymchwil weithredu.

Sicrhau defnydd effeithiol o strategaethau asesu ffurfiannol ym mhob ysgol fel rhan o addysgu, cynllunio, asesu a phontio. Ailgydio, adolygu ac uwchsgilio athrawon mewn asesu ffurfiannol yn dilyn Covid-19. Datblygu ymhellach Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu

Mae trefniadau ar waith ar gyfer gweithdy adolygu a chymorth hanner diwrnod i bob YCG ym mis Medi 2022. Rhennir adolygiad o'r holl adnoddau cefnogi asesu ffurfiannol â phob YCG a phob ysgol yn y rhanbarth ym mis Medi 2022. Mae gwaith cynllunio ar y gweill ar gyfer adolygu, ail-gydio a chefnogi ysgolion yn dilyn y gweithdai ym mis Medi i'r YCG. Mae gwaith cynllunio hefyd ar y gweill ar gyfer cydweithio'n draws-ranbarthol ac yn draws-sector, a phrosiect ymchwil gweithredol, gyda phwyslais ar drosglwyddo addysgeg/asesu ffurfiannol. Mae'r 'prosiect' ar fin cychwyn ym mis Ionawr 2023 am y flwyddyn galendr i sicrhau bod y gwaith ymchwil yn edrych ar yr effaith ar ddisgyblion wrth iddynt symud i Flwyddyn 7. Nifer yr ysgolion sydd yn cymryd rhan ac aelodau tîm cefnogi'r YCG i'w cadarnhau.

Datblygu dealltwriaeth ymarferwyr o sut i roi theori y 12 egwyddor addysgegol ar waith yn y dosbarth.

Mae'r tîm 3-8 wedi:

- Cynnal gweminar rhannu gwybodaeth ar Alluogi Dysgu i bob YCG, UDA, Athrawon a Chymorthyddion Dysgu ar draws y rhanbarth i ddyfnhau dealltwriaeth o elfennau allweddol y fframwaith CiG, gan gynnwys defnyddio arsylwi, chwarae a dysgu drwy chwarae, dysgu gwreiddiol a phwrpasol, dysgu yn yr awyr agored a datblygiad y plentyn. Mae mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth hefyd o'r 5 llwybr datblygol i sicrhau cysondeb darpariaeth a darpariaeth sy'n briodol i ddatblygiad y dysgwyr ieuengaf.
- Darparu sesiwn Dysgu Proffesiynol CiG (3 i 8 oed) yn rhanbarthol; rhannwyd arferion da mewn cynllunio, arferion asesu ffurfiannol gan gynnwys arsylwi. Drwy gydweithio ar draws y continwwm i gynllunio'r sesiwn gyda'r YCG yn draws-sector (8 i 11 oed), sicrheir cysondeb negeseuon o ran y cwricwlwm, yr asesu, y dysgu a'r addysgu.
- Cydweithio ag YCG traws-sector ar gynllunio a darparu hyfforddiant digidol i sicrhau cysondeb a phrofiadau dysgu ac addysgu sydd yn ddatblygiadol briodol i gyfoethogi sgiliau llafaredd Cymraeg.
- Darparu rhwydwaith CS rhanbarthol (Gorffennaf 22) i rannu arweiniad gan LC ar drefniadau asesu mynediad ar gyfer mis Medi 22, gan gynnwys strategaethau i sicrhau pontio effeithiol ac asesiadau mynediad gan gynnwys arsylwi yn erbyn gofynion statudol a phroffiliau un dudalen. Rhannwyd negeseuon allweddol i helpu gyda phontio i'r Meithrin.
- Cyfeirio ac arwain ysgolion at fodiwlau hyfforddiant cenedlaethol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen (Dysgu Sylfaen) i ddyfnhau eu dealltwriaeth ac uwch sgilio ymarferwyr mewn arsylwi, datblygiad plant, dysgu gwreiddiol a phwrpasol, chwarae a dysgu drwy chwarae, pontio a dysgu yn yr awyr agored.

Mae recordiadau o'r uchod i gyd ar gael ar Ganolfan Cefnogaeth GwE.

Pontio

Hyrwyddo pontio i ddysgwyr drwy sicrhau cyswllt uniongyrchol effeithiol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Cefnogi cydweithredu ar draws sectorau i sicrhau cysondeb mewn arferion addysgu effeithiol i gefnogi cyfnodau pontio dysgwyr.

Cryfhau ein ffordd golegol o fynd ati i wella ysgolion drwy feithrin ymhellach y diwylliant, yr ymddygiad, y systemau a'r prosesau fel bod arweinwyr ac athrawon yn yr awdurdodau lleol a'r ysgolion yn cyd-greu a rhannu eu harferion er mwyn sicrhau gwelliant.

Diweddarwyd tîm YCG GwE ar yr amseroedd a'r ddarpariaeth i wella pontio. Bwriedir i hyn gynnwys:

- Rhannu gwybodaeth ar ofynion cynlluniau pontio newydd yn fuan ym mis Medi gan arwain at ddatblygu'r cynlluniau hyn ar lefel uchel erbyn diwedd mis Medi.
- Sesiwn pontio gyda Dave Harris ar 07/10/22 a Venue Cymru i bob clwstwr - gan gynnwys edrych ar effaith hollistaidd cynllunio ar gyfer pontio, gan gynnwys amser i glystyrau drafod a chyd-lunio cynlluniau. Bydd y sesiwn yn cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys ALL er mwyn cryfhau'r dull gweithredu colegol a chyd-lunio a rhannu arferion.
- Cynllunnir sesiynau dilynol/cyfres o weithdai i glystyrau a rhanddeiliaid perthnasol.
- Asesu effaith a rhannu arferion llwyddiannus yn nhymor yr Hydref 2023 - bydd cynlluniau yn cael eu mireinio yn gyson.

Asesu

Parhau i weithio gydag ysgolion i ddatblygu'r Cofnod Cynnydd Disgyblion cynradd ysgol gyfan sydd yn cyd-fynd ag egwyddorion y cwricwlwm newydd.

Mae'r traciwr Ysgol Gynradd yn barod, gyda sesiwn wyneb yn wyneb ar y gweill ar gyfer mis Medi.

Cefnogi ysgolion wrth iddynt ddatblygu eu prosesau asesu effeithiol eu hunain

O ganlyniad i'r Rhwydweithiau Rhanbarthol a Lleol, sesiynau ar-lein ar Asesu a Chynnydd, Traciwr Disgyblion ac Asesu Mynediad, mae ysgolion yn dod i ddeall y gofynion Asesu newydd ac wrthi'n datblygu eu prosesau eu hunain.

Cefnogi ysgolion i ddatblygu eu prosesau mynediad eu hunain

Cynhaliwyd sesiynau ar-lein yn rhan o rwydwaith y Cyfnod Sylfaen ym mis Gorffennaf.

Roedd mwy na 100 o ymarferwyr yn y ddwy sesiwn (un Gymraeg ac un Saesneg). Bydd angen ail-ymweld â'r rhain ym mis Medi gyda phob YCG Cynradd yn cefnogi eu hysgolion a c o bosib sesiynau diweddar i ysgolion.

Gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion i hwyluso sgwrs broffesiynol effeithiol o fewn a rhwng ysgolion er mwyn datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd ar draws ehangder y cwricwlwm, fel bod modd i ymarferwyr adnabod, cofnodi a myfyrio ar gynnydd dysgwyr dros amser.

Cefnogi ysgolion i ddeall cynnydd grwpiau er mwyn myfyrio ar arferion fel rhan o broses hunan arfarnu effeithiol.

Mae rhai ysgolion/clystyrau yn dechrau cynllunio ar gyfer deialog broffesiynol reolaidd blwyddyn nesaf - mae angen ail-edrych ar hyn yn fuan ym mis Medi.

Cefnogi ysgolion i ddatblygu a rhannu arferion da parod i hwyluso cydweithio effeithiol rhwng y dysgwr, rhieni/gofalwyr ac ymarferwyr.

Mae llawer o ysgolion wedi mireinio eu prosesau yn ystod Covid. Rhannwyd enghreifftiau cychwynnol o arferion da ar draws y rhanbarth.

GWIREDDU'R CWRICWLWM (CWRICWLWM I GYMRU)

Darparu dysgu proffesiynol a chymorth ac arweiniad pwrpasol i ysgolion a lleoliadau i'w helpu i gyflawni pob agwedd ar y Daith Ddiwygio trwy weithredu'r cwricwlwm newydd ar sail eu manau cychwyn unigol.

Cynhaliwyd cyfres o sesiynau Dysgu Proffesiynol ar-lein dros dymor yr Haf i gefnogi arweinwyr ac athrawon gyda'u paratoadau:

- Roedd llawer o ysgolion yn bresennol gyda UDA/staff llawn yn yr ystafell
- Roedd cydweithwyr o Awdurdodau Lleol, Estyn a chonsortia eraill yn bresennol
- Recordiwyd a rhannwyd sesiynau dilynol ym mron pob clwstwr ac ysgol
- Nifer cynyddol o ysgolion yn cyfrannu at y sesiwn, yn rhannu arferion cynnar ac enghreifftiau lleol

Mae pob ysgol wedi cael trafodaeth ddilynol efo YCG a chynhaliwyd rhagor o sesiynau DP unigryw o fewn ysgolion a chlystyrau fel yr oedd angen. Mae pob ysgol a lleoliad wedi cael y cyfle i fyfyrion ar gynnydd a'i werthuso yn erbyn y camau tuag at wireddu'r cwricwlwm.

Effaith:

- Lefelau ymwneud yn uwch ar draws y rhanbarth ymysg aelodau UDA ac athrawon - pob ysgol yn ymwybodol o'r cynnig DP ac yn manteisio arno.
- Aelodau UDA ac athrawon yn fwy hyderus o ran deall egwyddorion fframwaith CiG ac wrth gynllunio i gyr-raedd y gofynion statudol newydd.
- Bu pob YCG yn rhan o ddeialog broffesiynol gyson ag aelodau UDA ar draws pob ysgol fel dilyniant i'r cynnig

DP lleol, ac yn cynnig DP unigryw i anghenion ysgolion unigol e.e. sesiynau dylunio'r cwricwlwm.

- Mwy o ysgolion 'ar drac' i fodloni'r gofynion statudol newydd erbyn mis Medi 2022.
- Nifer cynyddol o sesiynau DP i gefnogi athrawon gydag ysgolion yn rhannu enghreifftiau ymarferol o'u proses.
- Nifer cynyddol yn ymweld â Chanolfan Cefnogaeth Cwricwlwm i Gymru yn dangos bod ymarferwyr ysgolion yn gwyllo recordiadau o'r sesiynau DP ac yn edrych ar yr enghreifftiau.

TIMAU MEYSYDD DYSGU A PHROFIAD (MDaPh)

Sicrhau bod gan bob ymarferydd o bob lleoliad fynediad at Ddysgu Proffesiynol a chymorth o safon uchel yn nisgyblaethau'r MDaPh a'r themâu trawsbynciol

Mae 804 ymarferwyr wedi bod yn mynychu rhwydweithiau rhanbarthol a lleol fel rhan o baratoi at weithredu Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2022. Mae 804 o aelodau o blith ysgolion, YCG GwE, cyd-weithwyr o'r ALL, a staff CABAN. Sefydlwyd 48 rhwydwaith lleol hefyd - 6 MDaPh, dylunio'r cwricwlwm, cynnydd ac asesu. Sefydlwyd rhwydwaith rhanbarthol ble mae rhwng 115 a 130 o ymarferwyr yn mynychu yn rheolaidd. Sefydlwyd trefn gyda chyfarfodydd rhanbarthol misol ble mae'r Athro Graham Donaldson yn bresennol ac yn cynnig arweiniad/sylwadau gyda phwyslais y cyfarfodydd ar ddisgwyliadau fel y'u nodir yn y Daith at Weithredu. Bydd pob cyfarfod lleol ar draws y chwe ALL yn cyfarfod pob mis rhwng y cyfarfodydd rhanbarthol. Ffurfiwyd sianeli cyfathrebu drwy TEAMS efo'r aelodau ac mae hyn yn agwedd allweddol ar rannu gwaith â phob ysgol drwy YCG GwE, y wefan, diweddariadau rheolaidd mewn fforymau Penaethiaid. Drwy werthuso ffurfiol gyda Phrifysgol Bangor, dechreuwyd dod i ddeall yn well effaith y rhwydweithiau rhanbarthol a lleol.

Effaith:

- Mae mwy a mwy o ysgolion yn datblygu ac yn rhannu enghreifftiau o'u dulliau dylunio a chynllunio ysgol gyfan o ran yr elfennau mandadol, gan gynnwys sgiliau trawsgwricwlaidd.
- Nifer cynyddol o ymweliadau â'r wefan i gael gafaél ar ddeunyddiau ac enghreifftiau sydd wedi'u rhannu gan rhwydweithiau ac ysgolion.
- Mwy o ddefnydd a chyfathrebu ar draws TEAMS ble mae unigolion o fewn rhwydweithiau yn rhannu negeseuon allweddol ac enghreifftiau o rannu pellach yn eu clystyrau a'u cynghreiriau uwchradd.
- Hyder yn y system bod strategaeth glir a thryloyw i ymateb i ofynion statudol Medi 2022 a chrynodebau cwricwlwm ysgolion a fabwysiedir gan lywodraethwyr a'u rhannu ymysg ysgolion ac YCG a Llywodraeth Cymru.
- Yn ôl canfyddiadau cynnar y gwerthusiad ffurfiol gyda Phrifysgol Bangor, mae aelodau yn fwy hyderus ac yn deall mwy am y fframwaith ac mae cyfleoedd gwell iddynt gydweithio.

AMCAN 2 - DATBLYGU PROFFESIWN ADDYSG O SAFON UCHEL

Gwella'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion

IEITHOEDD TRAMOR MODERN (ITM)

Cefnogi ysgolion a lleoliadau i gynllunio eu darpariaeth ar gyfer ieithoedd rhyngwladol (IRh).

Ysgol i ysgol a chefnogi clystyrau cynradd:

Mae'r ysgolion arweiniol wedi parhau i weithio o fewn eu clystyrau a'u cysylltiadau. Gofynnodd ysgolion am fwy o wybodaeth a threfnwyd cyfarfodydd gyda'r YCG i drafod y ddarpariaeth a'r modelau cyflwyno. O ganlyniad, gwnaeth fwy o ysgolion gais am y tanysgrifiad Power Language (90) ac fe'u hychwanegwyd at y rhestr ohebu (181) gan ddechrau cynllunio IRh. Gofynnwyd am ymweliadau a mwy o gymorth yn Nhymor yr Hydref.

Cymorth ysgol i ysgol uwchradd

Cynhaliwyd cyfarfod diwethaf y rhwydwaith ANG y tymor hwn. Gwerthfawrogwyd y datblygiadau a'r cymorth yn fawr a blwyddyn yn ddiweddarach, mae'r athrawon newydd wedi dylanwadu'n fawr ar eu dysgwyr ac wedi cyfrannu'n rhagorol at eu hadrannau a'u hysgolion. Rhannwyd rhywfaint o'r gwaith a wnaed dros y flwyddyn â'r rhanbarth gyfan fel arfer dda.

Parhau i ddatblygu ar y gweithgarwch mewn ysgolion cynradd, i baratoi at CiG

Mae ysgolion arweiniol yn parhau i gynllunio a datblygu eu camau nesaf. Drwy gysylltu ag ysgolion sy'n rhan o ddigwyddiadau a Chynnig Dyfodol Byd-eang, mae'n amlwg bod mwy a mwy o ysgolion bellach yn canolbwyntio ar gychwyn eu taith IRh a bod angen pob cymorth arnynt i'w harwain a chael hyd i'r cwricwlwm sydd fwyaf addas i'w hanghenion. Mae'r pecyn cychwynnol i ysgolion arweiniol, tanysgrifiad Power Language a'r cyflwyniad yn y sesiwn Trafod Addysgeg ym mis Ebrill yn gymorth mawr i ysgolion sydd wedi defnyddio'r adnodd. Mae hyn yn eu helpu nhw

i deimlo'n fwy hyderus wrth benderfynu ar eu gweledigaeth ar gyfer IRh yn eu lleoliad a chychwyn arni. Mae YCG GwE hefyd wedi creu cyflwyniad i'w ddefnyddio gyda'r rhwydweithiau grŵp ILlCh lleol i ymateb i geisiadau gan aelodau.

Tanysgrifiadau Power Language: hyd yma, mae 90 ysgol bellach yn defnyddio'r llwyfan. Mae gan bob ysgol yr hawl i ddwy iaith. Cynigiwyd sesiynau hyfforddiant i ddangos sut all dysgu iaith gydio yn y cwricwlwm a sut i ddefnyddio'r adnoddau i wahanol ddibenion. Mae'r ysgolion hynny a fuodd yn y sesiynau neu a ofynnodd am gymorth efo'r adnoddau yn teimlo mewn sefyllfa well i ddatblygu eu cynlluniau dysgu eu hunain. Ein bwriad yw parhau i gadw golwg a pharhau i gefnogi ysgolion i ddatblygu eu darpariaeth.

Mae datblygu cysylltiadau rhyngwladol yn dod un o'r blaenoriaethau i ysgolion cynradd sy'n ymwneud ag IRh. Hyd yma, mae 18 ysgol wedi mynegi diddordeb mewn bod yn rhan o brosiect efo ysgolion yn Ffrainc, Sbaen neu'r Almaen a bwriadwn edrych ar y ffordd orau i'w cefnogi nhw yn hyn o beth.

Cysylltwyd a'r cyswllt rhyngwladol ar gyfer y Rhaglen Taith a thrafodwyd prosiectau efo ysgolion tramor.

Bydd y cydweithio o fewn GwE a gyda'r cydlynwyr cysylltiadau rhyngwladol yn cael ei feithrin a'i ddatblygu.

Parhau i roi sylw i'r her o ran niferoedd sy'n astudio ieithoedd tramor modern mewn ysgolion uwchradd gyda chymorth ein partneriaid Dyfodol Byd-eang.

Cyfarfodydd rhwydwaith dangos a dweud.

Yn ystod cyfarfod y rhwydwaith ym mis Mehefin, rhannodd ddwy ysgol eu harferion da i helpu i ddatblygu diddordeb a niferoedd yn CA4. Recordiwyd a rhannwyd y ddau gyflwyniad â'r rhwydwaith cyfan fel bod athrawon a fethodd fod yn bresennol yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth. Yn ôl y sylwadau, ysbrydolwyd rhai ymarferwyr a byddant yn ystyried gwahanol ffyrdd i roi sylw i'r mater.

Cyswllt â Mentora ITM

Mentora Blwyddyn 8/9:

Cynigiwyd lle i 21 ysgol yn y prosiect, gyda phedair o'r ysgolion hyn yn cymryd rhan mewn ffrwd newydd o'r enw Cysylltu Ieithoedd. Mae pedair ysgol ar y restr aros. Pob blwyddyn, mae nifer yr ysgolion sy'n dangos diddordeb yn codi. Mae nifer yr ysgolion sy'n dychwelyd yn uchel, sy'n tystio eu bod nhw'n teimlo bod y rhaglen yn cael effaith gadarnhaol ar farn dysgwyr am ieithoedd.

Darparu egwyddorion a chodi ymwybyddiaeth ar draws pob lleoliad addysg o bwysigrwydd amlieithrwydd a blaenoriaethu ieithoedd ac ehangu dewisiadau dysgwyr.

Mae gwaith gyda'r grwpiau rhanbarthol a lleol yn datblygu'r ymwybyddiaeth hon ar draws sectorau. Darperir diweddariadau ac adnoddau rheolaidd ar amlieithrwydd ar yr adran ITM ar Ganolfan Cefnogaeth GwE yn ogystal â'r newyddlen. Mae YCG GwE wedi bod ar hyfforddiant ar-lein, FUTURE LEARN, gan Brifysgol Glasgow a Chaeredin ar amlieithrwydd mewn dysgu iaith. Rhannwyd rywfaint o'r canfyddiadau a'r oblygiadau i ddysgu ac addysgu ieithoedd yn yr ail weithdy MDaPh. Ein bwriad yw datblygu'r agwedd hon ymhellach a cheisio recriwtio ysgolion i beilota'r adnoddau a chodi gwerth amlieithrwydd yn eu lleoliadau.

Gweithdai MDaPh CiG i Arweinwyr Canol ac ymarferwyr IRh:

Cynhaliwyd dau weithdy ac fe'u croesawyd gan yr aelodau. Cafwyd sylwadau cadarnhaol gan fod y sesiynau wedi helpu'r ymarferwyr i weld potensial y cwricwlwm yn gliriach a rhoi enghreifftiau clir o sut i ddatblygu cysylltiadau ar draws y MDaPh yn ogystal â datblygu dealltwriaeth o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig. I rai, bu'n gymorth i gael ffocws cliriach ar eu camau nesaf ym mis Medi. I eraill, bu'n fodd iddynt edrych ar ddulliau cynllunio mwy arloesol.

Darparu cymorth uniongyrchol i athrawon cynradd drwy raglen Athrawon yn dysgu i Addysgu Ieithoedd (TELT) y Brifysgol Agored.

Telt 21-22: Hyd yma, mae 7 o 8 o'r athrawon a gofrestrodd wedi cwblhau'r cwrs eleni. O ganlyniad, maent wedi magu hyder ac mewn gwell sefyllfa i ddatblygu darpariaeth ar gyfer IRh yn eu hysgolion. Mae dau wedi mynegi diddordeb mewn cofrestru ar ail flwyddyn y cwrs.

Telt 22-23: Cynhaliwyd noson wybodaeth ym mis Mehefin ac mae'r recriwtio wrthi'n digwydd. Hyd yma, mae 4 o athrawon wedi cofrestru.

Cymorthyddion addysgu sydd newydd eu penodi

Monitrwyd effeithiolrwydd y rhaglen ‘Ymsefydlu’ digidol a weithredwyd yn ystod 2021-22 gan ei addasu yn unol â’r adborth ac unrhyw ddiweddiadau ar gyfer 2022-23 – yn enwedig o ran Cwricwlwm i Gymru. Cofrestrodd 77 cymhorthydd ar gyfer yr hyfforddiant pedwar modiwl (rhestr chwarae) ystod 2021-22 ac oherwydd y darparwyd mynediad at y rhaglen ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd, gwelwyd bod cymorthyddion yn cofrestru ar gyfer yr hyfforddiant ar wahanol adeg o’r flwyddyn academaidd. Bu i un cymhorthydd gofrestru yn ystod tymor yr haf 2021. Derbyniwyd adborth cyffredinol positif iawn i’r hyfforddiant hwn yn ystod y flwyddyn gyda’r mwyafrif yn nodi bod yr hyfforddiant wedi cael effaith uchel ar eu hymarfer. Bydd systemau casglu data yn cael eu hadolygu ar y cyd gyda’r Consortia eraill ym mis Gorffennaf 2022. Bydd y rhaglen yn cael ei hysbysebu eto ym Mwletin GwE ac yn y Dosbarth Google i Gymorthyddion ym mis Medi.

Cymorthyddion addysgu wrth eu gwaith

Cwblhaodd 2 glwstwr y rhaglen ‘Cymorthyddion wrth eu gwaith’, ac fe gychwynnwyd y rhaglen gyda 3 chlwstwr arall. Bydd cynnwys y rhaglen yn cael ei adolygu gyda gweddill y Consortia yn ystod mis Gorffennaf. Mae rhagor o glystyrau yn awyddus i gynnal yr hyfforddiant yn y flwyddyn academaidd nesaf. Bydd y rhaglen ar gael yn ranbarthol unwaith eto (wyneb yn wyneb) o Tymor yr Hydref ymlaen – mae paratodau ar y gweill.

Darpar CALU

Cylch 4 – cynhaliwyd Modiwlau 3 & 4 yn rhithiol. Cynigwyd ‘syrgeri MDP’ i bawb oedd yn dymuno, er mwyn trafod eu Myfyrdodau Dysgu Proffesiynol ac i drafod trefniadau asesu. Cafodd hyn effaith cadarnhaol iawn ar y cymorthyddion gyda llawer wedi gwella safon eu myfyrdodau dysgu proffesiynol yn dilyn y cyfarfodydd hyn. Bydd Cylch 4 yn cael eu hasesu ar gyfer statws CALU yn ystod Tymor yr Hydref. Mae’r sylwadau a dderbyniwyd gan gymorthyddion, hwyluswyr ac aseswyr yn nodi llawer gwell dealltwriaeth gan gymorthyddion o’r Safonau Proffesiynol a Cwricwlwm i Gymru yn dilyn yr hyfforddiant. Gwelwyd hefyd bod cymorthyddion wedi gwerthfawrogi cael cyd-weithio gyda chymorthyddion eraill ar draws y rhanbarth ac yn genedlaethol a bod eu sgiliau digidol wedi datblygu gyda’r sesiwn dechnegol wedi bod o gymorth mawr gyda hyn.

Cylch 5 – hysbysebwyd ar gyfer Cylch 5. Cafwyd 43 o geisiadau – derbyniwyd 39 a rhoddwyd cynnig i 2 gael lle ar Cylch 6 sy’n dangos niferoedd iach ar draws y rhanbarth. Bydd yr hyfforddiant yn cychwyn ym mis Medi 2022 – fe fydd Modiwlau 1 & 4 yn cael eu cynnal wyneb yng wyneb, ac fe fydd dewis o ran Modiwlau 2 & 3 – wyneb yng wyneb neu rhithiol.

Statws CALU

Yn dilyn mynychu 8 sesiwn ddigidol Darpar CALU, bu i 82% o gymorthyddion Darpar CALU Cylch 3 wneud cais am asesiad statws CALU. Roedd 18%, nad oedd wedi llwyddo i gael digon o brofiad addysgu dosbarth, neu na lwyddodd i ennill cymhwyster Llythrennedd/Rhifedd lefel 2 oherwydd effaith Covid. Roedd rhai wedi gadael y byd addysg. Bydd y rhain yn derbyn asesiad gyda chymorthyddion Cylch 4. Bu 24 o Aseswyr yn cwblhau asesiadau Cylch 3. Cymedrolwyd pob asesiad yn ranbarthol a sampl o chwech yn genedlaethol. Bodlonwyd 27/28, gydag 1/28 yn derbyn barn ‘ni fodlonwyd eto’ oherwydd diffyg profiad yn arwain dosbarthiadau cyfan.

Cyflwyniad i Cwricwlwm i Gymru

Crëwyd hyfforddiant newydd ar y cyd gyda’r Consortia eraill, er mwyn darparu cyflwyniad i gymorthyddion ar Cwricwlwm i Gymru. Rhannwyd yr hyfforddiant dros 2 sesiwn, ac roedd ar gael yn y Gymraeg neu’r Saesneg. Darparwyd y sesiynau yn genedlaethol ar amrywiaeth o amseroedd, fel bod modd rhyddhau cymorthyddion.

Addaswyd yr hyfforddiant er mwyn creu hyfforddiant unigryw ar gyfer un ysgol gynradd yn GwE.

Y Gymraeg

Datblygu’r gefnogaeth i ysgolion i hyrwyddo buddion dwyieithrwydd a manteision addysg cyfrwng Cymraeg

Mae trafodaethau cychwynnol gyda’r awdurdodau wedi eu cynnal er mwyn sicrhau dealltwriaeth lawn o’r ysgolion sy’n cael eu targedu drwy’r CSGAu newydd o Fedi 2022 ymlaen. Mae cyfrif Trydar @GwEyGymraeg yn weithredol sydd yn fodd effeithiol o ddiweddarau gwybodaeth a rhannu negeseuon am ddatblygiadau’r Gymraeg. Mae cyswllt cadarn gyda Fforymau Iaith yr Awdurdodau Lleol drwy’r YCG sy’n cynrychioli fesul awdurdod.

Cefnogi i ddatblygu twf darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg

Mae’r cyfarfodydd gyda fforymau penaethiaid yn fodd o drosglwyddo gwybodaeth am y Gymraeg fel elfen fandadol

o'r CiG. Mae'r cyfarfodydd hyd yma wedi bod yn llwyddiannus a'r adborth gan y penaethiaid wedi bod yn gadarnhaol. Mae cytundeb cenedlaethol ymysg Arweinwyr Strategol y Gymraeg o'r angen i sefydlu rhwydwaith o gynrychiolwyr o bob rhanbarth i gynllunio'r gefnogaeth ar gyfer cefnogi ysgolion i ddefnyddio'r Fframwaith ar gyfer y Gymraeg mewn addysg cyfrwng Saesneg. Bydd hyn ar waith yn nhymor yr hydref pan fydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r copi terfynol o'r Fframwaith.

Datblygu cynnig proffesiynol ar gyfer y Gymraeg wrth baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru (3-16) a chryfhau'r cydweithio/trosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd

Cyflwynwyd y Gymraeg a llythrennedd y Gymraeg fel elfen fandadol o'r CiG yn y rhwydwaith ranbarthol yn ogystal â mewn cyfarfodydd lleol. Mae hyn wedi arwain at godi ymwybyddiaeth o'r angen i gynllunio tuag at gryfhau'r ddarpariaeth i gwrdd â'r gofyn mandadol. Mae cadeiryddion y rhwydwaith laith, Llythrennedd a Chyfathrebu wedi rhaeadru'r wybodaeth gyda'u grwpiau lleol a thynnu sylw at y cyflwyniad.

Mae'r wybodaeth berthnasol wedi ei gyflwyno i'r holl YCG mewn cyfarfod tîm llawn. Bydd angen ail-ymweld â'r amrywiol agweddau mewn cyfarfodydd i'r dyfodol

Cyfarfod Rhwydwaith Arweinwyr y Gymraeg Rhanbarth GwE (adobe.com)

Mae gwefan i gefnogi adrannau Cymraeg uwchradd (cyfrwng Cymraeg a dwyieithog) wedi ei llunio ar gyfer rhannu gwybodaeth am ddatblygiadau ranbarthol a chenedlaethol. Mae hyn yn ddull effeithiol a chyfoes o rannu diweddariadau ac yn hylaw ar gyfer cynnwys dolenni perthnasol i'r penaethiaid adran allu rhaeadru ymhellach. Mae hyn wedi ei rannu mewn cyfarfod rhwydwaith o arweinwyr y Gymraeg ar draws y rhanbarth yn Ysgol y Creuddyn ddiwedd Mehefin 2022.

Datblygu'r medrau:

Ein Llais Ni

Mae 65 o astudiaethau achos wedi cael eu cyflwyno gan ysgolion. Mae tîm prosiect Ein Llais Ni wedi trefnu'r astudiaethau achos er mwyn amlygu'r rhai sy'n amlygu fel ysgolion arweiniol ar gyfer cam nesaf y gwaith (eu hastudiaeth achos yn gynhwysfawr ac wedi gwerthuso'r gwaith yn effeithiol), ysgolion sy'n nodweddu arferion effeithiol (angen mwy o wybodaeth ganddynt am effaith y gwaith), ysgolion sy'n arddangos elfennau defnyddiol ac ysgolion sydd heb gyflwyno llawer o wybodaeth. Mae Prifysgol Bangor wedi cynnal cyfweiliadau gyda'r athrawon sy'n rhan o'r ymchwil mwy dwys, yn canolbwyntio ar y ddarpariaeth er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd yr hyn gyflwynwyd i'r ysgolion gydol y flwyddyn.

Mae'r tîm prosiect wedi amlygu'r camau nesaf ac yn cynnal trafodaethau gyda LIC er mwyn rhoi cais pellach am gyllid i ddatblygu'r gwaith ymhellach. Bydd hyn yn cynnwys dyfnhau'r gwaith gyda'r ysgolion presennol ac ehangu i fwy o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn ogystal â datblygu darpariaeth gyfatebol ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg, cyd-weithio ar ddarpariaeth ar gyfer ysgolion yn genedlaethol yn ogystal â chryfhau'r cyswllt efo'r Brifysgol a myfyrwyr AGA.

Mae cynllun yn ei le ar gyfer llunio pecyn Dysgu Proffesiynol ar ffurf gwefan – darpariaeth fydd ar gael yn genedlaethol ac i bob ysgol.

Mae Arweinwyr Strategol y Gymraeg yn y rhanbarthau eraill yn awyddus i ymuno yn ein cais nesaf ar gyfer cyd-ddatblygu'r gwaith.

Darllen:

Mae'r cyd-weithio cadarn gyda Phrifysgol Bangor ar gyfer lledaenu'r prosiect RILL yn parhau. Mae gwahoddiad i ysgolion ymuno mewn ymchwil pellach wedi ei gyllido drwy Llywodraeth Cymru.

Llythrennedd:

Rhoddydwyd cyflwyniad yn y rhwydwaith ranbarthol ar yr elfen fandadol o ddatblygu llythrennedd wrth gyflwyno'r CiG. Mae hyn wedi arwain at godi ymwybyddiaeth o'r angen i'w gynnwys yn nyluniad cwricwlwm pob ysgol.

Mae'r cyfarfodydd cychwynnol o'r cydlynwyr clwstwr ymhob awdurdod lleol wedi amlygu'r angen i gryfhau'r cyswllt cynradd-uwchradd ymhellach gan sicrhau fod y cynlluniau clwstwr 2022-23 yn rhoi sylw pwrrpasol i ddatblygu'r cyd-weithio yma. Mae trafodaethau cychwynnol wedi eu cynnal ar natur y wybodaeth sydd i'w drosglwyddo o un sector i'r nesaf.

Datblygu'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg - 'Siarter Iaith' a 'Cymraeg Campus'

Amlinellir y prif ddatblygiadau fel a ganlyn:

- Mae'r Cydlynwyr Siarter Iaith yn cefnogi'r clystyrau i gynllunio ar gyfer y cyllid sydd ar gael i hyrwyddo'r Gymraeg yn anffurfiol.
- Pob awdurdod wedi nodi'r hyn weithiodd yn dda a'r heriau yn ystod 2021-22 gan nodi'r angen i gryfhau'r cyswllt cynradd-uwchradd fel nod pendant i'r dyfodol.
- Ysgolion uwchradd y rhanbarth yn cael gwahoddiad i ymuno yn y prosiect cenedlaethol ar gyfer lledaenu gwaith y Siarter Iaith i'r uwchradd.
- Arweinwyr Strategol y Gymraeg ymhob rhanbarth wedi gwneud cais i'r llywodraeth am gyfarfod i drafod cyfeiriad strategol a'r bwriadau efo'r Siarter Iaith a Chymraeg Campus.

Datblygu'r gweithlu Cymraeg a chyfrwng Cymraeg - sgiliau iaith y gweithlu addysg

Ceir perthynas gadarn ac adeiladol iawn rhwng GwE, Canolfan Bedwyr, Llywodraeth Cymru a'r ALL sy'n arwain at gryfhau'r ddarpariaeth i gefnogi ymarferwyr i ddatblygu eu sgiliau iaith. O ganlyniad i'r trafodaethau hyn, mae'r cwrs Cymraeg mewn Blwyddyn wedi ei gadarnhau ar gyfer Medi 2022 a'r ymgeiswyr llwyddiannus eisoes wedi eu hysbysu – y cwrs yn llawn. Yn ogystal, mae cytundeb wedi bod i gynnal rhan 2 a 3 o'r cyrsiau Sabothol tymhorol yn 2023.

Ceir hefyd cyswllt cryf rhwng GwE a'r Coleg Dysgu Cymraeg Cenedlaethol sydd yn sicrhau fod cyfle i hyrwyddo cyrsiau ar-lein ar gyfer ymarferwyr. Mae 5 aelod o staff GwE wedi mynychu cwrs wythnos yn Nant Gwrtheyrn ac o ganlyniad yn datblygu'n fwy hyderus i siarad Cymraeg. Mae cohort newydd o staff GwE wedi mynegi diddordeb yn y cwrs dysgu Cymraeg yn ogystal.

SAFON UWCH

Cefnogi arweinwyr ôl-16 i ddarparu cyfeiriad cadarn ac effeithiol ym mhob agwedd ar eu rôl.

Cefnogi gyda chyflawni dysgu ac addysgu o safon uchel ôl-16

Cefnogi ysgolion i fonitro cynnydd myfyrwyr ôl-16

Cynnig ystod o ddulliau i ysgolion o gefnogi lles eu myfyrwyr

Er mwyn cefnogi ysgolion i fonitro cynnydd myfyrwyr ôl-16, prynwyd y contract ALPS.

Cynlluniwyd ar gyfer y modiwl ANG newydd gyda chydweithwyr traws-gonsortia.

Ar draws pob ALL y tymor hwn, cynhaliwyd cyfarfodydd rhwydwaith arweinwyr ar draws y chwe awdurdod i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a rhannu arferion da.

Cynlluniwyd cyfarfodydd ar gyfer y rhaglen arweinyddiaeth ôl-16 a phennwyd dyddiadau cyflwyno ar gyfer blwyddyn nesaf.

YMCHWIL AC ARFARNU

Prosiect Ymchwil gwrth-fwlio KiVa

Yn rhan o ymdrech parhaus GwE i seilio polisiau ac arferion ar ddulliau sy'n fwy seiliedig ar dystiolaeth, gwnaethpwyd y prosiect hwn gydag ysgolion yng Ngogledd Cymru i werthuso effeithiolrwydd a chost-effeithiolrwydd rhaglen gwrth-fwlio KiVa o ran lleihau nifer yr achosion o fwlio sy'n cael eu hadrodd gan blant yn ysgolion y DU o gymharu â'r drefn arferol. Mae GwE yn gyd-ymgeisydd ar y prosiect ymchwil hwn ar raddfa fawr i werthuso effaith rhaglen gwrth-fwlio KiVa mewn ysgolion cynradd. Yn dilyn atal y prosiect oherwydd pandemig COVID-19, mae 30 ysgol yng Ngogledd Cymru wedi'u recriwtio ar gyfer yr astudiaeth. Dewiswyd pymtheg o'r ysgolion ar hap i dderbyn KiVa yn 2021-22, a'r pymtheg arall yn 2022-23. Cafodd yr ysgolion ymyrraeth hyfforddiant yn nhymor yr Haf 2021, ac maent wedi bod yn cyflwyno KiVa er mis Medi 2021.

Recriwtiwyd 30 o ysgolion cynradd GwE ym mis Hydref 2019 yn rhan o grŵp o 116 o ysgolion ar draws y DU. Detholwyd ysgolion ar hap i naill ai gael hyfforddiant i gyflwyno KiVa, neu i fod yn ysgol a reolir i barhau â'r ddarpariaeth bob dydd. Aeth yr ysgolion ymyrraeth ati i gyflwyno KiVa o fis Medi 2021 hyd Gorffennaf 2022, ac mae'r ymchwilwyr yn gobeithio cael canfyddiadau amodol y deilliannau o'r ddau grŵp ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r papur yn brotocol astudio ble mae'r tîm ymchwil yn disgrifio'r treial yn fanwl i ymchwilwyr eraill. Gellir gweld canfyddiadau llawn yr astudiaeth drwy lawr lwytho'r papur agored gan ddefnyddio'r ddolen hon:

[The UK stand together trial: protocol for a multicentre cluster randomised controlled trial to evaluate the effectiveness and cost-effectiveness of KiVa to reduce bullying in primary schools | BMC Public Health | Full Text \(biomedcentral.com\)](https://www.biomedcentral.com)

Prosiect Parodrwydd Cadarnhaol ar gyfer Dysgu (PR4L): Gwyddonwyr Ymddygiadol mewn Clystyrau

Cynnig yw hwn i gael gwyddonydd ymddygiadol i weithio gyda grŵp gwahanol o ysgolion - neu glwstwr - yn ystod pob tymor yn 2022-23. Nod y prosiect yw darparu hyfforddiant a mentora personol i athrawon yn y dosbarth er mwyn rhoi hyder a chysondeb iddynt wrth roi sylw i ymddygiad tarfol yn y dosbarth.

Anogir athrawon a staff ysgolion i adnabod a chydabod ymddygiad cadarnhaol myfyrwyr ac ymateb yn gyson i ymddygiad heriol. Nod y prosiect yw canolbwyntio ar ysgolion sydd â phroblemau parhaus gyda naill ai tarfu ar lefel isel ac/neu staff sydd eisiau gwybod mwy am strategaethau sy'n seiliedig ar wybodaeth (y cyntaf o ddewis, i ddangos effaith). Er enghraifft, cyfarfod â staff i wella'u dealltwriaeth o strategaethau rheoli ymddygiad haen 1 (cyffredinol). Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol ag arweinwyr craidd GwE, a chadarnheir yr ysgolion sydd wedi ymgeisio ym mis Medi 2022.

Ymchwil Darllen ADY KESS

Dyma gynnis i hyd at 4 ysgol AAA yn rhanbarth Ddwyreiniol KESS i gydweithio â ni ar brosiect MRes KESS2. Bydd hyn yn cynnwys Prifysgol Bangor, GwE ac ysgolion AAA yn y rhanbarth. Bydd y myfyriwr Meistr Ymchwil (MRes) a goruchwylwyr yn gweithio'n agos gyda'r ysgolion i gynnal awdit ac adolygiad cyflym o'r dulliau asesu ac ymyrraeth a ddefnyddir, edrych ar brofiadau a barn staff o'r ddarpariaeth gyfredol, myfyrio ar y canfyddiadau, yr arferion presennol, a syniadau am sut i'w datblygu ymhellach a'u gwerthuso. Y gobaith yw y bydd y prosiect cydweithredol hwn yn ein galluogi ni i ddatblygu ymhellach a gwerthuso arferion cryf, yn ogystal ag adnabod meysydd i ddatblygu'r ddarpariaeth i helpu gwella deilliannau darllen i ystod eang o ddysgwyr. Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol ag arweinwyr craidd GwE, a chadarnheir yr ysgolion sydd wedi ymgeisio ym mis Medi 2022.

Economeg Iechyd a Chyllidebu Rhaglenni a Dadansoddi Ymylol (PBMA)

Nod y prosiect hwn yw cefnogi a datblygu prosesau penaethiaid ar gyfer gwneud penderfyniadau methodoleg effeithiol ar gyfer gwneud penderfyniadau ac ymchwilio a yw ysgolion yn cynhyrchu data effeithiolrwydd a dilysrwydd cymdeithasol cadarn i gefnogi ymyraethau yn yr ysgol ac ystyried gwerth am arian. Y nod hefyd yw gwerthuso effaith y prosiect drwy gadw golwg ar newidiadau yn y ddarpariaeth. Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol ag arweinwyr craidd GwE, a chadarnheir yr ysgolion sydd wedi ymgeisio ym mis Medi 2022.

AGA

Cefnogi ysgolion i ymateb i'r daith ddiwygio addysg, gyda phwyslais cryf ar addysgeg, addysgu effeithiol ac ymchwil weithredu.

Cefnogi cydweithio ar draws sectorau i sicrhau cysondeb mewn arferion addysgu effeithiol i gefnogi cyfnodau pontio dysgwyr.

Datblygu sgiliau iaith y gweithlu addysg er mwyn ymestyn y gyfran sydd yn gallu addysgu a gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Parhau i gefnogi cydweithredu ar bob lefel o arweinyddiaeth er mwyn sicrhau bod pob arweinydd yn cyflawni ei botensial.

Parhau i weithredu strategaethau rhanbarthol i blant sy'n fregus i ddysgu, sy'n canolbwyntio ar gynhwysiant, lles emosiynol, presenoldeb ac unrhyw anghenion dysgu ychwanegol i gael effaith gadarnhaol ar eu cynnydd a'u lles. Parhau i ddatblygu ein gwaith mewn clystyrau, cynghreiriau a phontio rhwng sectorau i wella ansawdd a datblygu agenda Cwricwlwm i Gymru.

Parhau i weithredu ein memorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda Phrifysgol Bangor er mwyn datblygu ymhellach ein harferion yn seiliedig ar dystiolaeth.

Adolygwyd llwybr AGG ADY 3-19 gan Gyngor y Gweithlu Addysg i'w achredu, a hynny yn sgil cyfnod o ymgynghori sylweddol/cyd-lunio cynlluniau rhaglen a dogfennau gyda Llywodraeth Cymru, Prifysgol Bangor, ysgolion arbennig a phrif ffrwd, UCD, staff perthnasol yr ALL a staff perthnasol GwE. Parheir i weithio ar fanylion y modiwl tymor nesaf ar y cyd â'r holl randdeiliaid. Os llwyddir, cyhoeddir ac agorir ceisiadau ym mis Hydref 2022, a fydd yn cynnwys ceisiadau ar gyfer llwybr mewn lleoliad (i'w achredu).

Mae cyd-fonitro wedi digwydd ar draws y bartneriaeth sydd wedi cynnwys CaBan, GwE ac ysgolion arweiniol i sicrhau ansawdd rhaglenni a datblygu'r camau nesaf.

Mae rhoi diweddariad i staff GwE ac ysgolion ar ddysgu proffesiynol cyffredin (gan gynnwys graddau meistr ac EdDoc) a dulliau addysgeg ac addysg i oedolion ar y gweill, at dymor yr Hydref 2022.

Mae 12 o staff perthnasol o GwE yn cyfrannu at y modiwl PPC i fyfyrwyr CaBan 2022-23 i sicrhau dilyniant esmwyth i fyfyrwyr at lwybr ANG a dull gweithredu rhanbarthol o ran darparu dysgu proffesiynol, yn enwedig gyda'r Cwricwlwm i Gymru.

Cynlluniwyd darpariaeth effeithiol a thrylwyr i gefnogi ANG ar gyfer 2022-23. Mae arweinydd ANG GwE wedi cyfarfod â myfyrwyr ynghylch ennil Statws Athro Cymwys er mwyn eu cefnogi yn eu blwyddyn ANG a'u dysgu proffesiynol cysylltiedig. Cymedrolwyd portffolios cymedroli rhanbarthol ar draws yr ALI (2021-22), cyn iddynt gael eu cymedroli'n genedlaethol.

Mae Arweinydd Prifysgol Agored GwE yn parhau i hyrwyddo a chefnogi'r ddarpariaeth berthnasol a'r myfyrwyr o fewn y rhanbarth.

Mae staff GwE yn parhau i gydweithio efo CaBan i wella darpariaeth y Gymraeg ar draws y rhanbarth drwy brosiectau ymchwil dan arweiniad Prifysgol Cymru, megis drwy brosiect 'Ein Llais Ni'.

Mae'r cydweithio rhwng GwE a Phrifysgol Bangor ar amrywiaeth o lefelau yn parhau i sicrhau dull gweithredu cyson yn y rhanbarth.

DIGIDOL

Datblygu arweinyddiaeth ddigidol yn ysgolion y rhanbarth

Mae rhaglen hwyluswyr digidol yn parhau i gael ei ddatblygu gyda nifer fawr o glystyrau yn adrodd fod cynnydd wedi bod yn erbyn y deilliannau cychwynnol, sef ffurfio gweithgor dysgu digidol a llunio gweledigaeth a rennir yn y clwstwr. Mae cyfarfod unigol wedi ei gynnal gyda pob hwylusydd digidol. Mae 5 hwylusydd digidol wedi cael eu hadnabod fel rhai arweiniol sydd wedi datblygu'r model cydweithio clwstwr yn effeithiol ac fel rhai sy'n mynd i fod y rhannu arferion effeithiol yn ystod 2022-23. Mae 94 o ysgolion wedi bod yn rhan o weithgaredd dysgu proffesiynol fel rhan o'r rhaglen hon yn ystod chwarter un.

Darparu rhaglen ddysgu proffesiynol i ddatblygu cyfleoedd i godi safonau cymhwysedd digidol drwy Hwb

Mae cynnig dysgu proffesiynol digidol wedi ei ffurfio a'i ryddhau ddiwedd Mehefin sy'n cynnwys arlwy eang ar gyfer 2022-23; Rhaglen arweinyddiaeth ddigidol, hyfforddiant modelu, hyfforddiant trin data, adrodd stori yn ddigidol, Google Workspace Lefel 1, Cymhwysedd Digidol yng nghamau cynnydd 1 a 2. Mae'r cynnig yn cynnwys cymysgedd o sesiynau wyneb i wyneb a sesiynau arlein. Mae 28 sesiwn yn cael eu cynnig yn ystod y flwyddyn. Mae 165 wedi cofrestru hyd yma i fynychu. Mae hefyd cyfres o adnoddau hunan-ddysgu ar gael i athrawon ymgysylltu â nhw ar amser sy'n gyfleus iddyn nhw. Mae cyrsiau hunan-ddysgu Google for Education, J2E, Adobe Spark a Flipgrid wedi ei rhyddhau.

Gwreiddio 360 Digi Cymru fel prif offeryn hunan adolygu dysgu digidol y rhanbarth

Lansiwyd offeryn hunan-adolygu 360 Digi Cymru yn Mehefin. Rydym wedi recordio a darparu cyfres o weminarau i gyflwyno'r offeryn yn ogystal a gweminarau i drafod y gwahanol llinynnau o fewn yr offeryn. Hyd yma mae 193 o ysgolion y rhanbarth wedi cofrestru i ddefnyddio yr offeryn. Mae 44% o'r rhain wedi cychwyn ymgysylltu â'r offeryn.

Darparu enghreifftiau o addysgeg digidol effeithiol

Rydym wedi cychwyn cydweithio gyda Prifysgol Bangor a grŵp WCLD (Welsh Collaborative Learning Design) er mwyn datblygu dealltwriaeth o addysgeg effeithiol a dylunio'r dysgu. Cynhaliwyd digwyddiad yng Nghanolfan Busnes Conwy yn ddiweddar. Roedd y digwyddiad ar y cyd rhwng y GwE a'r grŵp WCLD ac yn cynnig cyfleoedd ymarferol i athrawon ddefnyddio offer safonol ar gyfer creu profiadau sgrin werdd yn ogystal a VR gan ystyried sut y byddai hyn yn cyfrannu i ddylunio'r dysgu. Mynychodd 60 o bobl y diwrnod hyfforddiant hwn ac roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn.

MATHEMATEG A RHIFEDD

Darparu cymorth unigryw i ysgolion sy'n achosi pryder, fel bod modd iddynt yrru eu taith welliant eu hunain.

Parhawyd i dargedu cynhaliadaeth i'r ysgolion yn y rhanbarth y bernir sydd 'mewn risg' neu mewn categori ESTYN. Mae yn wedi arwain at gynllunio'n well ar gyfer dysgu ac addysgu Mathemateg a dealltwriaeth well o sut mae rhifedd yn cefnogi'r dysgu ar draws y cwricwlwm.

Cefnogi ysgolion i ddeall diwygiadau'r cwricwlwm a'u gweithredu.

Mae ymweliadau/cyfarfodydd rheolaidd a niferus ag ysgolion wedi golygu hyfforddi staff, rhoi gymorth gyda chynllunio ac asesu cynnydd dysgwyr, sut i olrhain hyn i symud dysgwyr ymlaen a llywio eu darpariaeth, monitro

effaith y gweithgareddau hyd yma a rhannu adnoddau sy'n berthnasol i anghenion staff/dysgwyr y lleoliad wrth iddynt symud tuag at ddiwygiadau'r Cwricwlwm i Gymru.

SAESNEG A LLYTHRENNEDD

Cefnogi ysgolion i ddeall diwygiadau'r cwricwlwm a'u gweithredu.

O ganlyniad i'r gefnogaeth a roddwyd i Rwydweithiau Rhanbarthol Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (ILlCh), cafwyd amryw o gyflwyniadau a deunyddiau pwrpasol a gyflwynwyd yn rhanbarthol drwy weminarau a chyflwyniadau ar-lein ar wefan GwE a ddefnyddiwyd gan lawer o ysgolion y rhanbarth. Comisiynwyd athro i gwblhau gwaith cynllunio ILlCh ac o ganlyniad cafwyd canllaw ILlCh cyflawn, o fodolau CD, hyd at ddadbacio'r Datganiadau o'r hyn sy'n Bwysig, cynllunio sgiliau iaith a llythrennedd a chanllawiau polisi.

Cyfeiriwyd ysgolion i gael cymorth llythrennedd gan YCG, ac o ganlyniad cafodd ysgolion yr arweiniad yr oedd ei angen arnynt i ddatblygu sgiliau llafaredd, darllen ac ysgrifennu ar draws yr ysgol, yn unol â datblygu'r CiG a dysgu ac addysgu sy'n canolbwyntio ar sgiliau sylfaenol.

Y GYMRAEG A LLYTHRENNEDD

Rhwydweithiau Y Gymraeg

Cynhaliwyd Cyfarfod Rhwydwaith Arweinwyr y Gymraeg (ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog) a hynny wyneb yn wyneb am y tro cyntaf ers cyfnod y pandemig yn Ysgol y Creuddyn. Bu'n gyfarfod llwyddiannus ac mae'n fwriad trefnu cyfarfod tebyg yn ystod Tymor yr Hydref 2022, gan ddefnyddio model yr ysgol 'letyol', yn ogystal â chyfarfod rhwydwaith tebyg i arweinwyr y Gymraeg ysgolion cyfrwng Saesneg y rhanbarth. Llwyddwyd i drefnu cyfarfod rhwydwaith rhwng athrawon y Gymraeg mewn pedair ysgol cyfrwng Saesneg er mwyn dechrau trafodaethau ynglŷn â'r dulliau gorau iddynt gynnig cefnogaeth i'w gilydd, sydd yn fodel i'w ymestyn i ysgolion eraill y rhanbarth yn ystod Chwarter 2. Trefnwyd cyfarfod hefyd rhwng dwy o ysgolion y rhanbarth (o ddau Awdurdod Lleol gwahanol) sydd â heriau tebyg o safbwynt y Gymraeg er mwyn treialu'r modd y gellir cyflwyno Gymraeg gan ystyried dwy haen disgrifiadau dysgu'r DHSB MDaPh ILlCh a hyderwn y bydd y bartneriaeth hon yn parhau ac y gall yr ysgolion ddatblygu'n ysgolion arweiniol yn y maes hwn.

Gweithdai ymgynghori a gweithgorau cenedlaethol

Trefnwyd i nifer o arweinwyr y Gymraeg y rhanbarth fynychu gweithdai ymgynghori (e.e. Gweithdy Ymgynghori Cymraeg mewn cyfrwng Saesneg) yn ogystal ag annog a hwyluso aelodaeth arweinwyr ar weithgorau cenedlaethol (e.e. Gweithgor Lefel Pwnc Y Gymraeg – Cymwysterau Cymru) er mwyn sicrhau bod llais y rhanbarth i'w glywed yn y sgysiau cenedlaethol hyn.

Sesiynau 'Y Gymraeg o fewn MDaPh ILlCh'

Cafwyd cyfraniad gan ddwy o ysgolion y rhanbarth i'r sesiynau 'Y Gymraeg o fewn MDaPh ILlCh' a gynhaliwyd i gefnogi gwaith y Rhwydweithiau Rhanbarthol CiG a mynychwyd y sesiynau hyn (a gynhaliwyd ar gyfer ysgolion Cymraeg, dwyieithog ac ysgolion cyfrwng Saesneg) gan arweinwyr y Gymraeg ac athrawon ar draws y rhanbarth.

Prosiect 'Ein Llais Ni'

Cyflwynodd yr ysgolion uwchradd fu'n rhan o'r prosiect 'Ein Llais Ni' eleni eu hastudiaethau achos sy'n tystio i lwyddiant yr ymyraethau er hyrwyddo sgiliau siarad a gwrando yn eu hysgolion a bydd canfyddiadau'r astudiaethau achos hyn yn cael eu hymgorffori mewn pecyn hyfforddiant DPP a gaiff ei rannu'n rhanbarthol a chenedlaethol yn ystod Tymor yr Hydref 2022. Gwelwyd y bu'r prosiect hefyd yn fodd i adrannau y Gymraeg dwy o'r ysgolion uwchradd greu cysylltiadau ac adeiladu ar y cyd ar strategaethau'n targedu 'trochwy'r' a bydd y gwaith hwn yn gyfraniad pwysig tuag at adroddiad terfynol y prosiect hwn.

Gweithdai digidol 'Ein Llais Ni'

Cynhaliwyd cyfres o weithdai digidol yn canolbwyntio ar ddefnyddio arfau digidol er mwyn hyrwyddo sgiliau siarad a gwrando yn rhan o'r prosiect 'Ein Llais Ni' a mynychwyd y gweithdai rhithiol a'r gweithdai wyneb yn wyneb dilynol gan gynrychiolaeth o ysgolion uwchradd y prosiect.

e-sgol

Yn rhan o'r prosiect 'Ein Llais Ni' buom yn cydweithio â Swyddog y Gogledd 'e-sgol' a thrwy'r cysylltiad hwn bydd dwy o ysgolion uwchradd y rhanbarth yn cydweithio ar brosiect i rannu addysgeg llwyddiannus addysgu'r Gymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg trwy lwyfan digidol 'e-sgol' yn ystod Tymor yr Hydref.

Y Siarter Iaith Uwchradd

Bu i nifer o arweinwyr y Gymraeg y rhanbarth fynychu'r gyfarfod cychwynnol yn cyflwyno'r Siarter Iaith Uwchradd

gan greu cysylltiadau cenedlaethol. Bydd cyfarfod nesaf y Siarter Iaith Uwchradd yn ystod mis Medi 2022 a'r gobaith yw y bydd cynrychiolaeth o ysgolion y rhanbarth yn cyflwyno yn y cyfarfodydd cenedlaethol hyn yn ystod y flwyddyn nesaf.

Design Space – Dylunio ar gyfer y Gymraeg CiG

Yn dilyn cydweithio â'r YCG Ieithoedd Rhyngwladol, trefnwyd cyfarfod i dri o arweinwyr y Gymraeg y rhanbarth fynychu gweithdy digidol *Design Space*, sy'n llwyfan ar gyfer dylunio cwricwlwm ac sy'n cynnig cyfleon unigryw i ddylunio ar gyfer ieithoedd o fewn MDaPh ILlaCh yn rhan o ddyluniad cwricwlwm ysgol gyfan. Bydd prosiect yn deillio o'r gweithdy hwn yn dechrau yn Nhymor yr Hydref 2022 a bydd cyfraniad yr arweinwyr a fynychodd y cyfarfod yn ystod Chwarter 1 yn greiddiol i gamau nesaf y prosiect hwn y tymor nesaf.

Creu ar draws ieithoedd

Bu YCG Y Gymraeg, Saesneg a Ieithoedd Rhyngwladol yn cydweithio ar y prosiect 'Creu ar draws ieithoedd' eleni ar y cyd â Phrifysgol Bangor, a bu i ddwy o adrannau y Gymraeg ysgolion y rhanbarth ymuno â ni. Cyrhaeddodd y prosiect ei benllanw gydag chyflwyniad o waith dysgwyr ysgolion y prosiect eleni yn cael ei arddangos ar wal ddigidol yng nghanolfan Pontio, Bangor.

Athrawon Cymraeg Yfory

Cyfrannwyd tuag at y gynhadledd traws-rhanbarthol 'Athrawon Cymraeg Yfory' sy'n llwyfan i gydweithio cenedlaethol i gynnig cefnogaeth i fyfyrwyr ANG ar draws Cymru.

'Y Stordy' - Canolfan Cefnogaeth GwE

Mae'r gwaith o ddatblygu gwefan 'Y Stordy' er mwyn creu cartref hylaw a chyfleus ar gyfer adnoddau 'Y Gymraeg a Llythrennedd' yng Nghanolfan Cefnogaeth GwE yn parhau a'r nod yw y bydd y llwyfan hwn yn plethu â llwyfannau digidol 'byw' Teams a Google Classroom maes o law, gyda'r naill yn gartref parhaol a'r llall yn llwyfan datblygol. Yn ystod Chwarter 1, crëwyd y cylchlythyr 'O'r Stordy' er mwyn cael arf ychwanegol i rannu gwybodaeth â'r arweinwyr a chadarnhau negeseuon, ac mae'n fwriad creu fersiwn o'r cylchlythyr ar gyfer yr ysgolion cyfrwng Saesneg yn ystod Tymor yr Hydref 2022.

GWYDDONIAETH

Gwireddu Cwricwlwm i Gymru

Darparwyd cymorth unigryw i bob adran sydd wedi gofyn am cymorth gyda CiG - mae aelodau'r adrannau hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o'r fframwaith CiG yng nghyd-destun Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Maent yn dechrau cynllunio unedau gwaith i baratoi at ddechrau ym mis Medi 2023. Mae Rhwydweithiau Lleol wedi'u cynnal ym mhob awdurdod lleol yn y chwarter hwn.

Rhannwyd enghreifftiau ac adnoddau gan y grwpiau ac maent ar gael i ysgolion eraill (gan gynnwys ysgolion nad ydynt yn rhan o rwydwaith) i'w gweld. Mae'r adnoddau hyn yn sbarduno trafodaethau a syniadau i adrannau mewn ysgolion eraill eu hystyried.

Cynhaliwyd dau ddigwyddiad dysgu proffesiynol i gefnogi arweinwyr canol ac athrawon i ddatblygu'u dealltwriaeth o'r MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg a sut i gynllunio cynnydd mewn dysgu - cafwyd sylwadau hynod galonogol iawn gan yr aelodau ac mae llawer o ysgolion wedi mynd ati i lawr lwytho a mabwysiadu'r adnoddau cynllunio a'r technegau yn eu hadrannau.

Datblygwyd ymhellach y wefan MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg a'i chyfieithu i'r Gymraeg - mae'r wefan yn cefnogi ysgolion ac adrannau i ystyried y syniadau mawr mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg a gwahanol ddulliau ar gyfer cynllunio'r dysgu.

Asesu ac Atebolwydd

Roedd yr ail ddigwyddiad dysgu proffesiynol ar y MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn canolbwyntio ar ddeall a chynllunio ar gyfer cynnydd. O'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn ddiweddar, roeddent yn teimlo bod yr hyfforddiant hwn a'r adnoddau cefnogol wedi'u galluogi i ddatblygu ymhellach eu dealltwriaeth o gynnydd mewn dysgu a rôl y disgrifiadau dysgu wrth gynllunio'r dysgu.

Gwella'r Addysgu

Drwy gyfrwng y rhwydweithiau MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg, mae cydweithio, gweithio rhwng ysgolion a

rhannu'r arferion gorau yn datblygu. Mae ysgolion sydd yn rhan o'r rhwydweithiau wedi magu profiad a dealltwriaeth werthfawr drwy weithio gyda'i gilydd a rhannu syniadau ar gyfer cynllunio a dysgu ac ystyriaethau addysgegol. Rhennir y gwaith hwn ar Ganolfan Cefnogaeth GwE i ysgolion eraill fynd ato.

Datblygu gwefan TANIO - gwelwyd nifer sylweddol o ymwelwyr â'r wefan ac yn lawr lwytho dros gyfnod yr arholiadau, sydd yn dangos fod yr adnoddau yn cael eu defnyddio'n eang ar draws y rhanbarth.

OEDRAN 3-8

Darparu cymorth unigryw i ysgolion sy'n achosi pryder, fel bod modd iddynt yrru eu taith welliant eu hunain. Gwella ymhellach y ddarpariaeth a chynnydd disgyblion ym mhob ysgol yn y rhanbarth wrth baratol at y Cwricwlwm i Gymru a'i weithredu.

Defnyddio strategaethau asesu ffurfiannol yn dda, neu'n well, ym mhob ysgol

Datblygu cydweithio ar draws sectorau a rhannu arferion da o ran asesu

Datblygu cydweithio ar draws sectorau ar bontio a rhannu arferion da

Sicrhau cysondeb negeseuon i ysgolion o ran y cwricwlwm, asesu a dysgu ac addysgu mewn rhwydweithiau traws-sector, a'r hyfforddiant a'r cymorth a ddarperir gan GwE.

Dyma'r prif ddatblygiadau yn y chwarter hwn:

- Darparwyd cymorth unigryw i ysgolion sy'n destun pryder ar draws y rhanbarth (gweler y data). Tynnwyd un ysgol o Fesurau Arbennig yn ystod y cyfnod hwn. Gwelwyd bron pob ysgol sy'n destun pryder yn gwneud cynnydd da yn erbyn y camau gweithredu a gytunwyd a rhanddeiliaid yn uwch sgilio yn ystod y broses. Lleihad mewn amrywiad dysgu ac addysgu 3-8 oed ar draws y rhanbarth. Mae'r cymorth hefyd wedi sicrhau dealltwriaeth ddofnach o egwyddorion ac addysgeg Dysgu Sylfaen sy'n cyd-fynd â'r tair elfen galluogi a'r addysgeg o fewn canllawiau Galluogi Dysgu a fframwaith CiG.
- Cynhaliwyd gweminar rhannu gwybodaeth ar Alluogi Dysgu i bob YCG, UDA, Athrawon a Chymorthyddion Dysgu ar draws y rhanbarth. Dyfnhawyd dealltwriaeth o elfennau allweddol y fframwaith CiG, gan gynnwys defnyddio arsylwi, chwarae a dysgu drwy chwarae, dysgu gwreiddiol a phwrpasol, dysgu yn yr awyr agored a datblygiad y plentyn. Mae mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth hefyd o'r 5 llwybr datblygol i sicrhau cysondeb darpariaeth a darpariaeth sy'n briodol i ddatblygiad y dysgwyr ieuengaf.
- Darparwyd sesiwn Dysgu Proffesiynol CiG (3 i 8 oed) yn rhanbarthol. Rhannwyd arferion da o ran cynllunio, arferion asesu ffurfiannol gan gynnwys arsylwi. Cydweithio ar draws y continwmm wrth gynllunio'r sesiwn gyda'r YCG yn draws-sector (8 i 11 oed) wedi sicrhau cysondeb negeseuon o ran y cwricwlwm, asesu a dysgu ac addysgu.
- Cydweithiwyd ag YCG traws-sector ar gynllunio a darparu hyfforddiant digidol i sicrhau cysondeb a phrofiadau dysgu ac addysgu sydd yn ddatblygiadol briodol i gyfoethogi sgiliau llafaredd Cymraeg.
- Darparwyd rhwydwaith CS rhanbarthol (Gorffennaf 22) i rannu arweiniad gan LC ar drefniadau asesu mynediad ar gyfer mis Medi 22. Gan gynnwys strategaethau i sicrhau pontio effeithiol ac asesiadau mynediad gan gynnwys arsylwi yn erbyn gofynion statudol a phroffiliau un dudalen. Rhannwyd negeseuon allweddol i helpu gyda phontio i'r Meithrin.
- Rhannwyd astudiaethau achos, wyneb yn wyneb ar draws y rhanbarth, i ddangos effaith y ddarpariaeth gwaith coed ar ddatblygu sgiliau ar draws sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol y MDaPh. Roedd yr astudiaethau achos yn dangos ffyrdd effeithiol o arsylwi ac asesu drwy brofiadau bywyd go iawn sydd yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd a lles disgyblion yn gyffredinol. Mae'r holl astudiaethau achos wedi'u llwytho ar Ganolfan Cefnogaeth GwE a'u rhannu yn ystod Rhwydwaith y CS yn yr Haf (Gorffennaf 22).
- Trawstoriad o ysgolion ar draws y rhanbarth, 4 o bob ALI, yn rhan o brosiect ymchwil 'Communication Friendly Spaces Approach'. Ymarferwyr yn myfyrio ac yn adolygu eu hamgylchedd dysgu tu mewn a thu allan. Mae pob ysgol wedi cynnal awdit o'u hamgylcheddau ac wedi myfyrio ar effaith eu darpariaeth ar ddysgwyr, yn unol â'r canllawiau Galluogi Dysgu.
- Cyfeirio ac arwain ysgolion at fodiwlau hyfforddiant cenedlaethol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen (Dysgu Sylfaen) i ddyfnhau eu dealltwriaeth ac uwch sgilio ymarferwyr wrth arsylwi, datblygiad plant, dysgu gwreiddiol a phwrpasol, chwarae a dysgu drwy chwarae, pontio a dysgu yn yr awyr agored.

AMCAN 3 - ARWEINYDDIAETH

Cefnogi arweinwyr ysbrydoledig sy'n cydweithio i godi safonau. Cynnwys darpar arweinwyr a rhwydweithiau

ARWEINYDDIAETH

Rhoi mynediad at ystod o ddysgu proffesiynol yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gan gynnwys mynediad at hyfforddi a mentora, i bob ymarferydd addysg mewn ysgolion a lleoliadau sydd yn briodol i'w rôl a'u cyfrifoldeb yn unol â safonau proffesiynol.

(Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol, Rhaglenni Arweinyddiaeth Cenedlaethol i Athrawon/Penaethiaid

Yn ôl gwaith monitro ac arfarnu anffurfiol yn seiliedig ar drafodaethau'r tîm darparu, mae pob rhaglen yn cael effaith dda ar hyder a gallu arweinwyr i gyfrannu at system gyd-weithredol a hunan-wella. Yn ôl sgysiau ag aelodau a'u rheolwyr llinell, mae'r rhaglenni yn cyfrannu at ddatblygu ymarferwyr hunan-fyfyriol sydd yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu proffesiynol a'u datblygiad gyfaol eu hunain, ac maent yn datblygu ymhellach eu dealltwriaeth o'u rôl arweinyddol, yn enwedig o ran gweithredu'r CiG yn llwyddiannus.

Mae'r rhaglenni wedi sicrhau bod yr aelodau ar draws yr holl raglenni yn myfyrio ar eu harferion proffesiynol eu hunain fel arweinwyr ysgol yn erbyn y Safonau Arweinyddiaeth Cenedlaethol.

Mae'r aelodau wedi'u huwch sgilio a'u grymuso i arwain a chefnogi cydweithwyr yn eu lleoliadau, sydd yn cryfhau'r gallu arweinyddol yn eu hysgolion.

Mae'r Llwybr Arweinyddiaeth yn hwyluso dysgu proffesiynol priodol i arweinwyr ar bob lefel, sydd yn cefnogi eu datblygiad i'r cam nesaf yn eu gyrfa.

Mae pob rhaglen yn cael ei diweddarau yn briodol i gadw at yr agenda cenedlaethol a rhoi sylw i faterion yn ymwneud ag effaith y pandemig. Mae hyn yn digwydd ar lefel genedlaethol a rhanbarthol.

O safbwynt y newidiadau yn y Rhaglen i Benaethiaid Newydd a Phenathiaid mewn Gofal, mae'r ddarpariaeth sefydlu ar gyfer Penaethiaid newydd ar draws y rhanbarth bellach yn fwy cyson, cefnogol ac effeithiol.

Gan fod carfanau 2021-22 ar fin cwblhau eu rhaglenni datblygu, mae angen i ni recriwtio niferoedd cynaliadwy o ymgeiswyr sydd â phrofiad priodol ar draws y rhanbarth ar gyfer carfanau 2022-23.

LLYWODRAETHWYR

Cefnogi cyrff llywodraethu ysgolion i benodi uwch arweinwyr da.

Cefnogwyd cyrff llywodraethu ysgolion i benodi uwch arweinwyr da.

Cefnogi awdurdodau lleol i sicrhau bod gan gyrff llywodraethu fynediad at gyfleoedd dysgu o safon uchel.

Rhoddyd cymorth i awdurdodau lleol i sicrhau bod gan gyrff llywodraethu fynediad at gyfleoedd dysgu o safon uchel. Mae rhaglen cyfleoedd dysgu proffesiynol 2021-22 yn cynnwys Diwygio Addysg a fydd yn cynnwys Cwricwlwm i Gymru, y Daith Ddiwygio ADY, Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu, Prosiect Shirley Clarke, Y Cyfnod Sylfaen, y Fframwaith Cymhwysedd Digidol ac Arweinyddiaeth.

Cefnogi awdurdodau lleol i sicrhau bod gan gyrff llywodraethu gefnogaeth gyda hunan arfarnu a chynllunio datblygiad.

Darparwyd cymorth i awdurdodau lleol i sicrhau bod gan gyrff llywodraethu gefnogaeth gyda hunan arfarnu a chynllunio datblygiad, gan gynnwys cymorth cyn-arolygiad i Lywodraethwyr ar ddisgwyliadau Estyn cyn ac yn ystod arolygiad.

Hwyluso cyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn effeithiol rhwng GwE, yr ALL a SCLI.

Darparwyd cymorth i hwyluso cyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn effeithiol rhwng GwE, yr ALL a SCLI. Mae'r holl randdeiliaid yn elwa o rannu gwybodaeth.

Cefnogi AauLI i ddarparu hyfforddiant i gyrff llywodraethu wrth iddynt gefnogi'r gwaith gwella ysgolion.

Targedwyd cynhaliadau i ALL wrth iddynt ddarparu hyfforddiant i gyrff llywodraethu i gefnogi gwaith gwella ysgolion, er mai dim ond i ddau o'r chwe ALL y bu hyn yn berthnasol ers mis Ebrill 2022. Mae potensial i dargedu mwy o gynhaliadau i Lywodraethwyr ar draws y chwe ALL ar agweddau y mae eu Hunan Arfarniad wedi nodi sydd angen eu gwella.

CYNGHREIRIAU/RHWYDWEITHIAU/CLYSTYRAU

Cydweithio ag arweinwyr ysgolion ar bob lefel i wreiddio ymhellach cyfraniad:

- y clystyrau cynradd ac uwchradd
- cyngyreiriaid uwchradd

- **rhwydweithiau rhanbarthol**

wrth fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol.

Sicrhau bod cyrff llywodraethu yn ymwybodol o bwysigrwydd cydweithio cynghrair/clwstwr, yn arbennig felly gan ei fod yn gysylltiedig â datblygu'r CiG.

Mae un o linyddau allweddol y ddogfen a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sef: *Canllawiau Gwella Ysgolion: Fframwaith ar gyfer Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd* yn rhoi hwb newydd i'r gwaith cydweithredol gydag arweinwyr ysgol ar bob lefel i fynd ati i wreiddio cyfraniad y clystyrau cynradd/uwchradd a'r cynghreiriau uwchradd. Wrth symud ymlaen, yr hyn a fydd yn cynnal ein hymdrechion ac yn sicrhau bod y newid diwylliannol yn cael mwy o afael ac effaith yw'r disgwyliad cenedlaethol i ysgolion weithio'n effeithiol gyda chymheiriaid ar arfarnu, cynllunio gwelliant a datblygu dull gweithredu a dealltwriaeth gyffredin o gynnydd dysgwyr.

Mae hyfforddiant EDT/RhPY (SPP) wedi parhau, a chyflwynwyd clystyrau/cynghreiriau newydd i'r model a chynigiwyd sesiwn diweddar i'r rheiny oedd eisiau ail-gydio wedi cyfnod Covid.

O fis Medi 2022, canolbwyntir yn bennaf ar bontio gyda'r glystyrau cynradd/uwchradd.

Erbyn mis Mehefin 2022, mae bron pob ysgol ar draws pob sector wedi gweithio'n effeithiol gyda chynghreiriau a chlystyrau lleol. Canolbwyntiwyd yn bennaf ar gydweithio fel clystyrau ar y CiG ac ar gyfrannu at weithgareddau arfarnu a chynllunio gwelliant. Cryfhawyd eu gwaith gan gyfraniadau'r Rhwydweithiau MDaPh ar lefel ranbarthol a lleol. O ganlyniad, mae nifer o gynghreiriau yn datblygu arferion cryf cynnar o ran cynllunio gweithgareddau ar y cyd i gefnogi'r daith ddiwygio ac agweddau ar wella ysgol. Hefyd, mae arweinwyr yn dangos mwy o hyder wrth baratoi i gyflwyno'r cwricwlwm yn 2022 [neu 2023 i'r rheiny sydd wedi dewis hynny].

AMCAN 4 - YSGOLION CRYF A CHYNHWYSOL

Yn ymroi i ragoriaeth, tegwch a llesiant

GDD PMG

Datblygu ymhellach a gweithredu'r strategaeth GDD genedlaethol ar draws y rhanbarth. Gwreiddio'r model GDD PMG clwstwr/cynghrair ar draws y rhanbarth.

GDD

Gweithredwyd y strategaeth GDD ranbarthol ar draws y rhanbarth gyda phob ysgol/lleoliad yn manteisio ar y cynnig dysgu proffesiynol digidol, Meddwl yn Wahanol, yn ychwanegol at gefnogaeth gan yr YCG. Mae'r GDD yn cyd-fynd â chefnogi dull gweithredu ysgol gyfan gyda lles a thargedu cynhaliath/ymyraethau.

Elfen GDD Blynnyddoedd Cynnar y strategaeth ranbarthol - cynhaliwyd nifer o sesiynau Talk Boost i ysgolion targed. Rydym hefyd wedi datblygu ffurflen monitro blynnyddol ALL sydd yn dangos sut y bwriedir defnyddio'r grant yn unol â'r blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer lleoliadau nas cynhelir.

GDD PMG a Llesiant

Dyma'r prif ddatblygiadau:

- Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi dechrau'r broses o newid diwylliant/ethos a meddylfryd yr ysgol drwy fframwaith ysgol gyfan Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma (TIS)/Dull Adferol ac Annog.
- Mae bron pob ysgol wedi bod ar hyfforddiant DP TIS ysgol gyfan ar draws y rhanbarth.
- Mae bron pob ysgol wedi bod mewn o leiaf un o'n sesiynau DP ar Lesiant.
- Mae pob clwstwr ble mae nifer uchel o PMG wedi bod ar y DP TIS neu Restr Wirio Arsylwi.
- Mae mwy o bolisiau a strategaethau sydd yn seiliedig ar berthynas mewn ysgolion o ganlyniad i'r DP TIS.
- Mae tystiolaeth o ddatblygu arferion cydweithredol rhwng ysgolion/clystyrau/CAMHS a gwasanaethau plant.
- Mwy o leoliadau yn hyderus i ddefnyddio ystod o fesurau effaith ac arfarnu o safbwynt lles.
- Mae'r cyfathrebu a'r cydweithio yn gryfach gyda'r awdurdodau lleol ac lechyd o ran y targedu cynhaliath a'r cymorth cyffredinol.
- Cwblhawyd y gwaith mapio Rhanbarthol ac ALL ar gyfer Llesiant.
- Mwy o ysgolion yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar niwro-wyddoniaeth yn y dysgu a'r addysgu, gyda

- Staff yn fwy hyderus yn eu dulliau
 - Dysgwyr yn gallu hunan-reoleiddio/myfyrio ar eu hymddygiad a'u teimladau yn well.
 - Newidiadau mewn Ymddygiad Dysgwyr a Gwaharddiadau
 - Agweddau at ddysgu wedi newid - dysgwyr a staff
 - Dysgwyr yn hapusach yn yr ysgol
- Pecyn TIS ymarferol i ysgolion ei ddefnyddio drwy'r dull cyffredinol
 - Ffurio Rhwydwaith Cymuned sy'n Ystyriol o Drawma/Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl sy'n dod ag addysg a gwasanaethau plant ynghyd i gefnogi dysgwyr.
 - Staff yn defnyddio 'Lle i fyfyrio' a sesiynau cymorth.
 - Mae'r GDD PMG yn cyd-fynd â'r ffocws ysgol gyfan a CiG gyda bron pob clwstwr wedi cwblhau'r dangosfwrdd.
 - Mae pob ALL/ysgol wedi manteisio ar y Cynnig DP i Arweinwyr Dynodedig.
 - Gwelwyd cynnydd yn yr ysgolion sydd â PMG sydd wedi manteisio ar ein Cynnig Dysgu Proffesiynol.
 - Cefnogwyd ysgolion/lleoliadau i roi'r dysgu proffesiynol ar waith wrth gyflwyno'r cwricwlwm, ac yn yr addysgeg, yn ogystal â'r ymyraethau ychwanegol.
 - Cynhaliwyd 3 sesiwn DP i ANG ar draws y rhanbarth i fod yn wybodus am drawma a gwreiddio arferion yn y dysgu a'r addysgu.
 - Dyfarnwyd statws TIS i dair ysgol gynradd yn y rhanbarth.
 - Mae gennym ddau hyfforddwr sydd yn gymwys i gyflwyno hyfforddiant TIS ysgol gyfan yn y Gymraeg.
 - Dros y misoedd diwethaf, mae'r YCG wedi cyflawni statws ymarferydd TIS ac wedi plethu eu sgiliau a'u gwybodaeth â'u rôl cefnogi ysgolion.

LLES Y GWEITHLU (GwE ac ysgolion)

Cefnogi lles arweinwyr yng nghyd-destun yr heriau parhaus mewn arweinyddiaeth, a hynny trwy ddarparu 'Lle i Fyfyrio' i arweinwyr ysgolion ar draws y rhanbarth.

Mae 'Lle i Fyfyrio' yn parhau i gael ei ddefnyddio ar draws y rhanbarth. Mae Mike Armiger a Coral Harper yn parhau i ddarparu sesiynau. Mae 'Mindful Visionaries' am gynnal peilot ac maent yn gweithio gyda thri arweinydd ysgol ar draws y rhanbarth. Mae cyfarfodydd ar y gweill ar gyfer mis Medi 2022 i gynllunio ffyrdd ymlaen ac adolygu'r broses hyd yma.

LLESIANT YSGOL GYFAN (MDaPh)

Hyrwyddo 'Dinasyddion Egwyddorol, Gwybodus i Gymru' trwy ddatblygu momentwm ein digwyddiad TEDxGwE llwyddiannus.

Mae cynlluniau ar y gweill i ni fod yn gweithio ar y cyd â Phrifysgol Glyndŵr a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru i gynnal 'Peilot Arweinwyr y Dyfodol' i alluogi pobl ifanc (14-16 oed) i gyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygu Cynlluniau Llesiant rhanbarthol, a rhannu eu barn a'u syniadau ar sut y gellir mynd ati i wella lles ar eu cyfer nhw a phobl debyg yn eu hardal leol. Byddwn yn dod i ddeall mwyfwy am Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn datblygu i fod yn 'ddinasyddion byd-eang a moesegol', ac yn datblygu ymdeimlad o hunan-ffeithiolrwydd a photensial i fod yn arweinwyr (heddiw) a'r dyfodol. Mae ail-gofrestru wedi agor ac rydym yn edrych am chwe lleoliad ar gyfer TEDx.

STRATEGAETH I GEFNOI RHINIEN/GOFALWYR

Sicrhau bod "Helpu eich plentyn i ddysgu" yn cael ei rannu'n effeithiol ag ysgolion a rhieni a gofalwyr ar draws Cymru.

Mae grŵp rhanbarthol wedi ei sefydlu, gyda chynrychiolaeth o GwE a phob ALL, i arwain, rheoli a chydlynu'r maes cefnogi rhieni a gofalwyr gyda dysgu eu plant.

Dyma'r prif ddatblygiadau:

- Mae datblygwr yr Adnodd wedi creu Helpu eich Plentyn i Ddysgu (HYCTL) ar gyfer ysgolion cynradd a disgyblion Blwyddyn 7 ac 8.
- Mae datblygwr yr Adnodd wedi creu Helpu eich Plentyn yn ei Arddegau i Ddysgu (HYTTL) ar gyfer disgyblion Blwyddyn 9, 10 ac 11.
- Rhannwyd pecynnau cyfathrebu dwyieithog ar gyfer HYCTL a HYTTL ag ysgolion.
- Datblygwyd pecynnau hyfforddi i gymorthyddion dysgu eu defnyddio efo rhieni (HYCTL a HYTTL).
- Crëwyd llwyfan ar wefan GwE gyda gwybodaeth i Rieni, Gofalwyr ac Ysgolion - mae hyn yn sicrhau mynediad rhwydd i bawb.

- 12 ysgol i dreialu'r pecyn hyfforddi ar gyfer Helpu eich Plentyn i Ddysgu. Bydd y grŵp yn ailymgynnwll yn ystod tymor yr hydref i roi adborth. Yna bydd yr hyfforddiant ar gael i bob ysgol ar draws y rhanbarth.
- Gwahodd cyd-weithwyr uwchradd i fynychu hyfforddiant yn ystod tymor yr hydref. Y nod yw gwneud hyn gyda phob ysgol uwchradd ar draws y rhanbarth.

AILGYDIO MEWN DYSGU

Cymorth i weithredu ymyraethau Geiriau Amlder Uchel (HFW)/Darllen Ailadroddol (RR) a Headsprout.

Mae dwy agwedd ar y ffrwd waith hon: **Gwella rhuglder mewn Darllen ar Lafar (iFOR)** gan ddefnyddio strategaethau HFW a RR, a'r ddarpariaeth barhaus ar gyfer ysgolion i ddefnyddio rhaglenni darllen Headsprout, o'r enw **prosiect Cadw Disgyblion i Ddarllen (KPR)**. Mae'r prosiectau hyn yn barhad o'r gwaith a gychwynwyd y flwyddyn flaenorol. Dyma ddiweddariad:

Gwella rhuglder mewn Darllen ar Lafar (iFOR)

Mae 52 ysgol a 66 athro wedi cofrestru a chael mynediad at fideos hyfforddiant ar-lein ac adnoddau ymyraeth i'w lawrlwytho a'u defnyddio yn eu hysgolion. Dyma niferoedd yr athrawon sydd wedi defnyddio Google classroom:

- Mae 63 wedi defnyddio'r adnoddau Saesneg
- Mae 41 wedi defnyddio'r adnoddau Cymraeg.

Mae 14 ysgol wedi bod mewn sesiynau cymorth cwestiwn ac ateb dilynol ar-lein, ac wedi cael aelod o'r tîm ymchwil wrth law i roi cymorth gweithredu. Cynhaliwyd y sesiynau cymorth ym mis Medi 2021 a mis Ionawr 2022. Gwahoddwyd ysgolion hefyd i fesur cynnydd mewn Rhuglder Darllen ar Lafar gan ddefnyddio prawf sgrinio DIBELS. Mae dwy ysgol wedi mesur cynnydd gan ddefnyddio adnoddau sgrinio DIBELS ac mae un ysgol yn monitro cynnydd. Mynegodd chwe ysgol arall ddiddordeb mewn mesur cynnydd disgyblion gan ddefnyddio DIBELS. Datblygwyd adnoddau Rhuglder Darllen Ailadroddol i'w defnyddio gartref ac yn yr ysgol (cyfleoedd ychwanegol i ymarfer). Gwahoddwyd ysgolion i dreialu defnyddio'r deunyddiau yn y cartref a'r ysgol. Mynegodd bedair ysgol ddiddordeb. Drwy gydol 2021-22, rydym wedi parhau i ddiweddarau'r ymyraethau RR a HFW i'w gwneud nhw'n fwy hygyrch ac ymarferol. Rydym ni hefyd wrthi'n dylunio llawlyfr iFOR ac yn creu fideos hyfforddiant syml a byr. Hysbysebir ym Mwletin GwE ym mis Medi 2022 i ysgolion gofrestru ar sesiynau hyfforddiant iFOR yn yr Hydref.

Prosiect Cadw Disgyblion i Ddarllen (KPR)

Crynodeb o'r cynnydd hyd yma:

- Cymorth parhaus ar gael i ysgolion dros e-bost/galwad ffôn/galwad fideo gan Swyddog Ymchwil ar gyfer unrhyw gymorth sydd angen ar staff ysgol (technegol, prynu/adnewyddu trwyddedau, gweithredu, hyfforddiant, sut i fynd at yr adnoddau ac ati).
- Mae'r holl adnoddau, yn cynnwys canllawiau a fideos hyfforddiant o fis Medi 2021, ar gael ar Hwb i staff ysgolion a Google Classroom i rieni
- Hysbysebwyd holl fanylion y prosiectau drwy fwletin GwE a Twitter.
- Yn Nhymor yr Hydref 2021, cefnogwyd pob ysgol gyda'r broses o adnewyddu eu trwyddedau presennol neu drwyddedau treial. Yn Nhymor y Gwanwyn 2022, cyflwynwyd dwy weminar 'cychwyn arni gyda Headsprout' a dwy weminar 'sut i fonitro cynnydd' (recordiwyd y rhain a'u rhoi ar Ganolfan Cefnogaeth GwE). Roedd 10 ysgol yn bresennol ac maent wedi parhau i gael cymorth parhaus ers hynny.
- Yn Nhymor yr Haf 2022, cynhaliwyd 3 sesiwn cwestiwn ac ateb i ysgolion. Roedd dwy ysgol yn bresennol.

Y camau nesaf yn Hydref 2022:

- Cynnig cymorth parhaus i staff ysgolion gan y Swyddog Ymchwil.
- Monitro Hwb i roi mynediad i ysgolion newydd
- Parhau i fonitro Google Classroom
- Diweddarau fideos hyfforddiant pan fydd angen

Hysbysebir ym Mwletin GwE ym mis Medi 2022 i ysgolion gofrestru ar sesiynau hyfforddiant KPR yr Hydref.

Dysgu iaith a Llythrennedd o Bell (RILL)

Dechreuodd tîm ymchwil RILL ar waith Cam 2 ddechrau mis Mai 2021. Maent bellach wedi cwblhau'r addasiadau i'r fersiwn gydamserol/anghydamserol wreiddiol o RILL a ddatblygwyd yn 2020 yn ystod y cyfnod clo.

Hyfforddwyd 33 o ysgolion mewn RILL (58 o athrawon) yn ystod blwyddyn ysgol 2021-22, gyda'r mwyafrif yn gyfrwng Cymraeg.

Yn ystod 2021-22, bu RILL yn canolbwyntio ar hyfforddi ysgolion newydd i weithredu'r rhaglen. Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys tasgau anghydamserol, sesiwn hyfforddiant fyw am ddiwrnod llawn gyda'r tîm RILL (5 o athrawon ar y mwyafrif ym mhob sesiwn ar-lein) a thrafodaeth fer i ddilyn. Roedd sesiynau galw heibio hefyd ar gael i'r rheiny oedd eisiau rhagor o gymorth neu gymorth parhaus. Cynhaliwyd rhywfaint o hyfforddiant wyneb yn wyneb hefyd gyda'r ysgolion oedd yn cymryd rhan.

Yn ogystal â rhwydwaith Hwb ble gall athrawon gael gafael ar wybodaeth a deunyddiau hyfforddiant, gofyn cwestiynau a myfyrio ar eu profiadau, crëwyd gwefan newydd sydd â gwybodaeth a deunyddiau cefnogol i ysgolion, athrawon a rhieni. Ar y wefan ceir hefyd deunyddiau newydd i rieni eu defnyddio gartref gyda'u plant - gan gynnwys geirfa newydd, stori, pwyntiau trafod i annog rhyngweithio a defnyddio iaith lafar. Mae'r deunyddiau hyn yn cyd-fynd â deunyddiau RILL cyfrwng Cymraeg a bwriedir iddynt gael eu gosod fel gwaith cartref gan yr athro cyn y wers. Mae'r rhain yn cynnwys disgrifiadau/cyfieithiadau Saesneg i rieni di-Gymraeg, yn ogystal â fideos i gefnogi darllenwyr llai hyderus.

Rydym hefyd wedi datblygu a pheilotu batri o asesiadau ar-lein i gofnodi data effaith RILL.

Yn 2022-23, yr amcan cyntaf yw ymestyn RILL i ddarparu rhaglen iaith a llythrennedd yn y Gymraeg dros bymtheg wythnos gan ddefnyddio technoleg i blant difreintiedig (h.y. cartref di-Gymraeg, SES a gallu isel) a phrofi pa mor effeithiol ydyw o ran gwella sgiliau iaith a darllen Cymraeg. Llwyddwyd i recriwtio 20 ysgol o Wynedd ac Ynys Môn i gychwyn ar y gwaith ym mis Hydref 2022. Byddwn hefyd yn recriwtio 60 ysgol yn rhagor ar draws Cymru i gael hyfforddiant RILL.

Helpu ysgolion targed i ddefnyddio astudiaeth a strategaethau adolygu yn seiliedig ar dystiolaeth

Nod y prosiect yw casglu sylwadau a gwybodaeth ar ymarferoldeb gan ddefnyddio set newydd o adnoddau profi ymarfer (iSTER) i helpu dysgwyr wella deiliannau mewn TGAU mathemateg.

AMCAN 5- CEFNOGI SYSTEM SY'N HUNAN WELLA

Cefnogi system ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y gallu a'r cynhwysedd i fod yn dysgu a gwella eu harferion yn gyson

YMGYSYLLTU Â CHYMHEIRIAID

Parhau i ddatblygu prosesau adolygu gan gymheiriaid ymhellach mewn ysgolion er mwyn cefnogi gweithrediadau hunanwerthuso cadarn a gwaith cynllunio gwelliant ar bob lefel.

Parhau i ddatblygu'r gallu i arwain ledled y system.

Gwreiddio adolygu gan gymheiriaid fel agwedd allweddol ar wella ysgolion ledled y rhanbarth.

Ers tair blynedd bellach, ceir cytundeb ar gyfres o egwyddorion rhanbarthol â phenaethiaid ar gyfer ymgysylltu â chymheiriaid. Dosbarthwyd model adolygu gan gymheiriaid (y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion*) i randdeiliaid a chafodd ei ardystio gan y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor.

Derbyniodd holl Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG) GwE hyfforddiant a chefnogaeth barhaus yn ymwneud ag adolygu gan gymheiriaid, hwyluso, mentora a hyfforddi. Erbyn Gorffennaf 2022 mae 29 o Ymgynghorwyr wedi'u hyfforddi fel adolygwyr cyfoedion a hwyluswyr gwelliant fel rhan o'r *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion*. Derbyniodd holl aelodau newydd o staff GwE ddiweddariad ar hyfforddiant y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion*. Hyfforddwyd 13

o Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn ystod Hydref 2021 fel cyflwynwyr rhaglen, ac yn dilyn rhaglen o gysgodi hyfforddiant yn ystod Ebrill 2022 gallant bellach gyflwyno hyfforddiant y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion* i ysgolion a chlystyrau. Yn ystod Mis Mai 2022 fe gyflwynwyd y rhaglen gyntaf o hyfforddiant RhPY wedi ei hwyluso gan staff GwE yn unig i gohort 3b. Golyga hyn erbyn Gorffennaf 2022 fod un ar hugain o Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant a'r gallu i gyflwyno'r rhaglen partneriaethau ysgolion yn llwyddiannus a bod hyd at ddeg YCG ychwanegol wedi eu clustnodi i dderbyn yr hyfforddiant fel hwyluswyr yn nhymor yr Hydref 2022.

Erbyn Gorffennaf 2022, mae 21 clwstwr/ cynghrair (118 ysgol) wedi derbyn hyfforddiant y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion* ac maent wedi mynd ati eisoes, neu'n paratoi, i gyflawni gwaith adolygu gan gymheiriaid yn ystod tymor yr haf / cychwyn tymor yr hydref 2022. Mae 149 o benaethiaid/uwch arweinwyr wedi'u hyfforddi fel adolygwyr cymheiriaid ledled y rhanbarth. Mae 131 o uwch arweinwyr/arweinwyr canol ac athrawon medrus wedi'u hyfforddi fel '*hwyluswyr gwelliant*'. Bu hyn yn fodd i'r arweinwyr a'r athrawon fanteisio ar addysg broffesiynol o safon a byddai'n cyfrannu tuag at wella'r gallu o ran arweinyddiaeth ledled y rhanbarth. Bu i'r haen gyntaf o ysgolion cynradd a'r clystyrau sydd ynghlwm dderbyn hyfforddiant ymestynnol ar gyfer eu hwyluswyr gwelliant yn Fis Mai 2022 gyda'r ffocws ar ddatblygu'r defnydd cynyddol ac effeithiol o ymchwil yn eu gweithdai gwelliant. Mae'r hyfforddiant diweddaraf ar gyfer ysgolion uwchradd/y clystyrau sydd ynghlwm wedi'i gyflwyno yn ystod Mis Mai 2022.

Mae rhaglen ar waith i gynnig hyfforddiant y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion* i bob un o'r 407 o ysgolion rhanbarthol a'r Unedau Cyfeirio. Y bwriad yw hyfforddi tua 15 o glystyrau pob tymor yn ystod blwyddyn academiaidd 2021-22 ac yna 2022-23. Bydd y rhaglen yn cyd-fynd â'r gwaith i ddatblygu cwricwlwm newydd er mwyn cefnogi ysgolion a chlystyrau i werthuso'u cynnydd wrth gyflawni'r daith ddiwygio. I'r perwyl yma mae cyfres o gwestiynau adlewyrchol gyda ffocws ar y daith diwygio wedi eu ffurfio i gyd fynd a'r broses cymheiriol.

Ym mis Medi 2021, gofynnwyd i ysgolion a chlystyrau nad oedd eisoes yn rhan o'r rhaglen fynegi diddordeb mewn cymryd rhan yn hyfforddiant y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion*. Cafwyd cyfanswm o 33 o glystyrau ar draws y rhanbarth yn mynegi diddordeb, a oedd yn cynnwys 193 o ysgolion rhanbarthol. Mae 53 o ysgolion ychwanegol wedi derbyn yr hyfforddiant erbyn Mis Mai 2022 ac fe drefnwyd bellach i 106 o ysgolion dderbyn hyfforddiant y *Rhaglen Partneriaeth Ysgolion* yn ystod Tymor yr Hydref 2022. Mae pedwar clwstwr/cynghrair o ysgolion wedi eu clustnodi i'w cynnwys mewn astudiaeth achos ag ymchwil i effaith y rhaglen yn y flwyddyn 2022-23. Bydd ymchwilydd o'r "Education Development Trust" yn cwblhau'r Gwaith yma ar ran y rhanbarth.

HYFFORDDI A MENTORA

Rhoi mynediad at ystod o ddysgu proffesiynol yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gan gynnwys mynediad at hyfforddi a mentora, i bob ymarferydd addysg mewn ysgolion a lleoliadau sydd yn briodol i'w rôl a'u cyfrifoldeb yn unol â safonau proffesiynol.

Ni ddarparwyd rhaglen hyfforddiant y tymor hwn ond mae trafodaethau a gwaith cynllunio wedi dechrau mewn perthynas â'r cynnig rhanbarthol. Gofynnwyd am geisiadau i astudio cymwysterau ar lefel 3, 5 a 7 - bydd rhaglenni yn cychwyn ym mis Medi 2022.

YSGOLION SY'N DESTUN PRYDER

Parhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru, Estyn a'r ALL rhanbarthol perthnasol ar y peilot cenedlaethol aml-asiantaethol i ysgolion uwchradd mewn Mesurau Arbennig a chymorth Cam 3 i'r ysgolion hynny a dynnwyd allan o gategori yn ddiweddar.

Ar y cyd â swyddogion yr ALL, cryfhau ymhellach strwythurau a phrosesau rhanbarthol i gefnogi a herio ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n destun pryder.

Cynllunio a chyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru newydd.

Parheir i gydweithio â Llywodraeth Cymru, Estyn a'r ALL rhanbarthol ar y peilot cenedlaethol aml-asiantaethol i ysgolion uwchradd mewn Mesurau Arbennig ac ar gymorth Cam 3 i'r ysgolion hynny a dynnwyd allan o gategori yn ddiweddar. Parheir i gydweithio â swyddogion yr ALL i gryfhau ymhellach strwythurau a sicrhau mwy o gysondeb mewn strwythurau a phrosesau rhanbarthol i gefnogi a herio ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n destun pryder.

Mewn ymweliadau gan Estyn yn ddiweddar, rhoddwyd un ysgol uwchradd ychwanegol mewn Mesurau Arbennig. Er hynny, disgwyliad hyn ac roedd yr awdurdod lleol yn gwbl ymwybodol o'r pryderon cynyddol. Roedd canfyddiadau Estyn yn ystod yr wythnos yn cyd-fynd â phryderon GwE/yr ALL. Hefyd, yn ystod ymweliad monitro yn ddiweddar ag ysgol mewn categori Gwelliant Sylweddol, barnodd Estyn fod y cynnydd yn annigonol a rhoddwyd

yr ysgol mewn Mesurau Arbennig. Mae'r ysgol wrthi'n herio rhai meysydd/agweddau ar y broses. Yn ôl proffil cyfredol y rhanbarth, mae 4 ysgol uwchradd ac 1 ysgol gynradd mewn Mesurau Arbennig.

Parheir gyda'r chymorth Cam 3 i'r ysgolion hynny a dynnwyd allan o gategori mesurau arbennig yn ddiweddar.

Mae cynlluniau cefnogaeth 'holistaidd unigryw 2022-23 ar gyfer yr holl ysgolion a nodir uchod wrthi'n cael eu trafod ac i'w cwblhau yn fuan ym mis Medi. Bydd y cynlluniau hefyd yn sicrhau bod pob ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid allweddol wrth iddynt gynllunio a chyflwyno eu cwricwlwm newydd, a byddant yn sicrhau eu bod yn gweithio'n gynyddol gyda'u cynghrair/clwstwr ac yn ehangach er mwyn gwella arweinyddiaeth, darpariaeth ac ansawdd y dysgu a'r addysgu.

Oherwydd cyfyngiadau Covid, ni fu'n fwy o her i sicrhau ymwneud llawn â'r holl ysgolion mewn categori statudol. Ni fu modd ychwaith, ym mhob sefyllfa, cynnal ymweliadau monitro llawn i gofnodi cynnydd ac effaith, yn enwedig ar lefel dosbarth. Bydd angen rhoi sylw i hyn o Dymor yr Hydref ymlaen.

Os bydd y pandemig yn achosi mwy o darfu eto, gallai hyn effeithio ar yr amserlenni a'r amserlen sydd dan sylw ar gyfer y ffrydiau gwaith a nodir uchod.

YSGOLION A GWASANAETH FEL SEFYDLIADAU SY'N DYSGU (YSD)

- **Sicrhau bod GwE a'i weithlu yn parhau i ymateb i holl ofynion a gwerthoedd Sefydliad sy'n Dysgu.**
- **Helpu ysgolion ar draws y rhanbarth i gael dealltwriaeth ddyfnach o'r hyn yw Sefydliad sy'n Dysgu, fel ei fod yn dod yn rhan naturiol o ddiwylliant ysgolion.**
- **Cryfhau ymhellach ein partneriaeth gyda SAU a datblygu ymwybyddiaeth myfyrwyr o YSD.**

Yn sgil dadansoddi ymateb staff GwE i'r holiadur Sefydliad sy'n Dysgu, daeth yn amlwg mai 'sefydlu diwylliant o ymholi, arloesi ac archwilio' yw'r dimensiwn sydd i'w ddatblygu ymhellach. Yn ystod y pandemig, cryfhawyd yr agwedd hon yn sylweddol, gyda'r gwasanaeth wedi ail-gyfeirio ei hun saith gwaith dros y cyfnod er mwyn ymateb i anghenion ysgolion. O ganlyniad, mae YCG GwE wedi gorfod ymchwilio i ffyrdd gwahanol o gefnogi ysgolion yn ystod y cyfnod ansicr hwn gan arwain at waith arloesol mewn defnyddio TGCh. Bu'r pedair thema drawsliniol sef amser, technoleg, ymddiriedaeth a meddwl gyda'n gilydd yn hanfodol dros y cyfnod hwn er mwyn cryfhau ymhellach y bartneriaeth rhwng y gwasanaeth a'r ysgolion.

Bu'n rhaid i'r cyswllt ag ysgolion yn ystod y pandemig fod yn sensitif iawn oherwydd yr holl bwysau rheolaethol o sicrhau mai iechyd a lles disgyblion a staff sydd yn dod yn gyntaf. Un effaith yw bod ysgolion wedi datblygu'n naturiol mewn nifer o ddimensiynau, e.e. sefydlu diwylliant o ymholi, ymestyn y defnydd o systemau, hybu dysgu mewn tîm a datblygu gweledigaeth gyffredin. Datblygwyd y pedair thema drawsliniol yn sylweddol hefyd - yn enwedig yr elfen technoleg. Cefnogir ysgolion ymhellach i edrych ar eu diwylliant ymholi drwy enghreifftio gwaith ysgolion NPEP ac hefyd cyfeirio at arferion effeithiol yn y rhanbarth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio arolwg electronig YSD yn dawel o ystyried y cyfnod anodd y bu pob ysgol drwyddo yn ystod y pandemig. Isel iawn fu'r ymateb i'r arolwg hyd yma ac mae'n agwedd y bydd angen ei hyrwyddo ymhellach yn ystod gwaith y tymor nesaf a bydd yn rhan naturiol o brosesau ysgolion wrth iddynt ddatblygu eu gwaith Cwricwlwm i Gymru. Bwriadwn ail-gyflwyno sesiynau adolygu i bob ysgol sydd â diddordeb, naill ai drwy recordio weminarau neu gynnal sesiynau anghydamserol.

Mae angen gwneud gwaith datblygu gyda'n partneriaid SAU i edrych ar Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu a sicrhau bod gan ein myfyrwyr ddealltwriaeth ddyfnach o YSD a'u gwerthoedd.

AMCAN 6 - BUSNES

Sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian.

Rheoli Perfformiad a Llywodraethu

Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a grymus yn gryfder allweddol yn GwE. Mae cynlluniau busnes manwl ar bob lefel o gynllunio yn mynd i'r afael â phob agwedd ar waith GwE ac yn nodi'n glir cyfraniad y gwasanaeth at yr agenda trawsnewid. Yn y cynlluniau, ceir meini prawf llwyddiant clir a cherrig milltir ar gyfer cyflawni'r amcanion

hynny.

Ceir trefniadau hunan arfarnu manwl. Adolygir y cynlluniau pob chwarter, ble arfarnir cynnydd ac effaith. Mae staff, ar bob lefel, yn llawn ddeall eu cyfrifoldeb dros welliant parhaus ac atebolrwydd.

Mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl sydd wedi'i gytuno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r ymgynghorydd craidd. Caiff cynnydd tuag at gyflawni'r deilliannau cytûn, ar lefel awdurdod lleol, ei fonitro pob chwarter a'i drafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd rhwng yr ymgynghorydd arweiniol a'r Awdurdod Lleol. Caiff materion parhaus eu cyfeirio at Uwch Arweinwyr GwE yn amserol.

Mae hunan arfarnu yn nodwedd gref yn GwE ac mae'r broses hunan arfarnu yn un gylchol a pharhaus. Rhoddir pwys mawr ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ac mae pwyslais cyson ar gynnydd yn unol â'r blaenoriaethau. O ganlyniad, mae arweinwyr GwE yn adnabod, yn fanwl gywir, meysydd ble mae perfformiad yn dda, a meysydd sydd angen eu datblygu neu ble mae elfen o risg o ran gwella'r profiadau a'r deilliannau addysgol i ddysgwyr.

Gwerth am Arian

Mae gan y consortiwm brosesau rheolaeth ariannol effeithiol ar waith. Mae cyfathrebu ac ymgynghori ynghylch trefniadau ariannol yn effeithiol, gyda staff GwE, yr awdurdod lleol lletyol a'r Cyd-Bwyllgor yn adolygu'r cyllid craidd a'r gwariant grant yn rheolaidd.

Mae dadansoddiad ariannol cadarn yn sail i gyflawni'r cynllun busnes. Mae cynllun ariannol tymor canolig a chynllun gweithlu yn cyd-fynd â'r cynllun busnes. Drwy ddefnyddio data yn gynyddol effeithiol i adnabod blaenoriaethau allweddol, cryfheir y cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a phenderfyniadau cynllunio ariannol gan fod y ffrydiau gwaith sy'n sail i'r cynllun busnes yn nodi'n glir yr adnoddau i'w defnyddio.

Lluniwyd fframwaith ffurfiol i asesu'r gwerth am arian ehangach a ddarperir gan GwE. Mae'r farn bellach yn gyson ar draws yr holl randdeiliaid ar sut y gellir mesur gwerth am arian gweithgareddau GwE o fewn strwythur ac amcanion y cynllun busnes.

Cofrestr Risg

Mae trefniadau trylwyr a chynhwysfawr ar waith i adnabod a rheoli, yn fanwl gywir, risgiau ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r gofrestr risg yn ddogfen fyw, a chaiff ei diweddarau'n gyson i adnabod risgiau sy'n cynyddu, neu risgiau na fernir sy'n lefel uchel mwyach. Fe'i hadolygir pob mis mewn cyfarfod uwch arweinyddol a bydd y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-Bwyllgor yn adolygu'r gofrestr pob chwarter.

Trwy reoli'r risgiau i'r rhanbarth yn effeithiol, gall GwE gefnogi amcanion y rhanbarth, gwneud defnydd effeithiol o adnoddau a chyflawni'r deilliannau yn ôl y bwriad.

2. ATODIAD:

Data Rhanbarthol



GwE

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding



Cynllun Busnes GwE 2022-2023 Data Rhanbarthol Chwarter 1



www.gwegogledd.cymru



@GwEGogleddCymru



CYNLLUN BUSNES 2022-2023

BLAENORIAETHAU A DARPARIAETH Y RHANBARTH 2022-2023

Data Rhanbarthol ac Awdurdod Lleol

AMCAN 1 - CWRICWLWM AC ASESU

Cefnogi cwricwlwm cenedlaethol ble mae tegwch a rhagoriaeth yn ganolog ac sydd yn gosod safonau uchel i bob dysgwr.

GWIREDDU CWRICWLWM (CWRICWLWM I GYMRU)

Data Rhanbarthol:

NIFEROEDD YN BRESENNOL MEWN SESIYNAU DP AR-LEIN AR DRAWS Y RHANBARTH

SESIYNAU UWCH DÎM ARWEINYDDIAETH

- Dylunio Cwricwlwm - 504 Cynradd, 101 Uwchradd, Arbennig ac UauCD
- Asesu a Chynnydd - 620 Cynradd, 141 Uwchradd, Arbennig ac UauCD
- Egwyddorion Cynllunio - 499 Cynradd, 95 Uwchradd, Arbennig ac UauCD
- Galluogi Dysgu - 362 Cynradd

SESIYNAU I ARWEINWYR CANOL / ATHRAWON

Sesiwn 1: Dadbacio MDAph

Sesiwn 2: Cynnydd mewn Dysgu

- Dadbacio MDAph Cynradd - 237
- Uwchradd - Sesiwn 1 ILlCh - 110
- Uwchradd - Sesiwn 1 Mathemateg a Rhifedd - 48
- Uwchradd - Sesiwn 1 Gwyddoniaeth a Thechnoleg - 54
- Uwchradd - Sesiwn 1 Y Dyniaethau - 48
- Uwchradd - Sesiwn 1 Iechyd a Lles - 43
- Uwchradd - Sesiwn 1 Y Celfyddydau Mynegiannol - 36
- Cynllunio ar gyfer cynnydd yn y MDAph (Cynradd) - 518
- Tracio / Asesu Cynradd - 312
- Uwchradd - Sesiwn 2 ILlCh - 64
- Uwchradd - Sesiwn 2 Mathemateg a Rhifedd - 43
- Uwchradd - Sesiwn 2 Gwyddoniaeth a Thechnoleg - 38
- Uwchradd - Sesiwn 2 Y Dyniaethau - 21
- Uwchradd - Sesiwn 2 Iechyd a Lles - 21
- Uwchradd - Sesiwn 2 Y Celfyddydau Mynegiannol - 15

TIMAU MDAph

Data Rhanbarthol:

Presenoldeb mewn Cyfarfodydd Rhanbarthol

21/9/21 - 132 yn bresennol
6/10/21 - 115 yn bresennol
16/11/21 - 117 yn bresennol
14/12/21 - 130 yn bresennol
2/3/22 - 116 yn bresennol
5/4/22 - 112 yn bresennol
27/4/21 - 115 yn bresennol
7/6/22 - 105 yn bresennol
29/6/22 - 101 yn bresennol

AMCAN 2 - DATBLYGU PROFFESIWN ADDYSG O SAFON UCHEL**Gwella'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion****IEITHOEDD TRAMOR MODERN****Data Rhanbarthol:**

Power Language - tanysgrifiad 2-flynedd	4/7/22 90 ysgol
---	--------------------

Cysylltiadau Rhyngwladol - diddordeb	18 ysgol
--------------------------------------	----------

Gweminarau cynradd - Power Language	Nifer yr ysgolion (36 athro)
-------------------------------------	------------------------------

Gweminarau cynradd - Institut Français	Nifer yr ysgolion (7 athro 1 o ALI)
--	-------------------------------------

Uwchsgilio cynradd	Nifer yr ysgolion (13 athro)
--------------------	------------------------------

Y Brifysgol Agored 2021-2022	Nifer yr ysgolion (9 athro)
------------------------------	-----------------------------

Mentora Blwyddyn 8/9 - diddordeb	25 ysgol (4 wrth gefn)
----------------------------------	------------------------

CALU - LIDC**Data Rhanbarthol:**

- Cymorthyddion addysgu sydd newydd eu penodi: **1**
- Cymorthyddion wrth eu gwaith: **84**
- Darpar CALU Cylch 4: **33**
- Statws CALU Cylch 3: **27**
- Aseswyr CALU: **35**
- Cyflwyniad i Cwricwlwm i Gymru: **182**
- **Dosbarth Google i gymorthyddion**

Niferoedd Rhanbarthol:	1872 erbyn Haf 2022
------------------------	---------------------

Y Gymraeg (PL)

Data Rhanbarthol

- Ein Llais Ni – astudiaethau achos wedi eu cyflwyno: 65
- Ein Llais Ni – ymrwymiad ysgolion i'r prosiect: 81

SAFON UWCH

Data Rhanbarthol:

- Cyfarfodydd rhwydwaith ôl-16 tymor yr haf: 23

YMCHWIL A GWERTHUSO

Data Rhanbarthol:

- Prosiect Ymchwil gwrth-fwlio KiVa: 30

DIGIDOL

Data Rhanbarthol:

- Canrannau o ysgolion y rhanbarth oedd yn ymgysyllt â Hwb yn ystod chwarter 1: 97.67%

MATHEMATEG A RHIFEDD

Data Rhanbarthol:

- Ysgolion sy'n achosi consyrn: 3

CYMRAEG A LLYTHRENNEDD

Data Rhanbarthol:

Cyfarfod Rhwydwaith Arweinwyr y Gymraeg: 25

Prosiect 'Ein Llais Ni' (GwE) - nifer yr ysgolion uwchradd sy'n rhan o'r prosiect: 13

Y Siarter Iaith Uwchradd – cyfarfod rhithiol cychwynnol: 6

Gweithdy 'Design Space – Dylunio ar gyfer y Gymraeg CiG': 3

Yn aelodau o Teams / Google Classroom 'GwE - Y Gymraeg – Uwchradd' - mae aelodaeth y rhwydwaith digidol hwn ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg yn parhau i gynyddu: 13

GWYDDONIAETH

Data Rhanbarthol:

Wedi mynychu sesiwn cyntaf MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg

19/54 ysgol - 29 athro/arweinydd canol

Wedi mynychu ail sesiwn MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg

29/54 ysgol - 38 athro/arweinydd canol

Wedi derbyn cymorth ysgol penodol

15/54 ysgol (mae llawer o ysgolion wedi cael sawl ymweliad cymorth)

Wedi mynychu cyfarfodydd rhwydwaith
11/54 ysgol

OEDRAN 3-8

Data Rhanbarthol:

- Rhwydwaith Tymor yr Haf: Oddeutu 139 Cymraeg, 151 Saesneg
- Gweminar Galluogi Dysgu i Benaethiaid, UDA, Athrawon a Chymorthyddion Dysgu: Oddeutu 150 Cymraeg 180 Saesneg
- Sesiwn 2 Dysgu Proffesiynol CiG: Oddeutu 250
- Hyfforddiant ANG (Amgylcheddau Effeithiol Tu Mewn a Thu Allan, Oedolion sy'n Galluogi Dysgu a Phrofiadau Dilys a Phwrpasol): Cymraeg 23 Saesneg 33

AMCAN 3 - ARWEINYDDIAETH

Cefnogi arweinwyr ysbrydoledig sy'n cydweithio i godi safonau. Cynnwys darpar arweinwyr a rhwydweithiau proffesiynol

ARWEINYDDIAETH

Data Rhanbarthol:

CARFAN 2021-22

	2021-22
1.Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol	102
2.Rhaglen Datblygu Uwch Arweinwyr	72
3.Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid (paratoi at CPCP)	35
4.Rhaglen Datblygu Penaethiaid Newydd a Phenaethiaid Dros Dro	32
5.Rhaglen Ddatblygu i Benaethiaid Profiadol	17
CYFANSWM	258

AMCAN 4 - YSGOLION CRYF A CHYNHWYSOL

Yn ymroi i ragoriaeth, tegwch a llesiant

AILGYDIO MEWN DYSGU

Data Rhanbarthol:

Gwella rhuglder mewn Darllen ar Lafar (iFOR)

Mae 52 ysgol a 66 athro wedi cofrestru a chael mynediad i fideos hyfforddiant ar-lein ac adnoddau ymyrraeth i'w lawrlwytho a'u defnyddio yn eu hysgolion. Dyma niferoedd yr athrawon sydd wedi defnyddio Google classroom:

- Mae 63 wedi defnyddio'r adnoddau Saesneg
- Mae 41 wedi defnyddio'r adnoddau Cymraeg.

Cadw Disgyblion i Ddarllen (KPR)

Dyma fanylion ynghylch niferoedd athrawon, rhiem ac ynnweliadau â'r adnoddau ar-lein:

	07/2021	07/2022
Nifer yr ysgolion sydd wedi adnewyddu trwydded(au) yn uniongyrchol gyda SR er mis Medi 2021	30	15
Nifer y disgyblion sydd wedi ymuno â Google Classroom	40	40
Nifer y staff sydd wedi ymuno â Hwb	71	73
Wedi gwyllo Canllawiau Fideo: Headsprout gartref (Rhieni ac aelodau staff)	399	513
Wedi gwyllo Canllawiau Fideo: Sut i ddefnyddio straeon Headsprout (Rhieni)	106	363
Wedi gwyllo Canllawiau Fideo: Sut i weinyddu Meincnodau (Rhieni)	18	46
Wedi gwyllo Canllawiau Fideo: Sut i weinyddu Meithrin Rhuglder (Rhieni)	13	54
Wedi gwyllo Canllawiau Fideo: Sut i drefnu treial am ddim/prynu neu adnewyddu trwydded (Staff ysgol)	65	77
Wedi gwyllo Canllawiau Fideo: Sut i ychwanegu disgyblion at y rhaglen (Staff ysgol)	84	135
Wedi gwyllo Canllawiau Fideo: Sut i wirio sgorau (Staff ysgol)	39	85
Wedi gwyllo Canllawiau Fideo: Sut i fewnbynnu sgorau Meincnod (Staff ysgol)	16	25
Wedi gwyllo Canllawiau Fideo: Sut i gael mynediad i Google Classroom (Rhieni)	33	50
Gweminar 1 Cychwyn arni gyda Headsprout	-	2
Gweminar 2 Monitro cynnydd wrth ddefnyddio Headsprout	-	0

Dysgu Iaith a Llythrennedd o Bell (RILL): 33

AMCAN 5- CEFNOGI SYSTEM SY'N HUNAN WELLA

Cefnogi system ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y gallu a'r capasiti i ddysgu a gwella eu harferion yn gyson

YMGYSYLLTU Â CHYMHEIRIAID

Data Rhanbarthol:

Nifer yr ysgolion /clystyrau /cynghreiriau sy'n rhan o'r rhaglen: 118/ 21

Nifer yr Adolygwyr Cymheiriaid a hyfforddwyd:149

Nifer yr Hwyluswyr Gwelliant a hyfforddwyd: 131

Nifer yr ysgolion/ clystyrau sydd wedi eu clustnodi ar gyfer yr haen nesaf: 106 / 19

YSGOLION SY'N DESTUN PRYDER

Data Rhanbarthol:

Ysgolion mewn Mesurau Arbennig:

- 4 uwchradd
- 1 cynradd

Ysgolion angen Gwelliant Sylweddol: 0



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

5 Hydref 2022

Adroddiad gan: Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Pwnc: Y Daith Ddiwygio: Adroddiad cynnydd

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno adroddiad cynnydd pellach i aelodau'r Cyd-bwyllgor ar baratodau ysgolion i waith Cwricwlwm i Gymru yn sgil yr agenda adnewyddu a diwygio.

2.0 Cefndir

2.1 Ers 2015 a chyhoeddi Dyfodol Llwyddiannus, sef adolygiad annibynnol gan yr Athro Graham Donaldson yn cynnig 68 argymhelliad ar wella addysg yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi cychwyn ar gylch newid sylweddol i wireddu Cwricwlwm newydd i Gymru.

2.2 Cefnogwyd ysgolion a lleoliadau ar draws y rhanbarth i fynd i'r afael â'r daith ddiwygio sylweddol hon ers 2017, yn unol â strategaeth Cwricwlwm i Gymru y rhanbarth. Mae enghreifftiau o weithgareddau fel hyn yn cynnwys datblygu addysgeg effeithiol, ystyried asesu pwrpasol gan gynnwys asesu ar gyfer dysgu, datblygu adolygiad gan gymheiriaid ac arwain newid yn unol â gwaith ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu.

2.3 Ers mis Mawrth 2020, yn ddi-os, mae Covid-19 wedi effeithio ar allu a chynhwysedd ysgolion i fynd i'r afael â'r daith ddiwygio. Wrth i ysgolion roi blaenoriaeth i ymateb i'r pandemig, amharwyd ar y rhan fwyaf o'u hamserlenni a'u cynlluniau gwreiddiol i baratoi ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd. Mae Covid-19 yn parhau i fod yn her wrth i achosion godi a gostwng ac arweinwyr yn delio gydag absenoldebau staff a phrinder athrawon llanw.

2.4 Mae'r adroddiad hwn, Atodiad 1, yn ddilyniant i'r adroddiad cynnydd blaenorol yn Nhymor yr Hydref 2021 a oedd yn ystyried ymateb ysgolion i waith Cwricwlwm i Gymru yn sgil yr agenda adnewyddu a diwygio yn ystod pandemig parhaus Covid-19. Mae'r adroddiad yn amlinellu ble mae ysgolion ac UCD arni ar hyn o bryd wrth iddynt barhau i baratoi at y Cwricwlwm i Gymru, ac mae'n seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd gan Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant GwE wrth iddynt gefnogi ysgolion yn ystod tymor y Gwanwyn a'r Haf, 2022.

3.0 Materion i'w hystyried

3.1 Cytunwyd ar yr agweddau yn y rhestr a ganlyn gyda Llywodraeth Cymru a'r rhanbarthau/partneriaethau fel y prosesau sydd angen i ysgolion a lleoliadau addysg eu cwblhau er mwyn bod yn barod i wireddu'r cwricwlwm ym mis Medi 2022. Mae'r agweddau hyn yn cyd-fynd yn union â'r camau a amlinellir yn y ddogfen 'Y Daith i weithredu'r Cwricwlwm'. Mae pob rhanbarth/partneriaeth wedi cyfrannu at y darlun cenedlaethol cyffredinol a rannwyd â'r Gweinidog Addysg a'r Gymraeg. Cofnodwyd cynnydd ar gyfer:

- Adnabod ffactorau unigryw yr ysgol a sut mae'r rhain yn cyfrannu at y pedwar diben
- Adolygu'r weledigaeth, y gwerthoedd a'r ymddygiadau i gefnogi gwireddu'r cwricwlwm.
- Dealltwriaeth o ystyriaethau dylunio cwricwlwm gan gynnwys elfennau mandadol a pholisi ieithyddol yr ysgol
- Adolygu modelau dylunio'r cwricwlwm ac ymchwilio i'w haddasrwydd i'r ysgol
- Ystyried rôl cynnydd, asesu ac addysgeg yn y cwricwlwm/cyd-destun lleol.
- Dylunio, cynllunio a pheilotu'r modelau cwricwlwm arfaethedig, gwerthuso'r dyluniadau cychwynnol a datblygu cynlluniau ar gyfer y tymor canolig

3.2 Yn ystod Tymhorau'r Gwanwyn a'r Haf 2022, mae pob Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant wedi ymweld ag ysgolion ac UCD i ganolbwyntio ar y Cwricwlwm i Gymru. Mae Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant wedi gweithio ochr yn ochr ag arweinwyr ysgolion i gyd-lunio trosolwg a chofnodi'r cynnydd y mae'r ysgol wedi'i wneud wrth baratoi am y cwricwlwm newydd. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r wybodaeth a gasglwyd o'r ymweliadau hyn ar lefel ranbarthol.

3.3 Mae'r adroddiad hefyd yn crynhoi Cynnig Dysgu Proffesiynol a chymorth GwE i ysgolion. Hefyd, ceir crynodeb o'r meysydd i'w datblygu a'u cefnogi ymhellach a'r blaenoriaethau

rhanbarthol lefel uchel. Bydd y blaenoriaethau hyn yn llywio'r cynlluniau busnes rhanbarthol a rhaglen waith GwE ar gyfer Tymor yr Hydref 2022 ymlaen.

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor dderbyn a chymeradwyo cynnwys yr adroddiad.

5.0 Goblygiadau ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol.

6.0 Effaith o ran cydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn

8.0 Ymgynghori a wnaed

8.1 Ymgynghori â Bwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-bwyllgor.

9.0 Atodiadau

9.1 Atodiad 1 - Adroddiad Cynnydd ar Y Daith Ddiwygio: Tymor yr Haf 2022

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Swyddog Cyllid Statudol:

Nodaf fod rhan 5 o'r adroddiad yn cadarnhau nad oes unrhyw ymhlygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad, a bydd GwE yn gweithredu o fewn eu hadnoddau ariannol cyfredol. Felly, nid oes gennyf sylwadau i'w ychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.



Adroddiad Cynnydd ar y Daith Ddiwygio

TYMOR YR HAF 2022



CYNNWYS

- Cyd-destun
- Pwrpas yr Adroddiad
- Meysydd sydd angen eu datblygu a'u cefnogi ymhellach
- Blaenoriaethau Rhanbarthol a nodwyd
- Prif Ganfyddiadau
 - Sectorau Cynradd ac Arbennig gan gynnwys UCD perthnasol
 - Sector Uwchradd gan gynnwys ysgolion arbennig perthnasol ac UCD
- Crynodeb o Gynnig Dysgu Proffesiynol a chymorth GwE i ysgolion

CYD-DESTUN

Ers 2015 a chyhoeddi Dyfodol Llwyddiannus, sef adolygiad annibynnol gan yr Athro Graham Donaldson yn cynnig 68 argymhelliad ar wella addysg yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi cychwyn ar gylich newid sylweddol i wireddu Cwricwlwm newydd i Gymru. Wrth wraidd y Cwricwlwm i Gymru, mae'r pedwar diben:

- dysgwyr uchelgeisiol, galluog sydd yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- cyfranwyr mentrus, creadigol sydd yn barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sydd yn barod i fyw gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru ar Hwb yn datgan:

'Cwricwlwm yr ysgol yw popeth mae dysgwyr yn ei brofi ar ddydd y pedwar diben. Mae'n fwy na'r hyn rydym ni'n ei addysgu yn unig. Mae hefyd yn ymwneud â sut rydym ni'n ei addysgu ac, yn allweddol, pam rydym ni'n ei addysgu.'

Yn unol â'r diffiniad ehangach hwn o'r cwricwlwm, ac yn rhan o'u paratodau, mae pob ysgol wedi bod yn cynnal gweithgareddau tu hwnt i ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm. Cefnogwyd ysgolion a lleoliadau ar draws y rhanbarth i fynd i'r afael â'r daith ddiwygio sylweddol hon ers 2017, yn unol â strategaeth Cwricwlwm i Gymru y rhanbarth. Mae enghreifftiau o weithgareddau fel hyn yn cynnwys datblygu addysgeg effeithiol, ystyried asesu pwrpasol gan gynnwys asesu ar gyfer dysgu, datblygu adolygiad gan gymheiriaid ac arwain newid yn unol â gwaith ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu.

Ar ddiwedd mis Mehefin 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y canllawiau a'r wybodaeth newydd ar wella ysgolion a'r fframwaith newydd ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd. Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, awdurdodau lleol, awdurdodau esgobaethol, consortia rhanbarthol ac Estyn, ac yn amlinellu'r disgywiliadau ar bob un wrth gyfrannu at welliant cynaliadwy mewn ysgolion. Bwriad y fframwaith yw gyrru'r ymddygiadau a'r arferion sy'n ofynnol gan y Cwricwlwm i Gymru a'r trefniadau asesu newydd.

Ers mis Mawrth 2020, yn ddi-os, mae Covid-19 wedi effeithio ar allu a chynhwysedd ysgolion i fynd i'r afael â'r daith ddiwygio. Wrth i ysgolion roi blaenoriaeth i ymateb i'r pandemig, amharwyd ar y rhan fwyaf o'u hamserlenni a'u cynlluniau gwreiddiol i baratoi ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd. Mae Covid-19 yn parhau i fod yn her wrth i achosion godi a gostwng ac arweinwyr yn delio gydag absenoldebau staff a phrinder athrawon llanw.

PWRPAS YR ADRODDIAD

Mae'r adroddiad hwn yn ddilyniant i'r adroddiad cynnydd blaenorol yn Nhyrnor yr Hydref 2021 a oedd yn ystyried ymateb ysgolion i waith Cwricwlwm i Gymru yn sgil yr agenda adnewyddu a diwygio yn ystod pandemig parhaus Covid-19. Mae'r adroddiad yn amlinellu ble mae ysgolion ac UCD arni ar hyn o bryd wrth iddynt barhau i baratoi at



Tud. 50



y Cwricwlwm i Gymru, ac mae'n seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd gan Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant GwE wrth iddynt gefnogi ysgolion yn ystod tymor y Gwanwyn a'r Haf, 2022.

Cytunwyd ar yr agweddau yn y rhestr a ganlyn gyda Llywodraeth Cymru a'r rhanbarthau/partneriaethau fel y prosesau sydd angen i ysgolion a lleoliadau addysg eu cwblhau er mwyn bod yn barod i wireddu'r cwricwlwm ym mis Medi 2022. Mae'r agweddau hyn yn cyd-fynd yn union â'r camau a amlinellir yn y ddogfen 'Y Daith i weithredu'r Cwricwlwm'. Mae pob rhanbarth/partneriaeth wedi cyfrannu at y darlun cenedlaethol cyffredinol a rannwyd â'r Gweinidog Addysg a'r Gymraeg. Cofnodwyd cynnydd ar gyfer:

- Adnabod ffactorau unigryw yr ysgol a sut mae'r rhain yn cyfrannu at y pedwar diben
- Adolygu'r weledigaeth, y gwerthoedd a'r ymddygiadau i gefnogi gwireddu'r cwricwlwm.
- Dealltwriaeth o ystyriaethau dylunio cwricwlwm gan gynnwys elfennau mandadol a pholisi ieithyddol yr ysgol
- Adolygu modelau dylunio'r cwricwlwm ac ymchwilio i'w haddasrwydd i'r ysgol
- Ystyried rôl cynnydd, asesu ac addysgeg yn y cwricwlwm/cyd-destun lleol.
- Dylunio, cynllunio a pheilotu'r modelau cwricwlwm arfaethedig, gwerthuso'r dyluniadau cychwynnol a datblygu cynlluniau ar gyfer y tymor canolig

Yn ystod Tymhorau'r Gwanwyn a'r Haf 2022, mae pob Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant wedi ymweld ag ysgolion ac UCD i ganolbwyntio ar y Cwricwlwm i Gymru. Mae Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant wedi gweithio ochr yn ochr ag arweinwyr ysgolion i gyd-lunio trosolwg a chofnodi'r cynnydd y mae'r ysgol wedi'i wneud wrth baratoi am y cwricwlwm newydd. Gweler copi o'r templed yn Atodiad 1. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r wybodaeth a gasglwyd o'r ymweliadau hyn ar lefel ranbarthol.

Mae'r adroddiad hefyd yn crynhoi **Cynnig Dysgu Proffesiynol a chymorth GwE i ysgolion**.

Isod, ceir crynodeb o'r meysydd i'w datblygu a'u cefnogi ymhellach a'r blaenoriaethau ranbarthol lefel uchel:

MEYSYDD SYDD ANGEN EU DATBLYGU A'U CEFNOGI YMHELLACH

Mae ysgolion ar draws pob sector wedi nodi'r angen am ragor o gymorth yn y meysydd canlynol er mwyn datblygu:

- Datblygu ymhellach dealltwriaeth gyffredin o gynnydd - o fewn yr ysgol a rhwng ysgolion;
- Mireinio a gwella prosesau asesu a systemau tracio asesu i sicrhau cynnydd pob dysgwr.
- Parhau i ddatblygu y deuddeg egwyddor addysgegol a gwella ansawdd yr agweddau ar ddysgu ac addysgu a nodwyd o fewn ysgolion unigol;
- Cefnogi arweinwyr ymhellach i gynllunio ar gyfer sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol ar lefel ysgol gyfan strategol;
- Cefnogi arweinwyr canol ymhellach i gynllunio sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol yn y dosbarth;
- Yn unol â disgygliadau'r fframwaith newydd ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd:
 - datblygu trefn effeithiol i arfarnu prosesau cwricwlwm gan gynnwys llais y disgybl a'r rhiant;
 - mireinio cynlluniau cwricwlwm hirdymor;
 - parhau i ddatblygu cydweithio ac adolygu gan gymheiriaid drwy'r Rhaglen Partneriaeth Ysgolion (SPP);
- Parhau i ddatblygu dyluniad y cwricwlwm gyda chymorth penodol i arweinwyr ac arweinwyr canol ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad, y sgiliau cyfannol a'r themâu trawsbynciol;
- Datblygu ymhellach y flaenoriaeth llesiant ysgol gyfan - gan gynnwys datblygu a gwerthuso'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles;
- Cryfhau ymhellach y gwaith pontio gyda phwyslais neilltuol ar Flynyddoedd 6 i 7 drwy gydweithio cryf a thrafodaeth broffesiynol rhwng ysgolion uwchradd a'u hysgolion cynradd lleol;
- Darparu cymorth penodol i ysgolion a lleoliadau uwchradd, ble mae angen, i ddechrau'r Cwricwlwm i Gymru gyda Blynyddoedd 7 a 8 ym mis Medi 2023;
- Parhau i weithio gydag Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant i hwyluso trafodaethau clwstwr a chynghrair, rhannu arferion arloesol a datblygol a chefnogi dysgu proffesiynol staff drwy ddyddiau HMS (hyfforddiant).



Tud. 51



BLAENORIAETHAU RHANBARTHOL A NODWYD

Mae'r canllawiau y cyfeirir atynt uchod ar gyfer gwella ysgolion a'r fframwaith newydd ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd yn nodi'r blaenoriaethau cenedlaethol hyn:

- gwella cynnydd disgyblion drwy sicrhau bod amrywiaeth o wybodaeth, sgiliau a phrofiad yn ategu'r dysgu;
- lleihau effaith tlodi ar gynnydd a chyrhaeddiad disgyblion.

Nodwyd y blaenoriaethau rhanbarthol lefel uchel hyn yn ein Cynllun Busnes rhanbarthol:

- **Cwricwlwm ac Asesu** - Cefnogi cwricwlwm cenedlaethol ble mae tegwch a rhagoriaeth yn ganolog ac sydd yn gosod safonau uchel i bob dysgwr.
- **Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel** - gwella'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion
- **Arweinyddiaeth** - cefnogi arweinwyr ysbrydoledig i gydweithio i godi safonau. Cynnwys darpar arweinwyr a rhwydweithiau proffesiynol
- **Ysgolion cryf a chynhwysol** - yn ymroi i ragoriaeth, tegwch a llesiant
- **Cefnogi system sy'n hunan wella** - cefnogi system ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y gallu a'r cynhwysedd i ddysgu a gwella eu harferion yn gyson
- **Busnes** - sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian

Mae'r gwaith a wnaethpwyd yn ystod Tymor yr Haf, fel y crybwyllwyd yn flaenorol ym mhwrpas yr adroddiad hwn, hefyd wedi adnabod y blaenoriaethau hyn:

1. Sicrhau y bydd pob ysgol yn barod i gyflwyno'r cwricwlwm i fodloni gofynion mandadol a statudol mewn lleoliadau Meithrin hyd at Flwyddyn 6, a'r ysgolion a'r lleoliadau uwchradd hynny sydd wedi dewis ei gyflwyno ym mis Medi 2022.

Cefnogir hyn trwy:

- Hwyluso a chysoni gwaith o fewn y rhwydweithiau rhanbarthol a lleol, cynghreiriau a chlystyrau i rannu arweiniad pendant ar ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm drwy foddelu ac enghreifftio arferion cwricwlwm o fewn ac ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad;
 - Datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd drwy drafodaeth broffesiynol bwrpasol;
 - Datblygu amrywiaeth o weithdrefnau asesu effeithiol i gynnwys asesu ar gyfer dysgu i sicrhau cynnydd yn y dysgu i bob dysgwr;
 - Cydweithio gydag ysgolion a lleoliadau i ddatblygu prosesau cadarn i werthuso'r Cwricwlwm i Gymru yn unol â mesurau hollataidd o'r pedwar diben;
 - Hyrwyddo pontio i ddysgwyr drwy sicrhau cyswllt uniongyrchol effeithiol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd;
 - Gweithio ar y cyd ag arweinwyr i sicrhau bod gan bob lleoliad gynllun pendant ar gyfer dysgu proffesiynol effeithiol gan roi ystyriaeth i'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol sydd ar y gweill ac a gyhoeddir fis Medi gan Lywodraeth Cymru.
2. Gweithredu prosesau sy'n rhoi sylw i ysgolion sy'n destun pryder a gweithio gydag Awdurdodau Lleol i sicrhau bod ysgolion yn cael eu cefnogi a'u herio'n briodol er mwyn gwella, yn unol â'r fframwaith newydd ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd.
 3. Cryfhau a gwreiddio ymhellach adolygu gan gymheiriaid, yn enwedig mewn cynghreiriau uwchradd i gryfhau hunan arfarnu a chynllunio gwelliant. Dylai hyn gynnwys pwyslais ar werthuso Cwricwlwm i Gymru.
 4. Parhau i ddarparu cymorth penodol i ysgolion a lleoliadau uwchradd, ble mae angen, i fod yn barod i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ym Mlynnyddoedd 7 a 8 ym mis Medi 2023.

Bydd y blaenoriaethau hyn yn llywio'r cynlluniau busnes rhanbarthol a rhaglen waith GwE ar gyfer Tymor yr Hydref 2022 ymlaen.



Tud. 52



PRIF GANFYDDIADAU

Cofnodwyd y cynnydd gan ysgolion a lleoliadau wrth baratoi i wireddu'r cwricwlwm ar lefel ysgol a lleoliad unigol a'i gasglu yn y tabl isod i ddangos trosolwg rhanbarthol.

Crynodeb GwE	Pob ysgol
Nifer yr ysgolion	404
	Ar drac.
1. Adnabod ffactorau unigryw yr ysgol/lleoliad a sut all y rhain gyfrannu at y pedwar diben.	99.5%
2. Adolygu'r weledigaeth, y gwerthoedd a'r ymddygiadau i gefnogi gwireddu'r cwricwlwm.	98.9%
3. Dealltwriaeth o ystyriaethau dylunio cwricwlwm gan gynnwys elfennau mandadol a pholisi ieithyddol ysgol.	98.6%
4. Adolygu modelau dylunio cwricwlwm ac ymchwilio i'w haddasrwydd ar gyfer eu hysgol/lleoliad penodol.	97.0%
5. Ystyried rôl cynnydd, asesu ac addysgeg yn eu cwricwlwm/cyd-destun lleol.	94.0%
6. Dylunio, cynllunio a threalu eu model cwricwlwm arfaethedig, gan werthuso dyluniadau cychwynnol a datblygu cynlluniau tymor canolig.	93.0%

SECTORAU CYNRADD AC ARBENNIG GAN GYNNWYS UCD

Ym mis Medi 2022, cyflwynir y Cwricwlwm i Gymru newydd ym mhob lleoliad o oed Meithrin hyd at Flwyddyn 6.

● Adnabod ffactorau unigryw yr ysgol a sut mae'r rhain yn cyfrannu at y pedwar diben

Mae bron pob ysgol wedi ymgynghori mewn ffordd ystyrlon a chadarn gyda'u rhanddeiliaid lleol gan gynnwys plant, rhieni, llywodraethwyr ac aelodau'r gymdeithas leol. Yn rhan o'r ymgynghoriad hwn, mae ysgolion wedi cyd-lunio'r ffactorau sy'n gwneud eu hysgol yn unigryw ac mae'r ffactorau hyn wedi siapio gwaith dylunio cwricwlwm yr ysgol. Mae llawer o ysgolion wedi datblygu ystod o ddulliau ymgysylltu i gasglu'r wybodaeth hon, yn aml drwy holiaduron neu ofyn am farn drwy'r gwefannau cymdeithasol. Mae enghreifftiau hefyd ble mae ysgolion wedi gwahodd pobl i siarad a defnyddio dulliau digidol i recordio barn trigolion lleol. O ganlyniad, mae dyluniad cwricwlwm cychwynnol bron pob ysgol yn dangos ei bod yn ymateb i'w ffactorau lleol unigryw.

Bu'r pedwar diben yn ffocws allweddol y mae ysgolion wedi datblygu arnynt dros amser gyda mwy o ystyriaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae bron pob ysgol wedi cynnwys dysgwyr yn y trafodaethau hyn i ddeall beth mae'r rhain yn ei olygu i'r ysgol ac ystyried iaith sy'n ddealladwy i'r plant. Mae llawer o ysgolion wedi creu cymeriadau fel y gall disgyblion gyfeirio atynt ac uniaethu â'r agweddau o fewn y dibenion. Ar draws ysgolion arbennig, mae'r pedwar diben wedi'u cysylltu â Chynlluniau Datblygu Unigol (CDU) ac wrth adrodd i rieni. Mae'r gwaith a wnaed yn yr UCD hefyd wedi canolbwyntio ar y pedwar diben a gyda phwyslais neilltuol ar ddatblygu sgiliau bywyd. O ganlyniad, mae gan yr ysgol fwy o berchnogaeth ar y pedwar diben ac wrth ddeall y pedwar diben hyn yn unigol, mae gwell dealltwriaeth o'r pedwar diben yn eu cyfanrwydd. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn arddangos y pedwar diben yn weledol yn eu dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol, ac mae bron i bob athro yn adnabod cyfleoedd i'r pedwar diben yn eu gwaith cynllunio ac wedi'u plethu wrth ddylunio'r cwricwlwm ar lefel addas i blant ddeall. Mewn ysgolion arbennig, mae'r athrawon yn cynllunio profiadau dysgu ystyrlon a pherthnasol yn seiliedig ar y pedwar diben ac yn cydnabod anghenion unigol dysgwyr ar yr un pryd. Drwy'r holl waith uchod i ddod i ddeall y pedwar diben, mae cyswllt clir rhwng ffactorau unigryw yr ysgol a dyheadau'r rhanddeiliaid.

● Adolygu'r weledigaeth, y gwerthoedd a'r ymddygiadau i gefnogi gwireddu'r cwricwlwm.

Roedd bron i bob ysgol ar draws y rhanbarth yn bresennol ac yn rhan o'r gweithdai ar hyrwyddo newid a rhoi



Tud. 53



canllawiau ar adolygu a datblygu gweledigaeth gyffredin ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Yn ôl trafodaethau ag arweinwyr ysgolion ac Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant, mae bron pob ysgol wedi defnyddio'r canllawiau hyn fel man cychwyn i'w prosesau adolygu ac ymgynghori nhw'u hunain.

Y cam cyntaf i bron bob ysgol oedd casglu gwybodaeth gan yr holl randdeiliaid ynghylch yn union pa werthoedd ac ymddygiad yr hoffent weld yr ysgol yn eu datblygu, drwy naill ai gyfarfod wyneb yn wyneb â rhanddeiliaid, neu gan ddefnyddio holiaduron. Roedd llawer o ysgolion yn gallu tynnu'r geiriau pwysig o'r ymatebion a chreu wal eiriau o'r rhain sydd yn nodi'r gwerthoedd a'r dyheadau hyn.

Ar ddiwedd mis Gorffennaf 2022, roedd bron pob ysgol naill ai wedi addasu eu gweledigaeth flaenorol neu wedi llunio gweledigaeth newydd ar gyfer lansio'r Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2022. Datblygwyd y gweledigaethau hyn drwy ymgynghori'n uniongyrchol â'r holl randdeiliaid ac ystyried y cyd-destun a'r dyheadau lleol. Mae'r pedwar diben yn amlwg yn y gweledigaethau ac yn rhoi nod i holl waith yr ysgol. Mae llawer o ysgolion wedi troi'r weledigaeth yn arwyddair bachog a defnyddio hyn i egluro eu gweledigaeth yn lleol. Mae rhai wedi gwahodd artistiaid lleol i weithio gyda'r disgyblion i ddehongli eu syniadau a'u dyheadau ar ffurf murlun neu gân ysgol. Gyda'r gwaith hwn i ddatblygu gweledigaeth ysgol, cyrhaeddwyd dealltwriaeth gyffredin o ddyheadau'r ysgol ar draws y gymuned ac mae'r rhan fwyaf o ysgolion bellach wedi hyrwyddo a dathlu eu gweledigaeth newydd gyda balchder, ar wefannau ysgol er enghraifft.

● Dealltwriaeth o ystyriaethau dylunio cwricwlwm gan gynnwys elfennau mandadol a pholisi ieithyddol yr ysgol

Sefydlwyd isadeiledd ar draws y rhanbarth gan rwydweithiau lleol a rhanbarthol Cwricwlwm i Gymru, a hynny er mwyn galluogi arweinwyr ac athrawon ysgol i fynd ati i gynnal trafodaethau proffesiynol am ystyriaethau dylunio'r cwricwlwm. Gwelwyd nifer cynyddol o ymarferwyr yn ymwneud â'r rhwydweithiau hyn drwy gydol y flwyddyn, a bellach mae 804 o ymarferwyr yn aelodau ar draws y rhwydweithiau rhanbarthol a lleol. Mae cynrychiolaeth dda ar draws pob Awdurdod Lleol ac mae'r aelodau hefyd yn cynnwys cydweithwyr o GwE, Awdurdodau Lleol a staff CABAN Prifysgol Bangor, er enghraifft, bydd Ymgynghorwyr Ysgol Iach yr Awdurdod Lleol yn mynd i'r rhwydweithiau Iechyd a Lles yn eu Hawdurdod Lleol nhw. Mae'r Athro Graham Donaldson yn parhau i fynychu cyfarfodydd rhanbarthol i gynnig arweiniad a sylwadau ar drafodaethau a chynnig rhagor o bwyntiau i'w hystyried er mwyn symud ymlaen.

Mae'r rhwydweithiau Cwricwlwm i Gymru wedi canolbwyntio ar bob agwedd ar ddylunio'r cwricwlwm sydd wedi cynnwys arbrofi â chynllunio'r cwricwlwm a threialu ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad. Mae nifer cynyddol o ysgolion ar draws pob sector wedi rhannu eu harferion ac wedi adnabod egwyddorion y broses a fu'n allweddol i'w lleoliad, er enghraifft ysgol gynradd yn cyflwyno ei gwaith ar ddylunio'r cwricwlwm, ysgol arbennig yn cyflwyno ei gwaith ar Iechyd a Lles, ysgolion uwchradd yn cyflwyno eu gwaith ar ddatblygu a chynllunio ar gyfer cynnydd yn y sgiliau trawsgwricwlaidd. Rhannwyd gwaith y rhwydweithiau yn ehangach â phob ysgol drwy wefan GwE a thrafodaethau ag Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant. Rhannwyd gwaith y rhwydweithiau hefyd drwy gyfres o weminarau Dysgu Proffesiynol ar-lein ar gyfer Uwch Arweinwyr ac Arweinwyr Canol ac athrawon. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion a chlystyrau wedi defnyddio arweiniad y rhwydwaith a'r gweminarau i helpu gyda'u trafodaethau ar ddylunio'r cwricwlwm. Mae'r drafodaeth hon, yn aml gyda disgyblion a llywodraethwyr, wedi arwain at berchnogi'r dylunio. Er enghraifft, rhoddwyd ystyriaeth fanwl i fodolau dysgu gwahanol a gwnaed gwaith ymchwil mewn llawer o ysgolion i sicrhau bod eu polisi iaith yn cael ystyriaeth. Mae bron pob ysgol wedi sicrhau bod hyrwyddo'r Gymraeg, diwylliant a threftadaeth Cymru wedi'i blethu'n glir yn nyluniad y cwricwlwm.

Gwnaed gwaith i ystyried elfennau mandadol y cwricwlwm yn ystod y tymor diwethaf ac mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi ystyried yr elfennau hyn wrth ddylunio, gan gymryd gofal i'w plethu er mwyn sicrhau cyd-destunau dilys. Mae bron pob ysgol wedi cwblhau dogfen dylunio cwricwlwm lefel uchel ar ffurf ddrafft gyda'r holl staff yn ei pherchnogi a'r llywodraethwyr wedi'i derbyn yn y rhan fwyaf o ysgolion, yn barod i'w chyhoeddi ddechrau mis Medi. Mae'r dylunio cwricwlwm lefel uchel hwn yn grynoded o'r cwricwlwm a gweler gwefannau llawer o ysgolion bellach yn dathlu eu gweledigaeth, cyfeiriad y pedwar diben a'u dulliau arloesol ar gyfer profiadau dysgu cyfoethog o fis Medi ymlaen.

● Adolygu modelau dylunio'r cwricwlwm ac ymchwilio i'w haddasrwydd i'r ysgol

Mae bron pob ysgol wedi adolygu eu modelau dylunio cwricwlwm yn sgil y gwaith ar osod gweledigaeth a chyfeiriad



Tud. 54



i'r ysgol. Ar ôl dod i ddeall elfennau dylunio eu cwricwlwm drwy weithdai GwE a'u gwaith ymchwil eu hunain, bu'r rhan fwyaf o ysgolion yn trafod ac yn ystyried gwahanol fodelau cwricwlwm.

Yn rhan o'r gwaith hwn, rhoddodd bron bob ysgol sylw i amrywiaeth o fodelau dysgu a daw'n amlwg, yn gyffredinol, mai dulliau integredig a rhyng-ddisgyblaethol yw prif yrwyr y dysgu mewn ysgolion cynradd. Er hynny, cydnabu lawer o ysgolion yr angen i ddysgu mewn ffordd ddisgyblaethol ar adegau, er enghraifft, i ddatblygu sgiliau rhifedd.

Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi arbrofi â phlethu themâu trawsgwricwlaidd ac ymateb i'r cwestiynau mawr dros y flwyddyn. O'r sylwadau a gafwyd wrth dreialu, awgrymir mai dyma'r model y bydd y rhan fwyaf o ysgolion yn ei ddefnyddio ym mis Medi. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi cynllunio ar gyfer cyfuniad o themâu ysgol gyfan a grwpiau blwyddyn sydd yn rhoi rhwydd hynt i athrawon sicrhau cynnydd ar draws yr ysgol gyfan o ddilyn dull gweithredu thema ysgol gyfan. Mae bron pob ysgol hefyd wedi cynllunio ar gyfer cynnwys unedau gwaith mwy byr dymor, er enghraifft, dyddiau dathlu, cyfleoedd lleol yn y gymuned i sicrhau dysgu gwreiddiol.

Mae llawer o ysgolion yn arbrofi gydag amrywiol fformatau cynllunio tymor canolig, ac fel arfer mae'r rhain yn gyfle i adnabod ble mae'r thema yn cyffwrdd â'r pedwar diben ond hefyd yn adnabod y cyfleoedd i fod yn datblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd. Mae llawer o ysgolion yn rhannu'r dulliau cynllunio hyn â'i gilydd gyda'r rhan fwyaf yn parhau i'w mireinio i'w gwneud yn fwy hylaw a phwrpasol.

Er mwyn dod i ddeall yn well gofynion y cwricwlwm, gwelwyd bron pob ysgol yn mynd drwy'r broses o ddadbacio'r Meysydd Dysgu a Phrofiad. Ym mwyafrif yr ysgolion, bu'r holl staff yn rhan o'r broses hon sydd wedi arwain at ddealltwriaeth lawer ddyfnach o'r gofynion yn ogystal â chyfle i drafod sut i blethu'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad a nodwyd mewn Maes Dysgu a Phrofiad mewn cyd-destunau dilys ac ystyrlon. Mewn llawer o achosion, mae ysgolion wedi cydweithio'n effeithiol ag ysgolion cyfagos i ddadbacio'r Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig o fewn y cwricwlwm, ac wedi rhannu arbenigedd a gwybodaeth bynciol gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau i greu perchnogaeth a thimau cydweithredol ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad, er enghraifft, rhannu dogfennau ar-lein a safleoedd Google.

● Ystyried rôl cynnydd, asesu ac addysgeg yn y cwricwlwm/cyd-destun lleol.

Mae bron pob ysgol wedi blaenoriaethu amser i ganolbwyntio ar y deuddeg egwyddor addysgegol, er enghraifft, cyfarfodydd staff, cyfarfodydd clwstwr a dyddiau hyfforddi staff. Mae bron pob ysgol wedi dechrau treialu amrywiol ddulliau o gymhwyso'r egwyddorion yn eu cynlluniau cwricwlwm, gan ddefnyddio adnodd myfyrio y deuddeg egwyddor addysgegol gan GwE fel man cychwyn i weld ble mae cryfderau'r ysgol a pha feysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Mae'r egwyddorion addysgegol wedi treiddio i'r cynllunio ar gyfer tasgau cyfoethog mewn llawer o ysgolion gyda sylw o'r newydd yn cael ei roi i gyd-destunau gwreiddiol, tasgau tu allan a phrosiectau creadigol cyffrous.

Gweler llawer o ysgolion yn parhau hefyd i ddatblygu agweddau ar Asesu ar gyfer Dysgu (AagD) sydd yn nodwedd gref o'r deuddeg egwyddor addysgegol ac hefyd yn rhan o'r dulliau a rannwyd ac a dreialwyd o fewn y prosiect gyda Shirley Clarke. Mae bron pob ysgol wedi mabwysiadu'r dulliau dysgu hyn a'u defnyddio i sicrhau y gall disgyblion weithio'n fwy annibynnol a bod y camau nesaf yn y dysgu yn cael eu hadnabod. Bydd y dulliau asesu hyn hefyd yn cryfhau gwybodaeth athrawon o gynnydd pob plentyn.

Ar y cyfan, bwriad y rhan fwyaf o ysgolion yw asesu drwy gychwyn yn y dosbarth efo gwaith disgyblion o ddydd i ddydd. Bydd athrawon yn cadw golwg ar gynnydd ac yn aml yn marcio camau mewn datblygiad. Bwriada'r rhan fwyaf o ysgolion hefyd barhau i ddefnyddio'r asesiadau cenedlaethol a'r profion safonedig i fonitro safonau darllen a rhifedd. Bwriad y rhan fwyaf o ysgolion hefyd yw asesu a thracio lles plant yn ogystal â'u hagwedd at eu gwaith. Mae rhai ysgolion yn ystyried prynu pecyn masnachol ar gyfer hyn, tra bod eraill eisiau treialu adnodd tracio GwE a llawer am fabwysiadu neu ddatblygu eu dulliau eu hunain.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion a chlystyrau yn defnyddio'r canllawiau statudol ar Hwb ac enghreifftiau a chanllawiau pellach gan GwE i ystyried pwrpas asesu ac maent wrthi'n cynllunio cyfleoedd i drafod yn broffesiynol yn rheolaidd i athrawon gael ystyried asesu a chynnydd dysgwyr. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, gwelwyd bod datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd yn agwedd i'w datblygu ymhellach flwyddyn nesaf.



Tud. 55



● Dylunio, cynllunio a pheilotat'r modelau cwricwlwm arfaethedig, gwerthuso'r dyluniadau cychwynnol a datblygu cynlluniau ar gyfer y tymor canolig

Bu cydweithio yn elfen graidd i ysgolion er mwyn dylunio a symud ymlaen i gynllunio'r cwricwlwm ac felly mae llawer o enghreifftiau i'w gweld o gydweithio datblygedig a chynnar ar draws ysgolion ac ar draws clwstyrau.

Mae'r athrawon sy'n aelodau o rwydweithiau Cwricwlwm i Gymru wedi bod yn cydweithio ar feysydd penodol ac wedi rhannu'u gwaith ar draws rhwydweithiau eraill. Mae ysgolion eraill hefyd wedi elwa o'r gwaith hwn gan fod athrawon ar y rhwydweithiau wedi rhannu gwybodaeth a syniadau yn ystod cyfarfodydd lleol a sesiynau clwstwr.

Yn ystod y cyfnod peilot hwn o gynllunio, bu llais y dysgwyr yn amlwg yn y rhan fwyaf o ysgolion gydag amrywiaeth o enghreifftiau yn dangos sut mae dysgwyr yn dylanwadu ac yn gwneud penderfyniadau am eu dysgu. Mae llawer o ysgolion hefyd wedi gofyn am farn neu syniadau rhieni a'r rhanddeiliaid eraill ynghylch thema benodol. O dderbyn y syniadau hyn a'u plethu yn y cynlluniau, mae mwy o berchnogaeth ar y cynlluniau, mwy o gyfle i'r gymuned leol fod yn rhan a mwy o frwdfrydedd am y themâu.

Erbyn diwedd tymor yr Haf 2022, mae bron pob ysgol wedi trafod a phenderfynu ar dulliau cynllunio tymor canol at fis Medi. Cydnabyddir ei bod hi'n ddyddiau cynnar ac y bydd angen parhau i gadw golwg ar y cwricwlwm i fireinio'r cynllunio wrth i ni symud ymlaen. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion hefyd yn cydnabod bod y cynlluniau presennol yn canolbwyntio ar y tymor canolig fwyaf ac maent yn bwriadu adolygu eu cynllunio at ddiwedd tymor yr Hydref i fywdo i ystyriaethau cynllunio tymor hwy.

SECTORAU UWCHRADD AC ARBENNIG GAN GYNNWYS UCD PERTHNASOL

Ym mis Medi 2022, cyflwynir y Cwricwlwm i Gymru ym mhob lleoliad o'r Meithrin hyd at Flwyddyn 6. Rhoddwyd y dewis i ysgolion a lleoliadau sydd yn addysgu Blwyddyn 7 y cyfle i ddewis dechrau cyflwyno'r cwricwlwm newydd i Flwyddyn 7 ym mis Medi 2022. Mae deuddeg lleoliad ar draws GwE wedi dewis cyflwyno ym mis Medi 2022. Bydd pob lleoliad uwchradd, arbennig ac UCD arall yn dechrau cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ym Mlynnyddoedd 7 a 8 ym mis Medi 2023.

● Adnabod ffactorau unigryw yr ysgol a sut mae'r rhain yn cyfrannu at y pedwar diben

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi cynnal gwaith i ddeall y ffactorau unigryw o ran lleoliad a chyd-destun yr ysgol ac wedi ystyried darpariaeth arbenigol yn rhan o gymuned yr ysgol. Yn rhan o'r gwaith hwn, mae ysgolion wedi cynnal lluo o weithgareddau i gynnwys rhanddeiliaid gan gynnwys dysgwyr, rhieni a llywodraethwyr. Mae llawer o ysgolion wedi cynnal sesiynau i staff ystyried 'cynefin' a'r pwyslais ar ddatblygu hunaniaeth dysgwyr gan wneud cysylltiadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn nyfnder y dysgu. Adnabuwyd cysylltiadau cydweithredol â diwydiannau lleol a chyfleoedd o fewn cwricwlwm lleol ac yn arbennig ble gall darpariaeth gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith gefnogi llwybrau dysgwyr.

Mae bron pob ysgol uwchradd wedi datblygu partneriaeth waith gref â'r clwstwr o ysgolion cynradd lleol. Bu hyn yn allweddol wrth ystyried datblygiadau lleol Cwricwlwm i Gymru ar draws y continwmm dysgu 3 i 16.

Gwelwyd y rhan fwyaf o ysgolion yn ail-ymweld â'r pedwar diben gyda staff, dysgwyr a rhanddeiliaid ehangach i ymateb i effaith y pandemig ar ysgolion a theuluoedd. Yn rhan o hyn, mae'r ymgynghoriadau â rhanddeiliaid wedi canolbwyntio ar sut all y pedwar diben gyfrannu at weledigaeth yr ysgol o fewn ei chymuned leol. Mae rhagor o enghreifftiau i ddeall y pedwar diben yn cynnwys cyfleoedd i ddysgwyr hyn werthuso'r ddarpariaeth yn erbyn y pedwar diben ar draws yr ysgol a'u hystyried yn erbyn system fugeiliol yr ysgol, a hynny fel eitem gyson ar agenda cyfarfodydd staff. Cafodd ysgolion arbennig ac UCD y cyfle i ystyried beth mae'r pedwar diben yn ei olygu i ddysgwyr yn eu lleoliadau a defnyddiwyd hyn fel sylfaen i ail-lunio eu gweledigaeth, ail-frandio a rhannu hyn drwy'r cyfryngau cymdeithasol, er enghraifft, gwefan.

● Adolygu'r weledigaeth, y gwerthoedd a'r ymddygiadau i gefnogi gwireddu'r cwricwlwm.

Mae bron pob ysgol wedi ymgynghori â rhanddeiliaid fel y gallant gyfrannu at ddatblygu gweledigaeth yn seiliedig ar



Tud. 56



werthoedd ac ymddygiad yr ysgol. Ceir amrywiaeth o ddulliau yn cynnwys holiaduron ac arolygon ar gyfer dysgwyr, rhieni a llywodraethwyr gyda sesiynau hyfforddiant undydd fel bod modd trafod â staff. Ceir llawer o enghreifftiau ar draws y rhanbarth ble mae ysgolion uwchradd a'u hysgolion cynradd lleol wedi sefydlu trafodaeth reolaidd ar ddatblygu elfennau cyffredin o fewn eu gweledigaeth ar sail y pedwar diben.

Mae ysgolion hefyd wedi defnyddio'r weledigaeth hon, yn seiliedig ar y pedwar diben, i ymgorffori dull gweithredu'r ysgol gyda gwahaniaethu, ac hefyd rhoi pwyslais cryf ar ddyhead, her a lles. O fewn y dulliau ar gyfer datblygu gweledigaeth ysgol, gofynnodd rai ysgolion i staff ystyried y weledigaeth a chyfraniad y Maes Dysgu a Phrofiad at weledigaeth drosfwaol yr ysgol a gellir gweld arddangosiadau gwledol o'r weledigaeth o gwmpas yr ysgol.

O ran yr ysgolion hynny sydd yn mabwysiadu'r Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2022, maent wedi rhannu eu gweledigaeth am y cwricwlwm newydd â dysgwyr Blwyddyn 6 a rhieni yn rhan o'r broses bontio.

Mae'r ysgolion sydd yn mabwysiadu Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2023 yn cydnabod yr angen i barhau i weithio gyda'r holl randdeiliaid i greu a gweithredu gweledigaeth yr ysgol ac yn rhan o ail-ymweld â'r cam hwn. Yn ôl yr adborth ar draws y rhanbarth, mae ysgolion wrthi'n datblygu gweledigaeth gref ar gyfer dysgu ac addysgu sydd yn cynnwys y "beth" a'r "pam" gyda rhagor o waith angen ei wneud ar y "sut".

● Dealltwriaeth o ystyriaethau dylunio cwricwlwm gan gynnwys elfennau mandadol a pholisi ieithyddol yr ysgol

Cafodd bron bob ysgol a lleoliad y cyfle i fanteisio ar weminarau GwE ar ddylunio'r cwricwlwm, egwyddorion cynllunio a sesiynau i edrych ar Feysydd Dysgu a Phrofiad penodol. Gwnaed hyn drwy ddefnyddio recordiadau, trafodaethau dilynol ag Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant a sesiynau hyfforddiant penodol i staff yn ystod amser HMS. Mae llawer o ysgolion uwchradd hefyd wedi defnyddio'r deunyddiau o'r rhwydweithiau Cwricwlwm i Gymru i gefnogi staff i gyfoethogi sgwrs broffesiynol a datblygu eu dealltwriaeth o fframwaith Cwricwlwm i Gymru, er enghraifft, canllawiau ar ddadbacio'r Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig. Mae'r rhwydweithiau presennol fel Dirprwy Benaethiaid ac Arweinwyr Dysgu ac Addysgu a rhai Cyngheiriau wedi defnyddio eu hamser cyfarfod i drafod ymhellach a rhannu eu gwaith a'u dulliau. O ganlyniad, mae llawer o ysgolion cynradd yn datblygu eu dealltwriaeth o ystyriaethau dylunio'r cwricwlwm â holl staff yr ysgol.

Mae pob ysgol yn rhoi ystyriaeth lawn i'r elfennau mandadol wrth ddylunio eu cwricwlwm. Darparwyd canllawiau a sesiynau dysgu proffesiynol ar agweddau fel Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, ac mae'r rhain yn cefnogi cydlynwyr mewn ysgolion i ystyried y goblygiadau a sut i ddechrau datblygu a dylunio dull ysgol gyfan i gyd-fynd â gweledigaeth yr ysgol.

Mae dealltwriaeth eang a chynyddol o bwysigrwydd y sgiliau trawsgwricwlaidd ar bob lefel o gynllunio. Mae cydlynwyr yn dechrau mapio'r ddarpariaeth ar draws yr ysgol a sicrhau ansawdd y ddarpariaeth honno drwy gefnogi gwaith cynllunio pob Maes Dysgu a Phrofiad. Dengys llawer o ysgolion barodrwydd i weithio ar ddatblygu hyn ymhellach a gwelant fod datblygu dull gweithredu strategol ysgol gyfan i sicrhau cynnydd mewn llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn faes sydd i gael blaenoriaeth yn y flwyddyn academaidd newydd. Yn rhan o hyn, cydnabuwyd yr ystyriaeth i greu amser a lle i gydlynwyr wneud y gwaith hwn.

Gwelwyd llawer o ysgolion yn datblygu dealltwriaeth dda o'u cyd-destun Cymraeg ac mae arddangosiadau gwledol o gwmpas yr ysgol yn dathlu diwylliant ac etifeddiaeth Cymru gyda gwaith ar "Ein Llais Ni" yn flaenoriaeth ysgol gyfan. Mewn rhai ysgolion, mae pwyslais ar edrych yn fanylach ar gyfleoedd i ddefnyddio mwy ar Gymraeg achlysurol o gwmpas yr ysgol a sut mae'n ymwneud â'r gymuned.

● Adolygu modelau dylunio'r cwricwlwm ac ymchwilio i'w haddasrwydd i'r ysgol

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi defnyddio adnoddau GwE i ymgynghori ag Arweinwyr Canol ac athrawon. O ganlyniad, ystyriwyd amrywiaeth o fodolau dylunio'r cwricwlwm. Mae ysgolion wedi treialu ystod o wahanol ddulliau yn rhan o'r ystyriaethau hyn, a rhoddir enghreifftiau isod:

- Gwelwyd rhai ysgolion yn cyflwyno'r pedwar prif fodel dylunio'r cwricwlwm i staff ac yn trafod sut y gellid eu cynnwys yn eu gwaith cynllunio. Wedyn, bu'r pynciau yn gweithio gyda'i gilydd fel Maes Dysgu a Phrofiad i



Tud. 57



gynllunio prosiect i Flwyddyn 7;

- Mae rhai ysgolion yn edrych ar Feysydd Dysgu a Phrofiad (MDaPh) Celf Mynegiannol, Iechyd a Lles a'r Dyniaethau fel pynciau aml a rhyngddisgyblaethol wedi'u cyfuno;
- Mewn rhai ysgolion, mae rhai cyfadranau aml-bynciol yn treialu'r dull aml-ddisgyblaethol o fis Medi. Bydd dysgu ar sail thema yn dechrau mewn rhai ysgolion gyda 'Cynefin' yn ffocws, a pharheir gyda chyfres o fwy o themâu drwy gydol y flwyddyn;
- Mae ysgolion eraill yn bwriadu cyflwyno rhai prosiectau rhyng-ddisgyblaethol rhwng Meysydd Dysgu a Phrofiad;
- Mae amryw o ysgolion yn edrych i gyflwyno rhaglenni lles unigryw a mwy o amser yn y maes hwn;
- Addaswyd rhywfaint ar flociau amser y cwricwlwm, er enghraifft, ychydig mwy o oriau ar gyfer Iechyd a Lles a Chelf Mynegiannol a mwy o amser i addysgu'r Gymraeg;
- Awgryma nifer o ysgolion mai model hybrid fydd y cwricwlwm, a fydd yn corffori'r holl fodolau dylunio ar adegau gwahanol a phriodol. Mae enghreifftiau o'r dull hwn yn cynnwys ble cyflwynir Ieithoedd, Mathemateg a Gwyddoniaeth fel pynciau disgyblaethol, neu rhai'n edrych ar ddatblygu STEM i gyflwyno Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Yn rhan o'r gwaith hwn, mae ysgolion yn ystyried yn ofalus y strwythurau staffio presennol a'r gallu o fewn yr ysgol i fod yn newid yr amserlen. Gwelodd ysgolion hefyd yr angen i sicrhau bod cysylltiadau cadarn yn cael eu creu ac nad yw'n fater o wthio pynciau at ei gilydd yn ddiangen. Cydnabyddir hefyd bod angen dilyniant o fewn y cwricwlwm ac edrych ar y dibyniaethau. Disgwyl y mae ysgolion hefyd am fwy o wybodaeth gan Cymwysterau Cymru a CBAC ar y TGAU diwygiedig cyn gwneud cynlluniau ar gyfer Blynyddoedd 9, 10 ac 11.

Mae llawer o ysgolion yn gweithio'n dda gyda chydweithwyr cynradd y clwstwr ac wedi gweld bod hyn yn hynod werthfawr gyda rhannu syniadau yn ymarferol yn dal i lywio'r gwaith cynllunio cwricwlwm ar lefel uchel. Mae llawer o enghreifftiau o feysydd ffocws cyffredin ble mae cydweithwyr cynradd ac uwchradd yn cydweithio arnynt i rannu cynlluniau, a dyddiau clwstwr ar y gweill i edrych ar Feysydd Dysgu a Phrofiad penodol.

Mae dysgu proffesiynol i'r holl staff yn parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth o waith dylunio'r cwricwlwm ymhellach. Gwêl llawer o ysgolion ei bod hi'n ddyddiau cynnar ar hyn ac mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi gweld y bydd y cwricwlwm yn cael ei adolygu dros y flwyddyn academaidd nesaf i sicrhau ei fod yn eang a chytbwys, yn addas i ddysgwyr o wahanol oedranau, galluoedd a thueddfryd ac yn bwysig, yn galluogi pob dysgwr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben o fewn gweledigaeth yr ysgol.

● Ystyried rôl cynnydd, asesu ac addysgeg yn y cwricwlwm/cyd-destun lleol.

Bu datblygu addysgeg yn ffocws allweddol i bron pob ysgol ar draws y rhanbarth gan fod llawer o ysgolion wedi gweld bod newidiadau'r cwricwlwm yn gyfle i fyfyrwyr ar ddulliau a modelau dysgu ac addysgu ar draws yr ysgol. Mae ysgolion wedi adnabod ystod o feysydd ysgol gyfan i gael sylw gan gynnwys arferion adalw, asesu ar gyfer dysgu, a sgiliau cwestiynu. Croesawodd yr ysgolion gyfres o sesiynau gan GwE, yn canolbwyntio ar yr egwyddorion addysgegol, ac mae gwaith dilynol wrthi'n cael ei gwblhau yn yr ysgol. Bu llawer o ysgolion hefyd yn datblygu prosiectau ymholi ymchwil weithredu o gwmpas yr egwyddorion addysgegol i athrawon gael datblygu a rhannu arferion mewn timau. Mae rhan fwyaf yr ysgolion wedi clustnodi amser i staff ysgol gyfan ystyried a datblygu'r deuddeg arfer addysgegol sydd yn parhau i gael sylw mewn dyddiau hyfforddiant.

Agwedd bwysig i lawer o ysgolion fu gweithio gyda chlystyrau cynradd a rhoi sylw i ddysgu ac addysgu, er bod natur y gwaith hwn yn benodol i bob clwstwr. Mae nifer fach o glystyrau cynradd ac uwchradd wedi clustnodi amser penodol i fynd i sesiynau dysgu proffesiynol ar y cyd. O ganlyniad, mae gan y clwstwr ddealltwriaeth gyffredin o addysgeg ar draws y continwrm i fodloni anghenion pob dysgwr. Mewn llawer o glystyrau, cydnabyddir y bydd trafodaeth broffesiynol barhaus rhwng cydweithwyr cynradd ac uwchradd yn elfen gynyddol bwysig. Cynllunnir gweithgareddau fel cyd-arsylwi gwersi i ddatblygu dulliau addysgegol ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

Ar draws y rhanbarth, mae bron pob ysgol wedi ystyried ei dull asesu ac wedi gweithredu mewn amrywiol ffyrdd i ddatblygu'r prosesau hyn. Mae ysgolion wedi ystyried eu trefniadau presennol, er enghraifft, mae'r ysgolion sydd yn rhan o'r gwaith gyda Lyn Sharrat wedi gweld ble mae'r gwaith ar 'raeadr asesu' a sgiliau meddwl uwch yn cyd-fynd yn naturiol â chynllunio'r Cwricwlwm i Gymru o gwmpas cynnydd ac asesu. Mae ysgolion wedi adnabod blaenoriaethau i'w lleoliadau yn ymwneud ag asesu ar gyfer dysgu, rhai enghreifftiau yw gwella ansawdd yr adborth



Tud. 58



a defnyddio seibiannau dysgu i helpu dysgwyr werthuso'u gwaith. Mae lleiafrif o ysgolion hefyd yn edrych ar brynu pecyn masnachol i olrhain cynnydd dysgwyr, tra bod nifer fach yn cydweithio â chydweithwyr o fewn ysgolion eraill i ddatblygu eu dulliau eu hunain gan ddefnyddio gwaith ymchwil addysgol i lywio'r gwaith hwn.

Nododd bron pob ysgol bod datblygu dealltwriaeth gyffredin o'r egwyddorion cynnydd yn flaenoriaeth i gael sylw parhaus ym mis Medi. Bydd canllawiau pellach, enghreifftiau a thrafodaethau proffesiynol mewn rhwydweithiau yn allweddol i gefnogi'r gwaith hwn. Mae ysgolion yn ystyried sut i roi 'gwaelodlin' i'w dysgwyr ar fynediad gan ddefnyddio ystod eang o ddata i ddangos cynnydd yn erbyn y pedwar diben. Rhoddir ystyriaeth i drafod yn barhaus ag ysgolion cynradd lleol ac ysgolion uwchradd eraill lleol, ar ddulliau posibl i'w defnyddio i gofnodi cynnydd, gyda phwyslais ar y data pontio sydd yn angenrheidiol i gefnogi pob dysgwr.

● **Dylunio, cynllunio a pheilotia'r modelau cwricwlwm arfaethedig, gwerthuso'r dyluniadau cychwynnol a datblygu cynlluniau ar gyfer y tymor canolig**

Ar draws y rhanbarth, mae Uwch Arweinwyr ysgolion wedi ail-gyflwyno prosesau sicrhau ansawdd oherwydd heriau gweithredol parhaus y pandemig. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae prosesau ar waith sydd yn adnabod sut bydd gwaith i dreialu dulliau o ddylunio'r cwricwlwm yn cael ei werthuso. Ble mae ysgolion yn arbrofi â chynnwys mwy newydd mewn Meysydd Dysgu a Phrofiad, nodwyd amser i adolygu a myfyrio yn rheolaidd.

Ar draws y rhan fwyaf o ysgolion, mae staff ysgolion wedi bod yn gweithio o fewn timau Maes Dysgu a Phrofiad i ddadbacio'r Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig er mwyn:

- adnabod y cysyniadau allweddol sydd angen eu datblygu;
- nodi sut mae'r datganiad yn cefnogi'r pedwar diben;
- ystyried sut brofiadau allai gefnogi'r dysgu yn eu meysydd;
- ystyried pa gyfleoedd sydd yna i roi sylw i'r themâu trawsgwricwlaidd;
- ystyried pa gysylltiadau, y gellir edrych arnynt rhwng y rhain a Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig neu MDaPh eraill.

Rhannwyd canllawiau drwy'r rhwydweithiau Cwricwlwm i Gymru rhanbarthol a lleol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn dilyn y broses hon i ddatblygu a chynllunio'r cwricwlwm newydd.

Mae pob ysgol wedi nodi bod datblygu'r gwaith cwricwlwm yn flaenoriaeth allweddol yn ystod amser HMS ac mae llawer o ysgolion yn amserlennu amser cyfarfod rheolaidd i ddatblygu, adolygu a gwerthuso'r Cwricwlwm i Gymru. Yn y flwyddyn academaidd nesaf, bydd creu cyfleoedd i ysgolion rannu eu hamrywiol ddulliau â'i gilydd yn bwysig.

CRYNODEB O DDYSGU PROFFESIYNOL A CHYMORTH GwE I YSGOLION

Drwy ddarparu rhaglenni dysgu proffesiynol effeithiol, cefnogwyd ysgolion ar draws pob sector i ddatblygu eu cynlluniau cwricwlwm cychwynnol. Mae gan bob ysgol fynediad at gynnig dysgu proffesiynol cynhwysfawr sy'n cynnwys cynnig cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn canolbwyntio ar ddatblygu dulliau gweithredu ysgol gyfan, MDaPh a disgyblaeth bynciol lle bo'n briodol. Mae'r cynnig hwn, sydd yn cynnwys addysgeg (y deuddeg egwyddor addysgegol), dylunio a chynllunio cwricwlwm, asesu a chynnydd, yn cyd-fynd yn glir â chymau y 'Daith i Weithredu'r Cwricwlwm' er mwyn sicrhau bod ysgolion yn gymwys i wella ansawdd y dysgu a'r addysgu a dechrau gweithredu o fis Medi 2022.

Drwy ymgynghori'n rheolaidd â fforymau phenaethiaid, gall anghenion yr ysgolion lywio'r cynnig dysgu proffesiynol rhanbarthol. Mae cyd-lunio yn dal yn gydran graidd y gwaith rhanbarthol er mwyn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol ymarferol sydd yn helpu arweinwyr ac athrawon i ddeall yn well sut y gallant ddylunio, mabwysiadu a chyflwyno eu cwricwlwm. Fel rhan annatod o hyn, mae prosesau arfarnu cadarn ar waith i fonitro effaith y cymorth a ddarperir a mireinio'r cynnig fel bo angen.

Yn ystod tymhorau'r Gwanwyn a'r Haf, mae cynnig dysgu proffesiynol GwE wedi canolbwyntio ar gyfres o weminarau ar-lein i uwch arweinwyr, arweinwyr canol ac athrawon i fynychu i gefnogi ysgolion yn eu paratodau tuag at y cwricwlwm newydd. Cafwyd niferoedd da yn y sesiynau rhithiol hyn ar draws y rhanbarth, gyda llawer o ysgolion yn manteisio ar y cyfle i gyfrannu fel tîm arweinyddiaeth llawn ac/neu fel cyfarfod staff cyfan. Recordiwyd y sesiynau



Tud. 59



hyn a'u rhannu â phob ysgol er mwyn i ymarferwyr eu gwyllo ar yr amser mwyaf priodol. Ar ben hynny, cafodd bob ysgol y cyfle i gael sgysiau dilynol â'u Hymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant ac mae llawer o ysgolion a chlystyrau wedi gofyn am sesiynau penodol i ddatblygu ar y gwaith hwn ymhellach. Mae nifer cynyddol o ysgolion wedi cyfrannu at y sesiynau, yn rhannu arferion cynnar ac enghreifftiau lleol. O ganlyniad, gall ysgolion weld y theori ar waith. Gwelir trosolwg o'r cynnig dysgu proffesiynol cyffredinol i'r rhanbarth yn y tabl isod.

Gan weithio'n rhan o'r grŵp Dysgu Proffesiynol traws-ranbarthol cenedlaethol, mae ystod o adnoddau ategol, (a ddarperir yn gydamserol ac yn anghydamserol) sydd bellach wedi'u rhannu'n genedlaethol i bob ymarferwr eu defnyddio. Mae cyfathrebu rheolaidd a pharhaus ag ymarferwyr drwy'r rhwydweithiau yn dal yn flaenoriaeth allweddol er mwyn sicrhau mynediad agored a theg i bob rhanddeiliad.

O ran yr ysgolion hynny sydd yn paratoi'n dda i gyflwyno'r cwricwlwm, maent wedi gweithio'n ehangach mewn ffordd gydweithredol yn hytrach na chystadleuol. Mae'r cwricwla a ddatblygir yn tynnu ar gyd-destunau lleol, yn cryfhau perthnasoedd yn y gymuned ac yn cynnwys yr holl randdeiliaid mewn gweledigaeth a rennir ar gyfer dysgu ac addysgu. Mae dysgwyr wrth wraidd cynllunio'r cwricwlwm, yn datblygu cwricwlwm pwrpasol, gyda chyfleoedd i fod yn fwyfwy arloesol a chreadigol.

SESIYNAU I UWCH DIMAU ARWEINYDDIAETH	Nifer yr ysgolion yn mynychu
<i>Dylunio Cwricwlwm</i>	<i>504 Cynradd, 101 Uwchradd, Arbennig ac UCD</i>
<i>Asesu a Chynnydd</i>	<i>620 Cynradd, 141 Uwchradd, Arbennig ac UCD</i>
<i>Egwyddorion Cynllunio</i>	<i>499 Cynradd, 95 Uwchradd, Arbennig ac UCD</i>
<i>Galluogi Dysgu</i>	<i>362 Cynradd</i>
SESIYNAU I ARWEINWYR CANOL / ATHRAWON	
Sesiwn 1: Dadbacio Meysydd Dysgu a Phrofiad	
Cynradd	237
leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu Uwchradd	110
Mathemateg a Rhifedd Uwchradd	48
Gwyddoniaeth a Thechnoleg Uwchradd	54
Dyniaethau Uwchradd	48
Iechyd a Lles Uwchradd	43
Y Celfyddydau Mynegiannol Uwchradd	36
Sesiwn 2: Cynnydd mewn Dysgu	
Cynradd	518
Olrhain ac Asesu Cynradd	312
leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu Uwchradd	64
Mathemateg a Rhifedd Uwchradd	43
Gwyddoniaeth a Thechnoleg Uwchradd	38
Dyniaethau Uwchradd	21
Iechyd a Lles Uwchradd	21
Y Celfyddydau Mynegiannol Uwchradd	15

Mae rhwydweithiau a fforymau lleol a rhanbarthol yn effeithiol o ran cefnogi dealltwriaeth ymarferwyr o'r hyn sy'n gweithio wrth ddylunio'r cwricwlwm. Bu nifer cynyddol o ymarferwyr ysgol yn rhan o'r rhwydweithiau Cwricwlwm i Gymru rhanbarthol a lleol ar draws y rhanbarth, gyda mwy na 800 o staff GwE, Awdurdodau Lleol ac ymarferwyr ysgol yn gweithio'n agos i ystyried dylunio a chynllunio'r cwricwlwm ar lefel ysgol gyfan ac ar lefel Maes Dysgu a



Tud. 60



Phrofiad. Drwy gydol y flwyddyn, bu nifer cynyddol o ysgolion yn rhannu eu dulliau a'u prosesau dylunio cwricwlwm a rhennir yr holl waith drwy'r wefan i bob ysgol gael gweld. Yn ôl y data, mae nifer cynyddol o ysgolion yn edrych ar y tudalennau Cwricwlwm i Gymru ar Ganolfan Cefnogaeth GwE gyda nifer yr ymwelwyr yn codi dros dymor yr Haf o 2845 i 6587 (cyfrwng Saesneg) ac o 2674 i 6429 (cyfrwng Cymraeg).

Ar ddiwedd tymor yr Haf 2022, bu GwE yn gweithio gyda Phrifysgol Bangor i gynnal gwerthusiad ffurfiol o'r rhwydweithiau rhanbarthol a lleol. Bydd canfyddiadau'r gwerthusiad hwn yn llywio camau nesaf y rhwydweithiau. Yn ôl y sylwadau cychwynol, mae mwy o berchnogaeth ar y cwricwlwm ar draws ymarferwyr y rhwydwaith a dealltwriaeth well o fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Mae GwE yn gweithio mewn partneriaeth gref gyda phartneriaid mewn Sefydliadau Addysg Uwch i gefnogi ysgolion yn effeithiol i ddatblygu rôl ymholi yn rhan o ddatblygu cwricwlwm lleol.

Mae'r holl Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG) wedi gweithio'n agos gyda'u hysgolion ac wedi cefnogi ysgolion mewn amrywiaeth o ffyrdd i fodloni anghenion ysgolion unigol a chlystyrau o ysgolion. Dyma enghreifftiau o gymorth:

- Yn fuan yn nhymer yr Hydref 2021, bu pob YCG yn cydweithio â chlystyrau neu ysgolion unigol i lunio blaenoriaeth i gyflwyno'r cwricwlwm yn eu cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynlluniau yn nodi'n glir cerrig milltir ar gyfer gweithgareddau ym mhob ysgol i ddeall yn llawn fframwaith Cwricwlwm i Gymru, arbrofi â chynllunio a dysgu a casglu barn rhanddeiliaid er mwyn cyfrannu at weledigaeth erbyn Haf 2022. Yn ystod eu hymweliadau, bu'r YCG yn trafod gweithrediad ac effaith y cynllun wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi;
- Mae pob YCG wedi bod yn rhan o arwain yr ysgolion drwy amrywiol weithdai ar arwain newid, cynllunio'r daith at 2022, gweithdy ar weledigaeth ysgol, asesu a chynnydd, a dylunio model cwricwlwm lefel uwch. Rhoddwyd mynediad at recordiadau o'r cyflwyniadau hyn i bob ysgol, yn ogystal ag arlwy gynhwysfawr o adnoddau ar wefan GwE;
- Cyflwynwyd adnoddau perthnasol eraill, fel y papurau procio, i bob ysgol a chlwtwr a defnyddiwyd y rhain bellach i fapio'r daith gan bron pob ysgol;
- Mae pob YCG wedi cyfarfod â phenaethiaid i rannu'r adnoddau a ddatblygwyd gan GwE i gefnogi ysgolion gyda'r broses o ddylunio'r cwricwlwm a sicrhau bod cyfeiriad strategol i arwain y gwaith cynllunio a chyflwyno;
- Gwelwyd llawer o glystyrau yn elwa o gymorth yr YCG, ac yn aml rhai o'u cydweithwyr, i arwain sesiynau ysgol gyfan yn ystod dyddiau hyfforddiant a sesiynau gwyll, er enghraifft arwain ysgolion drwy ofynion Cwricwlwm i Gymru, deall a dadbacio'r MDaPh a thrafod strategaethau i ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm;
- Mae pob YCG hefyd wedi bod yn rhan o gyfarfodydd dal fyny i benaethiaid, sydd wedi cynnwys eitemau cwricwlwm lleol ar eu hagenda. Golyga hyn fod y newyddion diweddaraf yn cael eu rhannu a bod y penaethiaid yn cael eu diweddarau'n rheolaidd ar y camau nesaf wrth gyflwyno;
- Darparu sesiynau penodol mewn llawer o ysgolion i ddatblygu eu dealltwriaeth o ddibenion asesu o fewn y Cwricwlwm i Gymru a mynediad at enghreifftiau o sut mae ysgolion yn datblygu eu dulliau;
- Yn ogystal â'r penaethiaid a'r athrawon mewn ysgolion, mae'r cymorthyddion dysgu ym mron pob ysgol hefyd wedi bod yn rhan o'r gyfarfodydd a'r gweithdai hyn gyda'r YCG. Ers dechrau'r pandemig, mae Cymorthyddion Dysgu wedi cael eu huwch sgilio a'u grymuso i fabwysiadu rolau amlycach yn yr ysgol, er enghraifft, cyfrannu at broses cynllunio'r cwricwlwm;
- Bu YCG hefyd yn cynnig cymorth i lywodraethwyr ar eu rôl yn cefnogi ysgolion gyda dylunio a chynllunio;
- Yn ystod tymhorau'r Gwanwyn a'r Haf, bu YCG yn canolbwyntio'n bennaf ar gefnogi ysgolion i lunio gweledigaeth a dyluniad cwricwlwm, gan sicrhau cyfraniad yr holl randdeiliaid lleol;
- Drwy gydol tymor y Gwanwyn a'r Haf, roedd darparu cymorth ar agweddau ar ddysgu ac addysgu yn cynnwys edrych eto ar y deuddeg egwyddor addysgegol;
- Erbyn diwedd tymor yr Haf, yn sgil cyfraniad yr YCG, gan gynnwys gweithdai a modelau GwE, mae bron pob ysgol wedi drafftio dyluniad lefel uchel o'u cwricwlwm at fis Medi, ac mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi trafod a bellach wedi derbyn y dyluniad drwy eu cyrff llywodraethu;
- Cyfarfu'r YCG â Phenaethiaid ac aelodau'r Uwch Dimau Arwain ym mhob ysgol i gefnogi gyda gwerthuso gwaith dylunio a chynllunio cwricwlwm yr ysgol ac adnabod unrhyw ofynion o ran cymorth;
- Mae YCG pynciol wedi cefnogi mwyafrif yr ysgolion gyda chynllunio Maes Dysgu a Phrofiad a datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd ar draws yr ysgol;
- Mae pob ysgol wedi cael recordiadau ac adnoddau o'r weminarau dylunio'r cwricwlwm ac asesu;
- Mae YCG wedi cefnogi a hwyluso gwaith clwtwr a chynghrair ble'n briodol;



Tud. 61



- Mae YCG wedi galluogi ysgolion i ddatblygu rôl cymheiriaid o fewn hunan arfarnu a chysoni hyn â'r ffocws ar Cwricwlwm i Gymru ble'n briodol.



Tud. 62



ATODIAD 1

CEFNOGAETH CiG GWANWYN A HAF 2022 / CfW SUPPORT SPRING AND SUMMER 2022



Ysgol / School		ALI / LA	
Pennaeth / Headteacher		YCG / SIA	
Statws / Status	Drafft / Draft	Dyddiad / Date	

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r broses a'r cynnydd y mae ysgolion a lleoliadau rhanbarthol yn ymgymryd â nhw mewn paratoad ar gyfer gwreiddu'r cwricwlwm ym mis Medi 2022 (neu Medi 2023 ar gyfer ysgolion uwchradd sydd wedi dewis yr opsiwn hwnnw). Mae'r broses a nodir isod yn cyd-fynd yn llawn â'r camau gaiff eu hamlinellu yn y ddogfen Y Daith i Weithredu'r Cwricwlwm.

This report captures the process and progress that regional schools and settings are undertaking to be prepared for curriculum realisation in September 2022 (or September 2023 for secondary schools who have taken that option). The identified process below aligns fully to the steps outlined in the Journey to Rollout document.

Crynodeb o fewnbwn yr YCG hefo'r ysgol yn dilyn gweminarau dylunio, cynllunio ac asesu.
Summary of SIA input to school following design, planning and assessment webinars.

--

Cam 1: Adnabod ffactorau unigryw'r ysgol / lleoliad sut mae'r rhain yn cyfrannu at y pedwar diben.
Step 1: Identifying the unique factors of the school / setting and how these contribute to the four purposes.

--

Cam 2: Adolygu'r weledigaeth, y gwerthoedd a'r ymddygiadau i gefnogi gwreiddu'r cwricwlwm.
Step 2: Reviewing the vision, values and behaviours to support curriculum realisation.

--

Cam 3: Dealltwriaeth o ystyriaethau dylunio cwricwlwm gan gynnwys elfennau mandadol a pholisi ieithyddol yr ysgol.
Step 3: Understanding of curriculum design considerations including mandatory elements and school linguistic policy.

--

Cam 4: Adolygu modelau dylunio cwricwlwm ac ymchwilio i'w haddasrwydd ar gyfer yr ysgol / lleoliad penodol.
Step 4: Review curriculum design models and investigate the suitability for their specific school / setting.

--

Cam 5: Ystyried rôl dilyniant, asesu ac addysgeg yn y cwricwlwm a'r cyd-destun lleol.
Step 5: Considering the role of progression, assessment and pedagogy in their local curriculum / context.

--

Cam 6: Dylunio, cynllunio a threialu y model cwricwlwm arfaethedig, gwerthuso'r dyluniadau cychwynnol a datblygu cynlluniau ar gyfer y tymor canolig.
Step 6: Designing, planning and trialling their proposed curriculum model, evaluating initial designs and developing medium term plans.

A oes unrhyw feysydd/agweddau pellach ar ddysgu proffesiynol sydd wedi'u hadnabod? Beth fydd rôl a chyfraniad eich YCG ac aelodau estynedig tîm GwE wrth gefnogi'r gwaith hwn?
 Are there any other further areas/aspects for professional learning that you have identified? What will be the role and contribution of your SIA and extended GwE team members in supporting this work?

Gwybodaeth ychwanegol os nad yw'r ysgol ar drac ar gyfer y gweithredu.....gan gynnwys cefnogaeth wedi'i thargedu.
 Additional information if school is not on track for implementation.....including targeted support.

Ysgolion Uwchradd, Canol, Arbennig a UCD yn unig: Dyddiad gweithredu'r cwricwlwm newydd ar gyfer disgyblion blwyddn 7 a 8
Secondary, Middle, PRUs and Special Schools Only: Implementation Date of the new curriculum for pupils in years 7 and 8.

GWEITHREDU / ACTIONS

Camau Gweithredu / Required Action	Cyfrifoldeb / Responsibility	Pryd / By When

Arwyddwyd / Signed

Dyddiad / Date



1	Adnabod ffactorau unigryw'r ysgol / lleoliad a sut mae'r rhain yn cyfrannu at y pedwar diben. Identifying the unique factors of the school / setting and how these contribute to the four purposes.	Ar drac / On Track
2	Adolygu'r weledigaeth, y gwerthoedd a'r ymddygiadau i gefnogi gwireddu'r cwricwlwm. Reviewing the vision, values and behaviours to support curriculum realisation.	Ar drac / On Track
3	Dealltwriaeth o ystyriaethau dylunio cwricwlwm gan gynnwys elfennau mandadol a pholisi ieithyddol yr ysgol. Understanding of curriculum design considerations including mandatory elements and school	Ar drac / On Track
4	Adolygu modelau dylunio cwricwlwm ac ymchwilio i'w haddasrwydd ar gyfer yr ysgol / lleoliad penodol. Review curriculum design models and investigate the suitability for their specific school /	Ar drac / On Track
5	Ystyried rôl dilyniant, asesu ac addysgeg yn y cwricwlwm a'r cyd-destun lleol. Considering the role of progression, assessment and pedagogy in their local curriculum / context.	Ar drac / On Track
6	Dylunio, cynllunio a threialu y model cwricwlwm arfaethedig, gwerthuso'r dyluniadau cychwynnol a datblygu cynlluniau ar gyfer y tymor canolig. Designing, planning and trialling their proposed curriculum model, evaluating initial designs and developing medium term plans.	Ar drac / On Track

ATODIAD 2

Gweithgareddau a gofnodwyd ac amser a dreuliwyd


Mae pob Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant (YCG) yn cysylltu â'i r(h)eolwr llinell bob bore a chofnodir rhestr o'u tasgau dyddiol yn eu calendr. Dyma grynodedb o weithgareddau staff GwE ers y cyfnod clo cyntaf:

Activities recorded and time spent

Every Supporting Improvement Adviser (SIA) contacts his/her line manager every morning and a list of their daily tasks is recorded in their calendar. Here is a summary of the activities of GwE staff since the first lockdown period:


1. Am y cyfnod rhwng 23 Mawrth a 22 Mai, 2020 For the period between 23 March and 22 May, 2020

Categori Category	Oriau Hours	% Oriau Hours
Cefnogi a gweithio gydag ysgolion Supporting and working with schools	9049	44%
Gwaith Rhanbarthol ac Awdurdod Lleol Regional and Local Authority work	6992	34%
Cefnogi Dysgu Proffesiynol Supporting Professional Learning	1645	8%
Parhad Dysgu Cenedlaethol National Continuity of Learning	2879	14%
Arall Other	45	<1%



2. Am y cyfnod rhwng 1 Mehefin a 17 Gorffennaf, 2020. For the period between 1 June and 17 July, 2020


Categori Category	Oriau Hours	% Oriau Hours
Cenedlaethol National	1044	7%
Gwaith Rhanbarthol Regional work	3704	25%
Ysgolion - gwaith Rhanbarthol wrth gefnogi ysgolion Schools – Regional work supporting schools	3619	24%
Cyfarfodydd Awdurdod Lleol Local Authority meetings	653	4%
Ysgolion - cymorth unigryw/clwstwr Schools – bespoke support/cluster	2788	19%
Arall er enghraifft paratoi, datblygu canllawiau/adnoddau, gwneud gwaith ymchwil, darllen, gwella sgiliau digidol (gweminarau) ac ati Other for example preparation, developing guides/resources, doing research, reading, improving digital skills (webinars) etc.	3084	21%



ATODIAD 2


3. Am y cyfnod rhwng 1 Medi a 31 Rhagfyr, 2020. For the period between 1 September and 31 December 2020.

Categori Category	Oriau Hours	% Oriau Hours
Cenedlaethol National	2284	6%
Gwaith Rhanbarthol Regional work	10675	28%
Awdurdod Lleol Local Authority	2284	6%
Ysgolion - Cefnogi a gweithio gydag ysgolion (rhithwir), ymweliadau ysgol, cefnogi gwaith clystyrau a chynghreiriau, Dysgu Proffesiynol Schools - Supporting and working with (virtual) schools, school visits, supporting the work of clusters and alliances, Professional Learning	11789	31%
Ysgolion - Rheoli Perfformiad Penaethiaid Schools – Headteacher Performance Management	380	1%
Dysgu Carlam Accelerated Learning	3423	9%
Arall - er enghraifft paratoi, datblygu canllawiau/adnoddau, gwneud gwaith ymchwil, darllen, gwella sgiliau digidol (gweminarau) ac ati Other - for example preparation, developing guides/resources, doing research, reading, improving digital skills (webinars) etc.	7223	19%




**4. Am y cyfnod rhwng 1 Ionawr a 9 Ebrill, 2021
For the period between 1 January and 9 April, 2021**

Categori Category	Oriau Hours	% Oriau Hours
Cenedlaethol National	1614	7%
Gwaith Rhanbarthol Regional work	7639	33%
Awdurdod Lleol Local Authority	1542	6%
Ysgolion - Cefnogi a gweithio gydag ysgolion (rhithwir), ymweliadau ysgol, cefnogi gwaith clystyrau a chynghreiriau, Dysgu Proffesiynol Schools - Supporting and working with (virtual) schools, school visits, supporting the work of clusters and alliances, Professional Learning	7895	34%
Ysgolion - Rheoli Perfformiad Penaethiaid Schools – Headteacher Performance Management	213	1%
Arall - er enghraifft paratoi, datblygu canllawiau/adnoddau, gwneud gwaith ymchwil, darllen, gwella sgiliau digidol (gweminarau) ac ati Other - for example preparation, developing guides/resources, doing research, reading, improving digital skills (webinars) etc.	4338	19%




**5. Am y cyfnod rhwng 11 Ebrill a 23 Gorffennaf, 2021.
For the period between 11 April and 23 July, 2021.**

Categori Category	Oriau Hours	% Oriau Hours
Cenedlaethol National	1168	5%
Gwaith Rhanbarthol Regional work	7212	33%
Awdurdod Lleol Local Authority	1414	6%
Ysgolion - Cefnogi a gweithio gydag ysgolion (rhithwir), ymweliadau ysgol, cefnogi gwaith clystyrau a chynghreiriau, Dysgu Proffesiynol Schools - Supporting and working with (virtual) schools, school visits, supporting the work of clusters and alliances, Professional Learning	8184	37%
Arall - er enghraifft paratoi, datblygu canllawiau/adnoddau, gwneud gwaith ymchwil, darllen, gwella sgiliau digidol (gweminarau) ac ati Other - for example preparation, developing guides/resources, doing research, reading, improving digital skills (webinars) etc.	4218	19%




6. Am y cyfnod rhwng 1 Medi a 24 Rhagfyr, 2021. For the period between 1 September and 24 December, 2021

Categori Category	Oriau Hours	% Oriau Hours
Cenedlaethol National	1359	5%
Gwaith Rhanbarthol Regional work	8893	36%
Awdurdod Lleol Local Authority	1572	6%
Ysgolion - Cefnogi a gweithio gydag ysgolion Schools – Supporting and working with schools	7881	32%
Ysgolion - Cefnogi gwaith clwstwr a chynghreiriau Schools - Supporting cluster work and alliances	1087	4%
Ysgolion - Rheoli Perfformiad Penaethiaid Schools – Headteacher Performance Management	300	1%
Arall er enghraifft paratoi, datblygu canllawiau/adnoddau, gwneud gwaith ymchwil, darllen, gwella sgiliau digidol (gweminarau) ac ati Other for example preparation, developing guides/resources, doing research, reading, improving digital skills (webinars) etc.	3785	15%




**7. Am y cyfnod rhwng 3 Ionawr a 22 Ebrill, 2022.
For the period between 3 January and 22 April, 2022.**

Categori Category	Oriau Hours	% Oriau Hours
Cenedlaethol National	1592.3	7%
Gwaith Rhanbarthol Regional Work	8556.1	38%
Awdurdod Lleol Local Authority	1197.5	5%
Ysgolion - Cefnogi a gweithio gydag ysgolion Schools - Supporting and working with schools	6516.7	29%
Ysgolion - Cefnogi gwaith clwstwr a chynghreiriau Schools - Supporting the work of clusters and all- iances	1036.5	4%
Ysgolion - Rheoli Perfformiad Penaethiaid Schools - Headteachers' Performance Management	151.4	1%
Arall - Other	3678	16%



**8. Am y cyfnod rhwng 25 Ebrill a 22 Gorffennaf, 2022.
For the period between 25 April and 22 July, 2022.**

Categori Category	Oriau Hours	% Oriau Hours
Cenedlaethol National	993	5%
Gwaith Rhanbarthol Regional Work	6412	34%
Awdurdod Lleol Local Authority	1336.5	7%
Ysgolion - Cefnogi a gweithio gydag ysgolion Schools Supporting and working with schools	6261	34%
Ysgolion - Cefnogi gwaith clwstwr a chynghreiriau Schools Supporting the work of clusters and alli- ances	875	5%
Ysgolion - Rheoli Perfformiad Penaethiaid Schools - Headteachers' Performance Management	24	0%
Arall Other	2701	15%





ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

5 Hydref 2022

Adroddiad gan: Arwyn Thomas - Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Pwnc: Rhaglen Waith GwE yn ystod Tymor yr Hydref a'r Gwanwyn 2022-23

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

Cyflwyno gwybodaeth i aelodau'r Cyd-bwyllgor ar brif ffocws ein rhaglen waith ar gyfer tymor yr hydref a'r tu hwnt.

2.0 Cefndir

Mae'r canllawiau gwella ysgolion cenedlaethol newydd yn gosod allan yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl gan bob rhanddeiliad wrth gyfrannu at wella ysgolion. Mae'r canllawiau yn gosod allan fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd a fydd yn sicrhau gwelliant cynaliadwy mewn ysgolion ac yn ysgogi ymddygiadau ac arferion sy'n ofynnol gan y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd.

Bydd ein rhaglen waith, o fis Medi 2022, yn cefnogi ysgolion a lleoliadau wrth iddynt esblygu eu prosesau a'u harferion i fynd i'r afael yn effeithiol â gofynion a disgwyliadau'r fframwaith newydd.

Bydd prif ffocws yr ymwneud ag ysgolion yn cynnwys cymorth i:

- ddatblygu a chyfoethogi ymhellach brosesau a systemau hunan arfarnu a chynllunio gwelliant.
- datblygu eu cynnig Cwricwlwm i Gymru.
- cryfhau ymhellach ansawdd y dysgu a'r addysgu a'r asesu ar draws yr ysgol.
- cryfhau ymhellach ansawdd yr arweinyddiaeth ar draws yr ysgol.
- cydweithredu'n effeithiol ar lefel cynghrair a chlwstwr.

Yn eu gwaith gydag ysgolion cyswllt, bydd Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn sicrhau:

- bod ganddynt asesiad cyfansawdd a manwl gywir o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn yr ysgol ar sail arfarniad o ddata/gwybodaeth a chymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgareddau craffu.
- pob ysgol gyswllt yn cael ei chefnogi yn effeithiol drwy Gynllun Cefnogaeth pwrpasol sydd yn cyd-fynd yn agos â chanfyddiadau hunan arfarnu a blaenoriaethau CGY, bod

cynnydd yn cael ei fonitro a bod ymyrraeth gynnar yn cael ei thargedu ble gwelir bod tanberfformio neu ddiffyg cynnydd.

- Cynlluniau Cymorth bwriadus yn cael eu rhannu â chyrff llywodraethu a bod trafodaeth ystyrlon a phwrpasol yn digwydd gyda llywodraethwyr am brosesau hunan arfarnu a blaenoriaethau gwella yr ysgol; cryfderau'r ysgol y gellid eu defnyddio i gefnogi ysgolion eraill ac unrhyw faterion penodol y mae angen i lywodraethwyr fod yn ymwybodol ohonynt a'u monitro yn yr ysgol.
- strategaethau comisiynu effeithiol yn cael eu rhoi ar waith i roi sylw i welliannau mewn ysgol pan fo angen h.y. ble nad oes gan y tîm y cynhwysedd neu'r arbenigedd angenrheidiol.

Bydd gan Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant hefyd rôl gyswllt gyda chynghreiriau/clystyrau a fydd yn cynnwys:

- cyfrannu mewn cyfarfodydd a hwyluso cefnogaeth ychwanegol lle bo angen
- helpu cynghreiriau/clystyrau i ymateb i'r canllawiau gwella ysgolion cenedlaethol newydd drwy ddatblygu cydweithio ymhellach er mwyn cyfoethogi prosesau a systemau hunan arfarnu a chynllunio gwelliant ym mhob ysgol.
- cefnogi efo cynlluniau ar gyfer parhad a chynnydd wrth ddatblygu'r Cwricwlwm i Gymru.
- helpu cynghreiriau/clystyrau i adnabod cyfraniadau i'r cynnig dysgu proffesiynol rhanbarthol/lleol i gymheiriaid

Bydd cydweithio ag ysgolion a chlystyrau i ddatblygu asesiad cyfansawdd a manwl gywir o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn golygu archwilio ar y cyd sut y mae ysgolion yn:

- gwerthuso canlyniadau arholiad TGAU a Safon Uwch [uwchradd] a safonau a chynnydd mewn meysydd fel llythrennedd, rhifedd, sgiliau sylfaenol, lles, dysgwyr sy'n fregus i ddysgu [cynradd ac uwchradd].
- mireinio eu prosesau a'u systemau hunan arfarnu a chynllunio gwelliant i fodloni gofynion y Canllawiau Gwella Ysgolion newydd, a sut y gallai cyfraniadau cymheiriaid i'r prosesau hynny esblygu.
- helpu pob dysgwr i ddatblygu sylfaen gadarn ar gyfer dysgu, datblygu sgiliau a gwneud cynnydd a sut yr eir i'r afael â rhwystrau penodol.
- pontio'r profiad dysgu i bob grŵp blwyddyn i sicrhau parhad a chynnydd a lliniaru unrhyw bwysau ac ansicrwydd allai fod yn poeni rhai dysgwyr.
- gweithio o fewn eu clystyrau i sicrhau pontio llyfn o'r cynradd i'r uwchradd.
- cael budd o, a chyfrannu i, ddysgu proffesiynol ar lefel ranbarthol a lleol.

3.0 Ystyriaethau

3.1 Yng ngogledd Cymru, mae GwE a'r chwe Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth efo ysgolion er mwyn sicrhau bod gennym systemau a phrosesau cadarn a phwrpasol ar waith i arddel disgwyliadau cenedlaethol. Bydd ein dull gweithredu yn sicrhau ffydd a chefnogaeth pob rhanddeiliad allweddol a bod pob partner yn cymryd atebolrwydd llawn am gyflawni ei rôl a chyfrannu gyda thryloywder, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd.

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.

5.0 Goblygiadau Ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol.

6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

8.1 Ymgynghori â Bwrdd Rheoli GwE a Phenaethiaid rhanbarthol mewn Fforymau Strategol ac yng Nghynhadledd GwE i uwch arweinwyr yn Venue Cymru ar 22 a 23 Medi 2022.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Swyddog Cyllid Statudol:

Nodaf fod rhan 5 o'r adroddiad yn cadarnhau nad oes unrhyw ymhlygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad, a bydd GwE yn gweithredu o fewn eu hadnoddau ariannol cyfredol. Felly, nid oes gennyf sylwadau i'w ychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

5 HYDREF 2022

Adroddiad gan: Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Pwnc: Cynhadledd Ranbarthol GwE 2022

'Arweinyddiaeth sy'n Ysbrydoli: Rhoi'r profiadau gorau un i'n dysgwyr'

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno gwybodaeth i aelodau'r Cyd-bwyllgor am gynhadledd ranbarthol GwE.

2.0 Cefndir

2.1 Wrth edrych ymlaen at y flwyddyn academiaidd ddilynol ar ddiwedd tymor yr haf, a pharhau â'r cydweithio gyda ysgolion y rhanbarth ar wreiddio'r Cwricwlwm a goblygiadau'r Canllawiau Gwella Ysgolion newydd, penderfynwyd cynnal cynhadledd ar gyfer Arweinwyr / Uwch Arweinwyr yn Venue Cymru, Llandudno ar Fedi 22ain a 23ain, 2022. Bwriad y Gynhadledd "Arweinyddiaeth Ysbrydoledig: Rhoi'r profiadau gorau bosib i'n dysgwyr" oedd rhoi cyfle i osod cyfeiriad ein gwaith i'r dyfodol a ffocysu ar anghenion cefnogaeth ysgolion wrth symud ymlaen.

3.0 Materion i'w hystyried

3.1 Prif amcanion y gynhadledd oedd:

- Ysbrydoli Arweinwyr
 - Sut i roi'r profiadau gorau i ddysgwyr
 - Gosod cyfeiriad cenedlaethol a lleol
 - Cyfle i ddylanwadu ar gyfeiriad y gefnogaeth i ysgolion
 - Cydweithio
 - Cyfle i fyfyrion ar flaenoriaethau ysgol / clwstwr / cynghrair
-

- Rhannu arfer gan arbenigwyr rhyngwladol a lleol
- Cefnogi lles penaethiaid yn y cyfnod nesaf
- Rôl Estyn yn y cyfnod nesaf
- Arlwy Dysgu Proffesiynol

3.2 Dros y ddau ddiwrnod, fe gofrestrodd 541 ar gyfer y gynhadledd, yn cynnwys hyd at ddau gynrychiolydd o ysgolion y rhanbarth, swyddogion ac Aelodau Etholedig yr Awdurdodau Lleol, Prifysgol Bangor a swyddogion GwE.

3.3 Ynglwm mae copi o'r rhaglen (Atodiad 1), ynghyd â'r arlwy o weithdai oedd ar gael i'r mynychwyr (Atodiad 2). Cafwyd cyflwyniadau, gweithdai a thrafodaethau gyda chydweithwyr a siaradwyr gwadd o'r radd flaenaf.

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

5.0 Goblygiadau ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol.

6.0 Effaith o ran cydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn

8.0 Ymgynghori a wnaed

8.1 Ymgynghorwyd â'r rhanddeiliaid allweddol arferol.

9.0 Atodiadau

9.1 Atodiad 1 – Rhaglen Cynhadledd GwE

9.2 Atodiad 2 – Gweithdai y gynhadledd

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Swyddog Cyllid Statudol:

Dim i'w ychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.

Arweinyddiaeth sy'n Ysbrydoli: Rhoi'r profiadau gorau un i'n dysgwyr



Dydd Iau · 22 Medi 2022 · Venue Cymru, Llandudno

Rhaglen

08:30 – 09:15 Cyrraedd a chofrestru

09:15 – 09:20 Croeso a sylwadau agoriadol

09:20 – 10:45 Gosod y cyd-destun a'r cyfeiriad cenedlaethol

Y Daith Gwricwlwm - Cyfleoedd a Heriau i wella profiadau dysgwyr

Yr Athro Graham Donaldson

'Yma o hyd'

Dafydd Iwan

Arolygu heddiw ac i'r dyfodol

Owen Evans - Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

10:45 – 11:15 Egwyl a phaned

11:15 – 11:45 Arweinyddiaeth sy'n ysbrydoli: Rhoi'r profiadau gorau un i'n dysgwyr yng ngogledd Cymru

Arwyn Thomas - Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

11:45 - 12:30 Diweddariad Estyn - Cwricwlwm a medrau

Gwawr Meirion a Darren Booth-Taylor – Estyn

12:30 – 13:30 Cinio

13:30 – 14:15 Cyd-destun a chyfeiriad cenedlaethol

Owain Lloyd - Cyfarwyddwr y Gymraeg ac Addysg, Llywodraeth Cymru

Sesiwn holi ac ateb

Panel cyflwynwyr – Yr Athro Graham Donaldson, Owen Evans, Owain Lloyd ac Arwyn Thomas

14:15 – 15:15 Gweithdai

15:15 – 15:30 Sylwadau i gloi

Arwyn Thomas - Rheolwr Gyfarwyddwr GwE



Arweinyddiaeth sy'n Ysbrydoli: Rhoi'r profiadau gorau un i'n dysgwyr



Dydd Gwener • 23 Medi 2022 • Venue Cymru, Llandudno

Rhaglen

08:30 – 09:00	Cyrraedd a chofrestru
09:00 – 09:05	Croeso a sylwadau agoriadol
09:05 – 10:15	Strategaethau Addysgu i godi safonau ar ôl Covid Mike Gershon – Ymgynghorydd Addysg
10:15 – 10:45	Egwyl a phaned
10:45–11:45	Llesiant Penaethiaid – Cipolwg ar wytnwch a sut i'w feithrin Sut i fod yn arwr Dr. Coral Harper
11:45 – 13.15	Arweinyddiaeth sy'n Ysbrydoli mewn cyfnod o newid Syr John Jones
13:15 – 13:20	Sylwadau i gloi Arwyn Thomas - Rheolwr Gyfarwyddwr GwE



Gweithdai | Workshops – 22.09.2022

Rhif No.	Teitl Title	Sector	Cyfrwng Medium
1	Gwneud synnwyr o'r canllawiau gwella ysgolion - beth mae hyn yn mynd i olygu i fy ysgol? <i>Making sense of the school improvement guidance- what does it mean for my school?</i>	Pawb / All	Cymraeg gyda darpariaeth cyfieithu ar y pryd <i>Welsh with simultaneous translation facility</i>
2	Aseu Ffurfiannol ar draws y continuum - dyfnhau'r gwreiddiau <i>Formative Assessment across the continuum- deepening the roots</i>	Pawb / All	Cymraeg gyda gwasanaeth cyfieithu ar y pryd <i>Welsh with simultaneous translation facility</i>
3	Cynllunio ar gyfer yr Egwyddorion Cynnydd trwy ddefnyddio strategaethau Tacsonomeg SOLO <i>Planning for the Principles of Progression using Solo Taxonomy strategies</i>	Pawb / All	<i>English</i>
4	Adnabod, cofnodi a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser <i>Identifying, capturing and reflecting on individual learner progress over time</i>	Cynradd ac Arbennig / Primary and Special UCD / PRU	Cymraeg gyda darpariaeth cyfieithu ar y pryd <i>Welsh with simultaneous translation facility</i>
5	'Cynnal fflam y Gymraeg' <i>'Nurturing the Welsh flame'</i>	Pawb / All	Dwyieithog / Bilingual Gyda gwasanaeth cyfieithu ar y pryd <i>With simultaneous translation facility</i>
6	'Ein Llais Ni' - ymholi ac ymchwilio i strategaethau dysgu ac addysgu sy'n datblygu medrau siarad a gwrando y Gymraeg o fewn Cwricwlwm i Gymru <i>'Ein Llais Ni' – investigating teaching and learning strategies that develop Welsh speaking and listening skills within the Curriculum for Wales</i>	Pawb / All	Cymraeg

7	Bod yn barod am y MDaPh <i>Getting AOLE ready</i>	Uwchradd / <i>Secondary</i> Arbennig / <i>Special</i> UCD / <i>PRU</i>	English
8	Cynllunio ysgol gyfan ar gyfer cynnydd dysgwyr yn eu sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol <i>Whole school planning for pupil progress in literacy, numeracy and digital skills</i>	Uwchradd / <i>Secondary</i> UCD / <i>PRU</i>	Cymraeg
9	Esblygu model effeithiol ar gyfer dal effaith <i>Evolving an effective model for capturing impact</i>	Pawb / <i>All</i>	Dwyieithog / <i>Bilingual</i> Gyda gwasanaeth cyfieithu ar y pryd <i>With simultaneous translation facility</i>
10	Dull cydweithredol o ddylunio cwricwlwm arloesol <i>A collaborative approach to designing an innovative curriculum</i>	Cynradd ac Arbennig / <i>Primary and Special</i> UCD / <i>PRU</i>	English